

CABINET



CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD	Dydd Mawrth, 18fed Rhagfyr, 2018
AMSER	1.00 y.h.
LLEOLIAD	Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH
PWYNT CYSWLLT	Annes Siôn 01286 679490 cabinet@gwynedd.llyw.cymru

AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

Aelodau	
Dyfrig L. Siencyn	Arweinydd
Dafydd Meurig	Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Amgylchedd
Craig ab Iago	Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant
Gareth Wyn Griffith	Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol
Nia Wyn Jeffreys	Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol
Peredur Jenkins	Aelod Cabinet Cyllid
Dilwyn Morgan	Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc
W. Gareth Roberts	Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant
Gareth Thomas	Aelod Cabinet Addysg

RHAGLEN

	Eitem	Cyflwynir gan	Swyddog	Tud.
1	YMDDIHEURIADAU			
2	DATGAN BUDDIANT PERSONOL			
3	MATERION BRYD			
4	MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU			
5	COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 27 TACHWEDD			3 - 7
6	ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PANEL STRATEGOL DIOGELU 2017/18	Cyng. Dilwyn Morgan	Morwena Edwards	8 - 23
7	EGWYDDORION ADDYSG ADDAS I BWRPAS	Cyng. Gareth Thomas	Garem Jackson	24 - 33
8	CYFARCH Y BWLCH ARIANNOL	Cyng. Peredur Jenkins	Dilwyn Williams	34 - 208

Y CABINET DYDD MAWRTH, 27 TACHWEDD 2018

Yn bresennol-

Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Dafydd Meurig, Gareth Wyn Griffith, Nia Wyn Jeffreys, Peredur Jenkins, Dilwyn Morgan, W Gareth Roberts, Ioan Thomas a Gareth Thomas

Hefyd yn bresennol-

Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid) ac Annes Siôn (Swyddog Cefnogi Aelodau)

Eraill a wahoddwyd:

Eitem 6: Debbie Jones (Swyddog Gwasanaethau Corfforaethol Addysg)

Eitem 7: Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd) a Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio a Gwarchod Y Cyhoedd)

Eitem 8: Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) Gwen Hughes (Rheolwr Ardal Preswyl a Dydd y Gogledd)

1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan yr Aelod Cabinet Cyng. Craig ab Iago.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYD

Nododd y Swyddog Monitro, yn dilyn caniatâd gan Gadeirydd y Cyngor, y bydd angen ystyried Eitem 7 - Datganiad o Effaith Lleol yn sgil datblygu Gorsaf Bŵer Niwclear Newydd, Wylfa Newydd fel eitem frys. O ganlyniad i hyn ni fydd yn dilyn amserlen arferol y Cabinet ac y bydd y penderfyniad yn cael ei eithrio o'r drefn galw i mewn ac yn dod i rym ar ddyddiad y cyfarfod a'r penderfyniad.

4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

5. COFNODION CYFARFODYDD A GYNHALIWDYD AR 6 TACHWEDD

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfodydd y Cabinet a gynhaliwyd ar y 6ed o Dachwedd fel rhai cywir

6. ADNODDAU CYDLYNYDD STRATEGAETH IAITH UWCHRADD GWYNEDD

PENDERFYNWYD

- a) I ymrwymo £20,000 o gyllid o rŵan hyd at ddiwedd Mawrth 2019 o'r Gronfa

Trawsfurfio i ariannu swydd Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd. Bydd y swydd yn gyfrwng i wireddu un o'r ymrwymadau yng Nghynllun y Cyngor, fydd yn arwain at gynnydd pellach yn nefnydd cymdeithasol a chwricwlaidd disgyblion o'r Gymraeg.

- b) I ddychwelyd gerbron y Cabinet gyda chais am adnoddau pellach i ariannu swydd Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd o 2019/20 ymlaen, pe na fyddai'r trafodaethau gyda'r consortia rhanbarthol (GwE) i gyllido'r swydd i'r dyfodol yn profi yn llwyddiannus.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Gareth Thomas

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod Strategaeth Iaith bellach yn ei le ers rhai blynedd, a bod y Siarter Iaith yn yr ysgolion cynradd wedi ei ymestyn ar hyd Cymru. Mynegwyd fod angen dilyniant i'r Siarter Iaith yn yr ysgolion uwchradd. Penodwyd Cydlynnydd yn Ebrill 2017 i arwain y strategaeth iaith ac ychwanegwyd fod gwaith da wedi ei wneud. Tynnwyd sylw at Ysgol Tywyn ble mae newid agwedd wedi bod tuag at y Gymraeg yn dilyn gwaith penodol ar ysgol gan y cydlynnydd.

Nodwyd flwyddyn yn ôl fod yr Aelod Cabinet wedi gwneud cais am adnoddau ychwanegol wedi ei sylfaenu ar yr un ymrwymiad o adnoddau a roddwyd i sefydlu'r Siarter Iaith yn ysgolion cynradd. Ymatebwyd yn y Cyfarfod Cabinet drwy nodi fod angen i'r Aelod Cabinet Dros Addysg a'r Aelod Cabinet dros y Gymraeg i ysgrifennu at yr Ysgrifenyddion Cabinet perthnasol yn Llywodraeth Cymru yn gofyn iddynt ddarparu'r arian er mwyn ariannu'r swydd Cydlynnydd. Derbyniwyd ymatebiad gan Eluned Morgan AC a oedd yn cyfeirio ar y consortia rhanbarthol GwE. Yn dilyn trafodaethau a GwE, a nododd na fyddai modd i'r consortia gyllido'r swydd yn ystod 2018/19.

Mynegwyd y bydd modd i'r Cyngor ymgeisio am arian gan y consortia rhanbarthol ar gyfer cefnogaeth ariannol o 2019/20 ymlaen, gan nodi mai arian ar gyfer pontio'r ddau gyfnod y bydd yr £20,000 y gofynnwyd amdano.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd fod ymatebiad y Gweinidog Eluned Morgan yn un dyrys o ystyried fod y Cynulliad yn gobeithio cael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Ychwanegwyd eu bod yn synnu nad yw'r Llywodraeth yn gweld y cyfle yn un euraidd er mwyn datblygu Siarter Iaith sydd yn barod yn gweithio yn y cynradd.
- Ategwyd fod Grant Cefnogi'r Gymraeg wedi ei dorri gan y Llywodraeth eleni sydd yn dangos diffyg ymrwymiad y Llywodraeth i gael miliwn o siaradwr Cymraeg. Ychwanegwyd fod Cyngor Gwynedd wedi gwneud y gwaith caib a rhaw ar gyfer y Siarter Iaith gynradd a bod y Llywodraeth wedi ymgymryd â'r prosiect pan yn llwyddiannus. Mynegwyd siom nad yw'r Llywodraeth yn barod i gefnogi ac i fuddsoddi er mwyn datblygu.

7. DATGANIAD O EFFAITH LLEOL YN SGIL DATBLYGIAD GORSAF BŴER

NIWCLEAR NEWYDD, WYLFA NEWYDD, YNYS MÔN

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Dafydd Meurig

PENDERFYNWYD

Cymeradwyo'r datganiad o effaith lleol drafft yn Atodiad 1.

Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Adran Amgylchedd, i wneud man addasiadau a chywiriadau fel bod angen i'r datganiad drafft ac i ychwanegu tystiolaeth berthnasol i gefnogi cyfeiriad y datganiad drafft, cyn cyflwyno'r ddogfen i'r Arolygiaeth Gynllunio erbyn y 4 Rhagfyr 2018.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi er nad yw Wylfa Newydd wedi ei leoli yng Ngwynedd, y bydd angen meddwl ar yr effaith ar Wynedd. Ychwanegwyd fod Cais Cynllunio bellach wedi ei gyflwyno cais DCO i'r Ysgrifennydd Gwladol yn San Steffan er mwyn datblygu'r prosiect. Nodwyd fel rhan o archwilio'r cais DCO mynegwyd fod angen cyflwyno'r datganiad o effaith lleol erbyn y 4ydd Rhagfyr.

Mynegwyd fod y ddogfen 'Datganiad o Effaith Lleol' yn ddogfen mawl a bod y Cyngor yn datgan cefnogaeth mewn egwyddor o Orsaf Bŵer, ond pwysleisiwyd *"nad ydym yn hyderus fod materion arwyddocaol sy'n ymwneud a llety, trafnidiaeth, sgiliau a chyflogaeth, yr iaith Gymraeg a gwasanaethau cyhoeddus wedi cael eu harchwilio a'u hystyried yn ddigonol"*.

Pwysleisiwyd fod y ddogfen drafft yn manylu ar y materion hyn. Mynegwyd fod y materion wedi cael ei godi nid yn unig gan Gyngor Gwynedd ond gan bartneriaid eraill yn ogystal, er hyn, nodwyd nad yw unrhyw addasiadau wedi eu hystyried. Ychwanegwyd na fydd y cwmni yn monitro unrhyw faterion tan hanner ffordd drwy'r gwaith adeiladu a fydd o bosibl yn rhy hwyr i wneud unrhyw addasiadau.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod y ddogfen yn un sylweddol, a bod y Cyngor wedi datgan yn glir eu pryderon ar effaith y datblygiad. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cyflwyno Datganiad Effaith fel rhan o'r drafodaeth.
- Pwysleisiwyd y bydd mesur effaith pan hanner ffordd drwy'r adeiladau yn rhy hwyr wrth edrych ar feysydd megis yr iaith.
- Mynegwyd fod y prosiect yn un anferth, ac y bydd hyd at 9 mil o bobl ar y safle. Bydd hyn, nodwyd yn dyblu poblogaeth ac felly angen bod yn glir am y materion sydd wedi eu nodi.

8. CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-23 - CAIS AM ADNODDAU PARHAOL I STAFFIO UNEDAU DEMENTIA NEWYDD YN LLES CADFAN, PLAS HAFAN, PLAS HEDD A BRYN BLODAU I GEFNOGI GWEITHREDIAD Y FLAENORIAETH 'AIL-DDYLUNIO GWASANAETH GOFAL' O FEWN CYNLLUN Y CYNGOR

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. W Gareth Roberts

PENDERFYNIAD

Neilltuo £808,000 i gefnogi gweithrediad y flaenoriaeth Ail-ddylunio Gwasanaethau Gofal o fewn Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023 ac i gyfarfod gofynion Arolygaeth Gofal Cymru o ran staffio rotas cartrefi preswyl

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad hwn yn bleser i'w chyflwyno. Nodwyd fod y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn cyd-weithio er mwyn sicrhau fod pobl yn cael eu lleoli yn nes at adref. Nodwyd fod y Cyngor, yn dilyn derbyn arian cronfa ILF y Llywodraeth Cymru, wedi gallu addasu rhannau o gartrefi preswyl o fewn y sir er mwyn diwallu anghenion y bobl a dementia. Ychwanegwyd fod y niferoedd a dementia yn cynyddu a bod angen gofal arbenigol yn nes at adref, nid yn unig i'r claf, ond i'r teuluoedd yn ogystal.

Nodwyd fod gwaith wedi ei gwblhau ar 3 o'r cartrefi preswyl ac mae'r adran yn hyderus y bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn diwedd Mehefin ym Mryn Blodau. Mynegwyd fod y cais ar gyfer arian er mwyn ariannu staff i fod yn gweithio yn yr unedau dementia. Ychwanegwyd fod gwerth o £31,000 o gyfanswm y bid yn ymwneud a'r angen i ymateb i ofynion Arolygaeth Gofal Cymru i gryfhau rotas ar draws Cartrefi Preswyl y Cyngor.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod y cynllun yn un arloesol, a fydd yn cau'r bwlch a oedd i'w weld yn benodol yn ne'r sir.
- Mynegwyd nad oes modd peidio ariannu'r cynllun, gan o ystyried y ddemograffeg sydd yn newid yn y sir, roedd angen cryfhau'r ddarpariaeth oedd ar gael.
- Ychwanegwyd eu bod yn dda cael rhannu newyddion da yn enwedig yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, gan nodi y bydd y buddsoddiad yma yn hwb ar gyfer annog datblygiad yn y sector breifat.
- Mynegwyd pwysigrwydd cadw pobl fregus o fewn eu cymuned.

9. SEFYDLU CYFUNDREFN AR GYFER YMDRIN Â SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR FEL CORFF CYMERADWYO CEISIADAU SAFONAU CENEDLAETHOL DRAENIO CYNALIADWY DAN DDEDDF RHEOLI LLIFOGYDD A DŴR 2010

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Gareth Griffith

PENDERFYNIAD

1. Fod gweithredu cyfrifoldebau statudol o'r Corff Cymeradwyo SDCau (CCS) i'w priodoli drwy'r Gwasanaeth Ymgynghoriaeth
2. Dirprwyo'r cyfrifoldeb a phwerau CCS dan Adran 32 ac Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 i Bennaeth Ymgynghoriaeth gyda'r hawl i ddirprwyo ymhellach fel sydd yn briodol
3. Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Ymgynghoriaeth sefydlu cyfundrefn benderfynu ceisiadau yn unol â'r Ddeddfwriaeth ac Arweiniad Statudol
4. Dirprwyo'r hawl i Swyddog Monitro i addasu'r Cynllun Dirprwyo yn y Cyfansoddiad i adlewyrchu'r penderfyniad yma.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn gais i ddirprwyo'r hawliau ar gyfer sefydlu cyfundrefn ar gyfer ymdrin â Swyddogaethau'r Cyngor fel Corff Cymeradwyo ceisiadau Safonau Cenedlaethol Draenio Cynaliadwy dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 i'r adran Ymgynghoriaeth. Ychwanegwyd fod y drefn yn un statudol a fydd yn dod i rym ar y 7fed o Ionawr.

Esboniwyd y bydd angen systemau draenio cynaliadwy ar gyfer pob datblygiad newydd o fwy nac un tŷ. Mynegwyd y bydd yn rhaid i'r systemau gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod lleol a bydd angen sicrhau fod trefn cynnal a chadw mewn lle sydd wedi ei ariannu a'i ddiogelu drwy gytundeb cyfreithiol.

Ychwanegwyd fod sefydlu'r gyfundrefn yn un statudol o dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 ac o ganlyniad yn faes statudol y bydd yn rhaid i'r Cyngor ymgymryd ag ef.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 1:40pm

CADEIRYDD



ADRODDIAD I GYFARFOD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod:	18, Rhagfyr 2018
Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Dilwyn Morgan
Swyddog Cyswllt:	Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol
Rhif Ffôn Cyswllt:	01286 679468
Teitl yr Eitem:	Adroddiad Blynyddol y Panel Strategol Diogelu 2017/18

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddarau fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni gan y Panel Strategol Diogelu yn ystod y flwyddyn 2017/18. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi ei gyflawni yn erbyn addewidion Diogelu'r Cynllun Strategol.
- 1.2 Mae gofyn i'r Cyfarwyddwr Statudol i adrodd yn gyson a rheolaidd i aelodau ar faterion diogelu.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 2.1 Gofynnir i'r Cabinet dderbyn yr adroddiad gerbron ar waith y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion.
- 2.2 Gofynnir i'r Cabinet dderbyn addasiadau i Gylch Gorchwyl y Panel.

3. RHESYMAU DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

- 3.1 Credir i'r adroddiad grynhoi gwaith y Panel Strategol Plant ac Oedolion yn gywir a theg; mae hefyd yn hanfodol bod aelodau'r Cabinet yn ymwybodol o waith y Panel ar ddiogelu ac yn gallu bodloni eu hunain bod y Panel wedi ymgymryd â'r gwaith sydd ei hangen yn drylwyr a chydwybodol.
- 3.2 Oherwydd bod y Panel wedi ehangu ei ffocws i gynnwys materion Diogelwch ehangach megis Trais yn y Cartref a materion gwrth derfysgaeth, mae Cylch Gorchwyl y Panel wedi ei addasu er mwyn adlewyrchu hyn. Mae'r Cylch Gorchwyl yn ogystal yn amlygu cyfrifoldeb y Panel i fonitro ac i herio perfformiad sydd yn ymwneud a'r maes Diogelu.

8. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

- 8.1. Dim i'w nodi.

9. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

9.1. Barn y Swyddogion Statudol:

i. Y Swyddog Monitro:

- ii. Fel aelod o'r Panel rwy'n croesawu'r adroddiad sydd yn grynodedb priodol o waith y corff. Mae'n gyfrwng i roi sicrwydd i'r Cabinet ynglŷn â'r maes pwysig yma. Mae'r ychwanegiadau i'r cylch gorchwyl yn rhesymegol ac yn adlewyrchiad o'r newidiadau cyson sydd yn digwydd mewn cyd-destun statudol a chymdeithasol yn ganolog yn maes diogelu corfforaethol.

ii. Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi derbyn cadarnhad gan yr awdur na fyddai'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymïadau ariannol newydd, ac felly nid oes gennyf wrthwynebiad i'r argymhellion

9.2 Barn yr Aelod Lleol:

- 9.2.1 Dim yn fater lleol

9.3. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:

- 9.3.1 Dim i'w nodi

Atodiadau:

Atodiad 1	Adroddiad Blynyddol y Panel Strategol Diogelu 2017/18
Atodiad 2	Cylch Gorchwyl y Panel Strategol Diogelu

**Adroddiad Blynyddol Panel Strategol Diogelu
2017/18**

1. Cyflwyniad

- 1.1 Bydd yr Aelodau yn ymwybodol bod y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth uchel i'r maes diogelu. Roedd y Maes Diogelu yn brosiect penodol o fewn Cynllun y Cyngor 2013-18. Mae'r cyfnod y Cynllun yma a'r prosiectau Diogelu o fewn y cynllun nawr wedi dod i ben.
- 1.2 Bydd yr Aelodau hefyd yn ymwybodol bod Panel Strategol Diogelu plant ac oedolion wedi ei sefydlu ar gyfer rhoi sicrwydd i'r Cabinet a'r Cyfarwyddwr Statudol o effeithiolrwydd ein trefniadau diogelu ac amddiffyn fel Cyngor.
- 1.3 Bydd yr aelodau yn ymwybodol yn ogystal bu iddynt ganiatáu i'r Panel Strategol Diogelu ehangu eu ffocws yn ystod y flwyddyn 2017-18 ac wedi i ehangu ffocws a chyfrifoldeb y Panel i gynnwys dyletswyddau gwrth derfysgaeth, dyletswyddau adnabod ac atal radicaleiddio, gofynion caethwasiaeth fodern, gofynion trais yn y Cartref a Gofynion Cynhwysiad Cymdeithasol. Bydd hyn yn sicrhau bod y Panel gyda throsolwg o'r agenda diogelu ehangach sydd yn bodoli ac yn gwneud y defnydd gorau o'r grŵp gweithredol diogelu a'r swyddogion sydd yn bencampwyr yn y meysydd uchod.
- 1.2 Bwriad yr adroddiad felly yw ceisio rhoi trosolwg ar waith y Panel am y flwyddyn 2017/18 ynghyd a chrynhai barn arolygwyr allanol ar ein trefniadau. Yn ogystal â hyn, byddwn hefyd yn crynhai er gwybodaeth ein bwriad o ran blaenoriaethau'r Panel ar gyfer 2018 ymlaen.
- 1.3 Cadeirydd y Panel yn ystod y flwyddyn oedd y Cynghorydd Dilwyn Morgan ac roedd yn cael ei gefnogi gan Morwena Edwards, Cyfarwyddwr statudol gyda chyfrifoldeb am y maes diogelu. Yn ogystal mae Cynghorydd Gareth Roberts a'r Cynghorydd Gareth Thomas wedi bod yn Aelodau o'r Panel oherwydd eu dyletswyddau yn y meysydd oedolion a phlant. Oherwydd y disgwyliad bod y Panel yn cymryd i ystyriaeth ein cyfrifoldebau o ran y meysydd diogelu ehangach, mae Cylch Gorchwyl y Panel wedi ei ehangu gyda'r Cynghorydd Nia Jeffreys nawr yn aelod o'r panel oherwydd ei dyletswyddau o fewn y maes diogelwch cymunedol. O ran swyddogion mae sawl Pennaeth yn Aelodau o'r Panel (megis Addysg, Oedolion, Plant, Cefnogaeth Gorfforaethol) ac mae'r Swyddog Monitro hefyd yn aelod o'r panel.
- 1.4 I gefnogi'r gwaith mae Grŵp Gweithredol yn bodoli. Pwrpas y grŵp hwn yw gweithredu'r rhaglen waith a hefyd ymdrin â materion gweithredol. Mae aelodaeth y grŵp yn cynnwys pencampwyr diogelu o bob adran o'r Cyngor. Mae Cadeirydd y grŵp Gweithredol hefyd yn aelod o'r Panel Strategol.
- 1.6 Mae trefniadau arall yn bodoli, megis y Byrddau Diogelu Rhanbarthol ar gyfer Plant ac Oedolion Bregus, ar gyfer ymdrin â materion arbenigol y maes. Mae'r Byrddau hyn yn fyrddau statudol sydd yn draws asiantaeth, gyda chyfrifoldebau penodol a chyfreithiol. Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i gyfrannu at y Byrddau hyn yn rhanbarthol o ran gweithredu. Ar ddiwedd yr adroddiad yma mae linc i adroddiad Blynyddol Y Byrddau Diogelu hyn.

1.7 Mae gofyn i'r Cyfarwyddwr Statudol i adrodd yn gyson a rheolaidd i aelodau ar faterion Diogelu. Bu i'r Cyfarwyddwr gyflwyno ei hadroddiad blynyddol i'r Cyngor Llawn ym Mis Gorffennaf 2018. Ein bwriad fydd i adrodd bob 6 mis ar y cynnydd o fewn y maes diogelu. Mae'r adroddiad yma yn edrych ar gyfnod blwyddyn 2017-18.

2. Yr hyn sydd wedi ei wireddu yn ystod 2017/18 (Prosiectau Cynllun y Cyngor 2013-2017).

Maes Gwaith	Gweithred/Canlyniad	Statws
D1- Sicrhau Perchnogaeth Cyngor Cyfan i'r Maes Diogelu		
Adolygu Polisiâu a gweithdrefnau yn flynyddol	Mae'r Polisi wedi ei adolygu a'i gyflwyno i'r gweithlu drwy'r Ganolfan Bolisi.	Wedi ei gwblhau
Sicrhau bod trefniadau yn eu lle ar gyfer mesur effaith y trefniadau diogelu corfforaethol	Mae annog perchenogaeth gorfforaethol o'r maes diogelu yn un o flaenoriaethau'r awdurdod. Ers mabwysiadau Polisi Diogelu Corfforaethol, a pholisiâu Diogelu adrannol rydym wedi sicrhau fod gweithredu yn unol â'r polisi yn cael effaith ar ddiogelu plant ac oedolion bregus. Mae fframwaith mesur effaith wedi ei lunio ac wedi ei gyflwyno i'r Panel. Mae Rheolwyr yn parhau i gasglu astudiaethau achos. Prompts profiad ayyb.	Wedi ei gwblhau
Cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth o'r maes a monitor eu heffaith	Mae rhaglen gynhwysfawr o godi ymwybyddiaeth wedi cymryd lle dros y flwyddyn gan gynnwys cynnal ymgyrch hyrwydd yn ystod wythnos Diogelu Genedlaethol ym Mis Tachwedd. Mae Hwb Diogelu wedi ei greu ar i-Gwynedd ac mae hyfforddiant i aelodau etholedig wedi ei gynnal yn ystod y flwyddyn. Mae mynediad i e-ddysgu i'r gweithlu rheng flaen sydd heb fynediad i TG yn parhau i fod yn her.	Wedi ei gyflawni
Cynnal awdit blynyddol o gydymffurfiaid gyda'r polisi	Mae awdit blynyddol ar ymwybyddiaeth o'r Polisi Diogelu wedi ei gynnal. Mae'r awdit yn dangos fod dal lle i fynd i wella lefelau ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr maes. Mae cyrraedd gweithwyr maes yn anoddach oherwydd nad oes ganddynt gyfrif TG er mwyn cael mynediad i'r wybodaeth teclynau diogelu sydd wedi eu datblygu'n barod. Mae'r awdit yn nodi y byddai sesiynau wyneb yn wyneb yn fwy o werth iddynt na hyrwyddo'r cyfryngau digidol.	Wedi ei gyflawni

Monitro trefniadau cytundebau (staff a darpariaethau) o ran diogelu gan gryfhau gweithdrefnau lle bo angen	Mae canllaw Dadleniadau wedi eu datblygu a modiwl DBS wedi ei greu a'i gyflwyno ar y system hunan wasanaeth i helpu rheolwyr adnabod a thracio swyddi sy'n destun dadleniad yn haws. Yn parhau i fod yn her, nid oes cynnydd ar hyn o bryd o ran sefyllfa dadleniadau llywodraethwr nac aelodau etholedig.	Peth gwaith yn parhau
D2 - Diogelu Plant a Phobl Ifanc		
Sicrhau fod trefniadau'r Cyngor yng nghyd fynd a'r strategaeth ranbarthol sy'n cael ei datblygu'n aml asiantaeth.	Mae cynrychiolaeth addas ar lefel uwch reolwr yn y Bwrdd CS Rhanbarthol a negeseuon o'r Bwrdd yn cael eu cyfathrebu yn glir ac yn ymateb i geisiadau i wybodaeth yn briodol.	Wedi ei gyflawni
Sicrhau fod y Cyngor, gymaint ag sydd yn bosib, yn deall y galw am wasanaethau, a thueddiadau CSE yng Ngwynedd	Sustemau electronig wedi ei datblygu i gasglu a chynnal gwybodaeth a data o'r galw yn y maes ac er mwyn cael gwell dealltwriaeth o lefelau risg. Gwaith CSE yn rhan o waith prif lif yr Adran Plant a chefnogi Teuluoedd.	Wedi ei gyflawni.
Gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth unigolion a grwpiau allweddol o'r maes arbennig hwn gan gynnwys sut i adnabod arwyddion.	Hyfforddiant arbenigol wedi ei gynnal gan Dr Helen Beckett i grŵp eang o staff ar draws asiantaethau. Dealltwriaeth fanwl o'r maes o fewn yr Adran ac ein partneriaid.	Wedi ei gyflawni
Cydnabod bod y risg yn uwch i blant mewn gofal a gweithio gyda'r Panel Rhiant Corfforaethol ar geisio gwarchod y plant mwyaf bregus.	Ers dyfodiad sustem gwybodaeth WCCIS, yr Adran Plant a chefnogi Teuluoedd mewn gwell lle i adnabod niferoedd plant mewn gofal sydd mewn perygl o CSE, y rhai sydd angen gwaith cychwynnol i arbed cynyddu risgiau a gwaith adferol i'w diogelu.	Rhaglen waith yn parhau
Cynnal yr awdit blynyddol o drefniadau diogelu a llywodraethu o fewn yr adran ac o fewn ysgolion.	Trefn awdit blynyddol o drefniadau diogelu a llywodraethu mewn lle gan yr adran. Adroddiad blynyddol llywodraethwyr yn cael ei dderbyn gan yr adran gan bob ysgol. Mae'r adroddiadau yma yn bwydo mewn i gynllun busnes blynyddol diogelu'r adran addysg. Sawl awdit arall wedi eu cynnal yn ystod y flwyddyn.	Rhaglen waith yn parhau
Creu rhaglen hyfforddiant i ddiwallu anghenion yr awdit blynyddol.	Rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant yn ei le. Yr Adran Addysg yn hyderus fod gan Ysgolion ddealltwriaeth o'r broses amddiffyn plant ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau.	Wedi ei gyflawni
Gweithredu rhaglen waith yn unol ag argymhellion yr awdit blynyddol ac	Rhaglen hyfforddiant mewn lle sydd yn seiliedig ar ganfyddiadau'r awdits blynyddol.	Wedi ei gyflawni,

ystyried hefyd unrhyw gyfleoedd i wella.		
D3- Diogelu Oedolion Bregus		
Datblygu ystod eang o wahanol ddulliau lle gall unigolion cael eu clywed.	Mewn ymateb i argymhellion Adroddiad Winterbourne a hefyd adroddiad y Comisiynydd Pobl Hyn "Lle i Alw'n Gartref", mae angen datblygu ystod o wahanol ddulliau lle gall unigolion cael eu clywed. Mae rhaglen waith yr Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd yn cyfeirio at y gwaith o ymgysylltu hefo defnyddwyr gwasanaeth a gwneud awdit o brofiadau. Byddwn yn gweithio hefo defnyddwyr gwasanaeth i sicrhau bod cynlluniau diogelu cynaliadwy yn eu lle sydd yn addas i'w anghenion. Bydd y Swyddogion Sicrwydd Ansawdd yn ymgysylltu hefo preswylwyr, unigolion sydd yn derbyn gofal cartref a'u teuluoedd er mwyn cael adborth ac adnabod gwersi i'w dysgu	Rhaglen waith mewn lle ar gyfer 2017/18
Adnabod a oes defnydd addas o eiriolaeth a cheisio ymateb i unrhyw ddiffygion.	Yn ogystal â'r uchod, mae angen adnabod a oes defnydd addas o eiriolaeth a cheisio ymateb i unrhyw ddiffygion. Mae defnydd helaeth o wasanaeth Adfocatiaeth wrth wneud y gwaith DoLS ond mae angen sicrhau bod eiriolaeth yn cael ei gynnig i unigolion sydd o dan y drefn Diogelu ac yn derbyn Gwasanaethau yn y maes Oedolion.	Rhaglen waith mewn lle ar gyfer 2017/18
Darparu tystiolaeth bod y grwpiau corfforaethol yn gallu dangos eu bod yn gwrando ar lais oedolion bregus.	Mae'r Panel Gweithredol Diogelu Plant ac Oedolion yn grŵp Corfforaethol sydd yn cyfarfod yn chwarterol. Mae'r Panel yn trafod materion Diogelu a sut mae modd i'r Adran gymryd cyfrifoldeb am wrando ar lais oedolion bregus. Bydd y gwaith o adolygu'r Polisi Diogelu Corfforaethol yn dechrau ym mis Mai.	Wedi ei gyflawni.

3. Materion Diogelu Ehangach

3.1 CONTEST/PREVENT

- 3.2 Mae'r Ddeddf Llywodraeth y DU Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 yn cyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau fel rhan o'u swyddogaeth, i roi sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth. Mae strategaeth PREVENT llywodraeth y DU, un o bedwar llinyn 'CONTEST', Strategaeth ehangach gwrthderfysgaeth y swyddfa Gartref, ac yn ymwneud yn bennaf a rhwystro pobl rhag

dod yn derfysgwyr neu rhag cefnogi terfysgwyr ac eithafiaeth dreisgar. Mae strategaeth PREVENT yn benodol yn:

- Ymateb i'r her ideolegol terfysgaeth ar fygythiad rydym yn ei wynebu gan y rheini sy'n ei hybu.
- Atal unigolion rhag cael eu denu at derfysgaeth a sicrhau eu bod yn cael cyngor a chymorth priodol.
- Gweithio gyda sectorau a sefydliadau lle bydd perygl o radicaleiddio y mae angen rhoi sylw iddo.

3.3 Mae Bwrdd 'CONTEST' Rhanbarthol sydd yn fwrdd amlasiantaethol mewn lle gyda chynrychiolaeth gan Gyngor Gwynedd. Morwenna Edwards, Cyfarwyddwr Statudol sydd yn cynrychioli Gwynedd ar y Bwrdd 'CONTEST'. Mae Partneriaeth Diogelu Gymunedol Gwynedd a Môn gyda'r cyfrifoldeb i oruchwylio rhaglenni 'PREVENT' o fewn y gwasanaethau'r bartneriaeth.

3.4 Mae'r strategaeth PREVENT yn cynnwys datblygu ystod eang o weithgareddau gan gynnwys cymorth ymarferol, cyngor a chefnogaeth ac ystod o ddigwyddiadau a rhaglenni cefnogi unigolion a sefydliadau i wrthbwysu ideolegau maleisus. Yn ystod y flwyddyn 2016/17 mae rhaglen hyfforddiant cynhwysfawr wedi digwydd o fewn ysgolion Gwynedd gyda rhan fwyaf o weithwyr ein hysgolion wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant (lefel 1 neu 2) sydd yn cynnwys modiwlau ar radicaleiddio.

3.5 Mae rhaglen waith PREVENT 2017/18 wedi canolbwyntio ar redeg yr hyfforddiant ar gyfer gweithwyr y Cyngor ar bob lefel. Mae modiwlau e-ddysgu wedi eu paratoi gan y Swyddfa Gartref ac wedi eu rhannu gyda' Adran Dysgu a Datblygu ac ar gael i staff y Cyngor.

3.6 Yn ogystal mae hi'n ofyn statudol inni fod yn cynnal paneli 'CHANNEL' sydd yn gyfarfodydd aml asiantaeth sydd yn rhoi ffocws i gefnogi pobl yn gynnar sydd wedi cael eu hadnabod fel rhai sydd mewn peryg o gael eu denu at derfysgaeth. Mae'r panel yn gweithio mewn dull aml asiantaethol i adnabod unigolion, asesu natur y peryg a datblygu ffyrdd effeithiol a priodol i gefnogi'r unigolion. Yng Ngwynedd, mae trefniadau Paneli 'CHANNEL' mewn lle ac yn ymateb yn brydlon am yr angen i ymyrraeth pe bai'r angen yn codi.

3.7 Trais yn erbyn Menywod, cam-drin domestig a Thrais Rhywiol

3.8 Daeth y ddeddf Trais yn erbyn Menywod, cam drin domestig a thrais rhywiol (Cymru) i rym yn 2015. Nod y ddeddf yw gwella ymateb y sector Gyhoeddus yng Nghymru i gam drin a thrais o'r fath. Yn benodol mae'r ddeddf yn gosod cyfrifoldebau ar Gynghorau i sefydlu strwythur gweithredu Rhanbarthol. I'r perwyl hyn mae Bwrdd Strategol Rhanbarthol wedi ei sefydlu gyda Morwenna Edwards, Cyfarwyddwr Statudol yn cynrychioli'r Cyngor ar y Bwrdd. Mae'r Bwrdd wedi penodi 'Cynghorydd Rhanbarthol', fel sydd yn ofynnol yn y ddeddf ac maent yn awr yn gweithio ar raglen trawsffurfio ranbarthol fydd yn golygu bod swyddogion lleol yn symud i fod yn rhan o dîm ranbarthol.

- 3.9 Un o brif ddyletswyddau yn sgil y ddeddf yw'r fframwaith hyfforddi cenedlaethol. Mae'r Fframwaith yn cynnwys chwe grŵp hyfforddi. Bydd holl broffesiynau'r gwasanaethau cyhoeddus yn perthyn i un o'r grwpiau hyn ac mae'n ofynnol bod pob aelod o weithlu'r Cyngor yn derbyn yr hyfforddiant perthnasol.
- 3.10 Roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Gynghorau fod wedi cwblhau 50% o'r hyfforddiant erbyn diwedd y flwyddyn (2017). Ni lwyddwyd i gyrraedd hwn am amryw o resymau gan gynnwys nad oedd safon iaith Gymraeg y deunyddiau dysgu yn ddigonol yn ogystal â materion technegol. Mae'r Cyngor yng nghyd weithio gyda Llywodraeth Cymru i geisio goresgyn y rhwystrau yma. Mi fydd lledaenu hyfforddiant yn flaenoriaeth ar gyfer 2018/19

3.11 Caethwasiaeth Fodern

- 3.12 Nid yw Caethwasiaeth Fodern yn drosedd wedi ei chyfyngu i un rhanbarth nag un gweithgaredd neu faes. Yn ystod 2017-18 derbyniwyd 3 achos mewn perthynas â Chaethwasiaeth Fodern/Masnach Pobl yng Ngwynedd a chyfeiriwyd ymlaen at y cyrff perthnasol.
- 3.13 Yn ystod y flwyddyn mae trefniadau cyfeirio ar gyfer staff a'r cyhoedd sydd ag unrhyw amheuaeth wedi cael eu hamlinellu ar safle we'r Cyngor. Yn ogystal mae Un Pwynt Cyswllt (SPOC) sef Arwel Owen Uwch Reolwr yr adran Tai wedi ei gadarnhau sydd yn ymdrin ag ymholiadau allanol a mewnol. Bydd adroddiadau chwarterol gan y Cyngor yn cael eu paratoi i'r Bwrdd yn ogystal â chael eu rhannu gyda'r Panel.
- 3.14 Mae'n ofynnol i Gyngor Gwynedd cydnabod bod cyfrifoldeb arno fel cyflogwr i fod yn ymwybodol i'r potensial o dderbyn achosion o gaethwasiaeth fodern ac i adrodd ar achosion o'r fath i'r cyrff perthnasol.
- 3.15 Mae Datganiad Caethwasiaeth Fodern Cyngor Gwynedd eisoes ar gael ar safle we'r Cyngor.
- 3.16 Yn ogystal, yng Ngorffennaf 2018 cymeradwyodd Cabinet y Cyngor Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwad sydd yn anelu at sicrhau bod pob sefydliad yn y sector cyhoeddus yn gweithredu i ddileu arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac anfoesegol.

3.17 Llinellau Sirol (County Lines)

- 3.18 Llinellau sirol yw term yr heddlu am gangiau mewn trefi'n cyflenwi cyffuriau i ardaloedd a marchnadoedd maestrefol a threfi arfordirol gan ddefnyddio llinellau ffonau symudol pwrpasol neu 'linellau delio'. Mae'n cynnwys cam-fanteisio troseddol ar blant gan fod gangiau'n defnyddio plant a phobl ddiamddiffyn i gludo arian a chyffuriau. Mae gangiau'n dod o hyd i safle yn lleoliad y farchnad, fel arfer drwy feddiannu cartrefi oedolion diamddiffyn lleol drwy rym neu roi pwysau arnynt, sy'n cael ei alw yn Saesneg yn 'cuckooing'.

3.19 Mae llinellau sirol yn broblem fawr, drawsffiniol sydd ynghlwm â chyffuriau, trais, gangiau, diogelu, cam fanteisio troseddol a rhywiol, caethwasiaeth fodern a phobl ar goll; ac mae'r ymateb i fynd i'r afael â hi'n cynnwys yr Heddlu, yr Asiantaeth Troseddu Genedlaethol, nifer o adrannau'r Llywodraeth, asiantaethau llywodraeth leol a sefydliadau yn y sector gwirfoddol a chymunedol.

3.20 Bu i'r Panel yn ystod y flwyddyn dderbyn cyflwyniad gan yr Heddlu ar sialens/her sydd yn wynebu Gwynedd yn y frwydr 'Llinellau Sirol'.

4. Archwiliadau Allanol a'u derbyniwyd yn ystod y cyfnod

4.1 Adolygiad Lle i Alw'n Gartref (Comisiynydd Pobl Hyn)

Mae'r adran Oedolion, Iechyd a Llesiant wedi yn ystod y flwyddyn wedi ymateb i argymhellion adroddiad y Comisiynydd Pobl Hyn 'Lle i Alw'n Gartref'.

[http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/summariesw/110118_Gwynedd -
_FINAL_w.sflb.ashx](http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/summariesw/110118_Gwynedd_-_FINAL_w.sflb.ashx)

4.2 Llythyr Blyneddol 2017/1 (Arolygaeth Gofal Cymru AGC)

Oherwydd rhesymau sefydliadol AGC ni fydd y Cyfarwyddwr yn derbyn llythyr blyneddol gan yr Arolygaeth.

4.3 Adroddiad Arolygaeth ar y Gwasanaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd

Ym Mai 2017 cynhaliwyd AGC arolygiad llawn o wasanaethau plant yng Ngwynedd.
[https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2018-08/180829-gwasanaethau-
plant-cyngor-gwynedd-cy_0.pdf](https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2018-08/180829-gwasanaethau-plant-cyngor-gwynedd-cy_0.pdf)

5. Adolygiadau Ymarfer

5.1 Mae Cymru wedi datblygu fframwaith Adolygu Dysgu Ymarfer Plant (CPR) i wella'r diwylliant o ddysgu o achosion amddiffyn plant. Mae adolygiadau 'gryno' neu 'estynedig' yn bodoli yn dibynnu ar amgylchiadau'r plentyn dal sylw. Mae'r adroddiadau yn canolbwyntio ar wella ymarfer. Yn ystod y cyfnod mae Gwynedd wedi cael 2 achos adolygu ymarfer estynedig (ECPR). Nid oes un CPR wedi bod o Wynedd yn ystod y cyfnod.

5.2 Yn yr un modd Cynhelir Adolygiadau Ymarfer Diogelu Oedolion (APR) ar ran Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru. Maent hefyd yn ddull sy'n caniatáu pob asiantaeth partner i nodi'r gwersi y gellir eu dysgu o'r achosion Diogelu Oedolion arbennig o gymhleth neu anodd a gweithredu newidiadau i wella gwasanaethau yn sgil y gwersi hyn. Mae Gwynedd gydag un achos APR sydd ar fin cau (APR Gwynedd 1). Bydd adroddiad llawn yr achos yma ar wefan y Bwrdd Rhanbarthol yn fuan ac yn unol ag adolygiadau plant bydd y Panel yn edrych ar unrhyw wersi sydd yn deillio o'r adolygiadau ymarfer a sicrhau bod gweithredu priodol yn digwydd ar y gwersi.

6. Y bwriad wrth edrych ymlaen – 2018 ymlaen

- 6.1 Fel sydd wedi ei nodi ar gychwyn yr adroddiad hwn, mae'r Cyngor wedi blaenoriaethu ac uchafu'r maes Diogelu yn y Cynllun Strategol trwy sicrhau ei fod yn derbyn ystyriaeth drawsadrannol a sylw cyngor cyfan - yn hytrach na'i fod yn cael ei weld fel cyfrifoldeb rhai adrannau yn unig.
- 6.2 Fel sydd eisoes wedi ei nodi mae maes gwaith a chyfrifoldeb y Panel Diogelu Strategol wedi ei ehangu bellach i gynnwys dyletswyddau gwrth derfysgaeth ac atal radicaleiddio, gofynion caethwasiaeth fodern, gofynion trais yn y Cartref a Gofynion Cynhwysiad Cymdeithasol. Mae hyn yn sicrhau bod y Panel gyda throsolwg o'r agenda diogelu ehangach sydd yn bodoli ac yn gwneud y defnydd gorau o'r grŵp gweithredol diogelu a'r swyddogion sydd yn bencampwyr yn y meysydd uchod.
- 6.3 Bu i'r Panel Strategol Diogelu gynnal gweithdy yn ystod y flwyddyn er mwyn penderfynu ar flaenoriaethau i'r dyfodol i'r Panel ac i sicrhau bod y Panel Diogelu Gweithredol yn derbyn comisiwn addas ar y gwaith sydd angen digwydd dros y flwyddyn nesaf.
- 6.4 Gan ddefnyddio gwybodaeth gan y grŵp gweithredol, ein pencampwyr diogelu a'r arbenigwyr diogelu o fewn y Cyngor. Bu i'r Panel ddod i'r casgliad bod 4 blaenoriaeth ar gyfer 2018/19 er mwyn gwella ein trefniadau Diogelu Corfforaethol ymhellach.
- 6.5 Ein meysydd blaenoriaeth ar gyfer 2018/19 yw
- Gwella trefniadau llywodraethu y Panel Strategol Diogelu gan ddatblygu mesuryddion addas i'r Pwrpas.
 - Adolygu trefniadau cyfarfodydd Diogelu rhanbarthol er mwyn deall y tirlun rhanbarthol yn well ac i adnabod ble yr ydym yn ychwanegu gwerth.
 - Adolygu ein trefniadau 'Diogelu Oedolion mewn peryg' i sicrhau bod ymateb Gwynedd yng nghyd fynd a gofynion y ddeddf.
 - Edrych i greu cwrs Diogelu cynhwysfawr i'r gweithlu sydd yn cynnwys holl faterion diogelu er mwyn sicrhau bod y gweithlu gyda gwybodaeth gyfredol o ddiogelu.

7. Casgliad

- 7.1 Cyflwynir yr adroddiad yma er mwyn rhoi blas ar weithgareddau sy'n digwydd ym maes diogelu o fewn y Cyngor. Mae pwyslais y gwaith ar y ffaith mai cyfrifoldeb corfforaethol yw diogelu ac nid ar gyfer yr Adran Addysg ac Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn unig.
- 7.2 Mae'r hyn gyflawnwyd y llynedd o ran y rhaglen waith yn amlygu gweithgarwch y Panel Strategol a'r Grŵp Gweithredol o ran y gwaith caled sydd wedi ei wneud o ran parhau i wella ein trefniadau diogelu ac amddiffyn yn gorfforaethol. Gyda'r archwiliadau allanol ac adolygiadau ymarfer yn cynnig adborth positif ar y cyfan. Yn ogystal mae'r achosion penodol sydd wedi codi yn cynnig cyfleoedd i ddysgu i wella ac i adolygu ein trefniadau.

- 7.3 I'r dyfodol bydd yr adroddiad yma yn cynnwys Mesurau Perfformiad addasi bwrpas fydd yn dangos y cynnydd a'r gwahaniaeth mae'r Cyngor yn ei wneud o fewn y maes diogelu.

Er Gwybodaeth

Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Diogelu Rhyngbarthol Gogledd Cymru

<http://www.bwrddiogelugogleddcymru.cymru/wp-content/uploads//2018/07/Annual-Report-2017-18-Version-6a-FINAL-June-cym-docx.pdf>



ATODIAD I

Cylch Gorchwyl Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion

CYLCH GORCHWYL PANEL STRATEGOL DIOGELU PLANT AC OEDOLION

1. RHAGARWEINIAD

- 1.1 Mae gan y Cyfarwyddwr Statudol cyfrifoldebau penodol am y maes diogelu. Mae Protocol y Cyfarwyddwr hefyd yn ei le ac yn gosod allan sut mae'r Cyfarwyddwr yn diwallu a chwrdd â'r gofynion o'r swyddogaeth. Mae'r materion yma yn ymwneud a'r gofynion diogelu wedi eu gosod allan ym mharagraffau 64-69 o Ran 8 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014. Mae Paragraff 65 yn amlygu'r angen i'r Cyfarwyddwr gael y trosolwg o faterion diogelu ond hefyd yr angen i adrodd i aelodau yn rheolaidd ar drefniadau diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion o fewn yr awdurdod a sut mae trefniadau hyn yn gweithio, a beth sydd angen gwella.
- 1.2 Mae hefyd angen i bob asiantaeth sefydlu trefniadau mewnol ar gyfer sicrhau bod yr agenda gwrthderfysgaeth, atal radicaleiddio a materion diogelwch cymunedol yn cael y sylw priodol.
- 1.3 I pwrpas y Panel yma, mae'r term 'diogelu' yn berthnasol i oedolion plant a phobl ifanc ac mae'n golygu eu hamddiffyn, eu hatal rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso ac addysgu'r rhai o'u hamgylch i adnabod yr arwyddion a'r peryglon. Mae diogelu, a hyrwyddo lles unigolion, yn derm ehangach nag amddiffyn unigolion rhag cael eu cam-drin. Mae'n ymwneud ag unigolion a gwasanaethau yn adnabod y ffactorau risg ac yn cymryd camau i atal unigolion sy'n agored i niwed rhag cael eu cam-drin. Rhan o'r gwaith diogelu a hybu lles yw amddiffyn. Mae'n cyfeirio at weithgarwch o amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod.

2. CYLCH GORCHWYL PANEL STRATEGOL DIOGELU

- 2.1 Nod y Panel yw rhoi sicrwydd i Aelodau ac i'r Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, fel yr uwch swyddog o fewn y Cyngor sydd â'r atebolrwydd terfynol llawn am ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion, fod trefniadau a gweithdrefnau addas yn eu lle ar lefel gorfforaethol er mwyn sicrhau diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion. Bydd y Panel yn diwallu 3 dyletswydd statudol, sef dyletswydd gorfforaethol cyffredinol i ddiogelu, dyletswydd statudol Gwasanaethau Cymdeithasol a'r ddyletswydd diogelwch cymunedol.
- Adnabod unrhyw bylchau mewn perthynas â diogelu ar lefel gorfforaethol a chymeradwyo rhaglenni gwaith er mwyn ymateb i'r rhain.
 - Adnabod gwersi i'w dysgu, ar lefel gorfforaethol, o adolygiadau achosion difrifol ac o adolygiadau perthnasol eraill a sicrhau gweithredu ar y rhain. (APR, CPR)
 - Adnabod gwersi i'w dysgu o archwiliadau allanol a sicrhau gweithredu ar y rhain
 - Adnabod gwersi i'w dysgu o awdits mewnol a sicrhau gweithredu ar y rhain
 - Hysbysu aelodau arweiniol perthnasol o faterion/datblygiadau allweddol ym maes diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus.
 - Bod yn gyfrwng i godi ymwybyddiaeth pob aelod o staff y Cyngor a phob aelod etholedig o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu.
 - Bod yn gyfrwng i sicrhau fod aelodau staff ac aelodau etholedig yn derbyn hyfforddiant addas yn amserol a monitro presenoldeb yn yr hyfforddiant yma.
 - Sicrhau cydberthynas waith rhyngadrannol a chyfathrebu effeithiol o fewn y Cyngor ym maes diogelu.
 - Sicrhau fod trefniadau'r Cyngor yn cyd fynd a'r gofyn cyfreithiol i sicrhau fod staff yn gymwys i weithio yn y swyddi a rheoleiddir.
 - Galw prosiectau perthnasol i adrodd ar gynnydd.
 - Derbyn gwybodaeth rheoli perfformiad – traws adrannol

- Sicrhau trosolwg ar faterion ehangach Diogelu gan gynnwys gweithdrefnau gwrthderfysgaeth, caethwasiaeth fodern, trais yn y cartref a diogelwch cymunedol.

3. MONITRO PERFFORMIAD

- 3.1 Bydd gan y Panel Strategol Diogelu gyfrifoldeb i fonitro ac i herio perfformiad sydd yn ymwneud a'r maes Diogelu. I'r Perwyl hyn bydd yn ofynnol i Adrannau ac i'r Grŵp Diogelu Gweithredol ddatblygu mesuryddion ystyrlon sydd yn dangos sut y mae Adrannau'r Cyngor yn perfformio o fewn y maes. Bydd y mesuryddion Perfformiad yn ogystal ac unrhyw ddata cefndirol yn cael eu cyflwyno a'u herio y mhob cyfarfod o'r Panel.

4. CADEIRYDDIAETH

- 4.1. Bydd y Panel yn penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd pob dwy flynedd.

5. AMLDER CYFARFODYDD

- 5.1 Bydd Cyfarfodydd yn dilyn amserlen Cylch Herio Perfformiad y Cyngor. Bydd y Panel felly yn cwrdd tair gwaith y flwyddyn.

6. LLYWODRAETHU AC ATEBOLRWYDD

- 6.1 Mae'r Panel Strategol Diogelu yn atebol i'r Cabinet. Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar ddiwedd pob Cylch Herio Perfformiad.
- 6.2 Rheolaeth busnes [h.y. llunio rhaglen waith, rhaglen cyfarfodydd, 'ysgrifenyddiaeth', pwynt cyfathrebu canolog, trefnu cyngor proffesiynol ychwanegol -os bu angen] yn gyfrifoldeb i'r Adran Cefnogaeth Corfforaethol.

7 AELODAETH

Teitl
Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc
Aelod Cabinet – Oedolion Iechyd a Llesiant
Aelod Cabinet - Addysg
Prif Weithredwr
Aelod Cabinet a chyfrifoldeb am Ddiogelwch Cymunedol
Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol)
Pennaeth Adran Plant a phobl Chefnogi Teuluoedd
Pennaeth Addysg
Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant
Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol
Cadeirydd Panel Diogelu Gweithredol
Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol
Rheolwr Partneriaeth Diogelwch Môn a Gwynedd

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod: 18 Rhagfyr 2018
Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Gareth Thomas
Swyddog Cyswllt: Garem Jackson
Rhif Ffôn Cyswllt: 01286 679089
Teitl yr Eitem: Egwyddorion Addysg Addas i Bwrpas

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1. Cymeradwyaeth y Cabinet i'r egwyddorion addysg addas i bwrpas canlynol fydd yn sail ar gyfer gwireddu gweledigaeth yr Adran Addysg a datblygu'r gyfundrefn er sicrhau addysg o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc Gwynedd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, sef:

- cyfundrefn o ysgolion uwchradd hyfyw
- dim mwy na dau ystod oedran o fewn yr un dosbarth **yn y cynradd**
- oddeutu 80% o amser digyswllt i'r Pennaeth i ganolbwyntio ar faterion arweinyddiaeth **yn y cynradd**

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 Cyflwynwyd adroddiad gerbron y Cabinet ar 12 Gorffennaf 2016 yn gofyn am ganiatâd i ymgynghori gyda Llywodraethwyr ac ysgolion am addasrwydd yr egwyddorion cytunedig a fydd yn sylfaen i gyfundrefn addysg addas i bwrpas.

2.2 Yn sgil pryderon cynyddol a difrifol y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau (ar y pryd) yn dilyn adroddiad y Ffederasiwn Cynradd ac ymgynghoriadau gydag ysgolion, nodwyd sawl mater yn yr adroddiad ynglŷn ag amodau Arweinyddiaeth sef:

- bod nifer o'n hysgolion uwchradd a chynradd yn rhy fach i allu cynnig digon o amser i benaethiaid, uwch reolwyr a rheolwyr canol arwain yn effeithiol;
- y gofynion sy'n gwrthdaro ar lawer o benaethiaid cynradd ble mae ganddynt hefyd ymrwymiad sylweddol i addysgu dosbarthiadau ochr yn ochr â'u swyddogaethau rheoli ac arwain;
- anawsterau o ran recriwtio arweinwyr uwch reolaeth a rheolwyr canol mewn ysgolion uwchradd;
- anawsterau o ran recriwtio penaeithiaid ar gyfer ysgolion cynradd;

- diffyg ymgeiswyr o'r tu allan i ardal yr awdurdod lleol.
- 2.3 Cynhaliwyd cyfres o 18 o sesiynau galw heibio ar draws Gwynedd rhwng 7 Tachwedd ac 14 Rhagfyr 2016 er mwyn ymgysylltu â rhieni, staff, llywodraethwyr a'r gymuned yn ehangach ynglŷn â'r broses o ddatblygu egwyddorion newydd ar gyfer ysgolion Gwynedd fyddai'n ymateb i'r pryderon uchod.
- 2.4 Bu'r sesiynau galw heibio a gynhaliwyd ar draws Gwynedd yn llwyddiannus, gan esgor ar 335 o ymatebion i'r holiadur a luniwyd ar gyfer y broses ymgynghori.
- 2.5 Mae'r drafodaeth ynghlwm â datblygu egwyddorion sy'n cefnogi cyfundrefn addysg addas i bwrpas yn digwydd yng nghyd-destun Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif a Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Mae'r weledigaeth ar gyfer addysg a hyfforddiant yn seiliedig ar chwe phrif amcan:
- Cynnig y profiadau dysgu gorau posibl gan sicrhau cwricwlwm cyffrous ac eang, yn ogystal â'r cwricwlwm allgyrsiol, sy'n eu hysgogi i ddysgu a deall ac yn arwain at wella safonau, gan wneud y defnydd gorau posibl o Dechnoleg Gwybodaeth;
 - Hyrwyddo a chefnogi iechyd corfforol a lles emosiynol plant a phobl ifanc – gan sicrhau bod y prif sefydliadau addysg a hyfforddiant yn y Sir yn chwaraewyr allweddol wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau integredig i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd;
 - Paratoi pobl ifanc ar gyfer y byd gwaith - gan wneud yn siŵr eu bod yn cael eu harfogi efo'r mathau cywir o sgiliau ar gyfer cyflogaeth, yn enwedig o fewn yr economi leol;
 - Creu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf i blant, pobl ifanc ac athrawon y Sir – a hynny yn bennaf drwy wella cyfleusterau ac adeiladau, a sicrhau bod ysgolion wedi'u cyflunio i ymateb i'r newid yn arferion prosesau addysgu a dysgu cyfoes, yn enwedig wrth ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth;
 - Datblygu sefydliadau addysgol o'r math cywir (cynradd ac uwchradd) i fod yn rhai sy'n ganolbwynt i wasanaethau cyhoeddus a chymunedol lle'n briodol;
 - Cryfhau'r Iaith Gymraeg – fel cyfrwng addysgol a chymdeithasol – a galluogi plant a phobl ifanc i gael mynediad at addysg a hyfforddiant dwyieithog.

3. CYFLWYNIAD AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL - EGWYDDORION ARFAETHEDIG

3.1 Uwchradd

Wrth ystyried modelau cynaliadwy ar gyfer yr uwchradd, bwriedir cynllunio ar y sail y dylai'r strwythur gynnwys modelau (e.e. opsiynau aml-safle) a fyddai'n hwyluso'r broses o sicrhau fod mwy o ysgolion uwchradd yn gallu gweithio mewn partneriaeth.

Mae'n hanfodol fod y strwythur ar gyfer ysgolion uwchradd yn galluogi darpariaeth o gwricwlwm eang ac yn hyrwyddo cysondeb o ran addysgu a dysgu o ansawdd uchel ar draws holl ysgolion y sir.

Mae amser digyswllt uwch reolwyr a rheolwyr canol yn brin iawn ac yn gynyddol mae athrawon yn gorfod dysgu ail a thrydydd pwnc sy'n gallu bod y tu allan i'w maes arbenigedd.

I gyfarch yr angen, bwriedir cydnabod y nodweddion canlynol:

- trefniadau arweinyddiaeth ar gyfer penaethiaid i fod yn gyfrifol am nifer cynyddol o ddysgwyr;
- ystyriaeth briodol i'r opsiynau ynglŷn â darpariaeth addysg ôl-16;
- sicrhau digon o amser i staff i arwain ar bob lefel;
- adrannau a chyfadrannau hyfyw a gwydn;
- cwricwlwm eang a chyfoethog;
- creu cyfundrefn hunan wella gydweithredol ar draws ysgolion;
- cyfundrefn strategol a llywodraethiant effeithiol;
- arweinyddiaeth yn seiliedig ar nifer y dysgwyr.

3.2 Cynradd

Mae trefn addysg arfaethedig ar gyfer yr ysgolion cynradd wedi'i asesu ar sail egwyddorion cyffredinol, sef amodau arweinyddiaeth sy'n anelu tuag at gynnig 80% o amser digyswllt i'r pennaeth, ynghyd â cheisio sicrhau ysgolion gyda dosbarthiadau o ddim mwy na dau oedran.

Gallai'r nodau hyn ymateb i'r her fwyaf sy'n wynebu'r sector cynradd, sef penaethiaid heb amser digonol i arwain ac athrawon mewn ysgolion bach iawn sydd yn gorfod addysgu ystod eang o blant o wahanol oeddrannau a galluoedd yn yr un dosbarth.

Mewn rhai achosion, mae athrawon mewn ysgolion cynradd bach yn addysgu tri neu bedwar o grwpiau blwyddyn mewn un dosbarth, ac mae'n anodd sicrhau bod y gwaith yn bodloni anghenion pob disgybl oherwydd yr ystod eang o allu gall fodoli ar draws pedair blynedd o oedran dysgu.

3.3 Ystyriaethau Deddfwriaethol

Bydd yr egwyddorion yn cael eu hystyried ochr yn ochr â gofynion prosesau statudol perthnasol yn unol â'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), sydd yn rhoi arweiniad i gloriannu unrhyw gynnig statudol penodol. Golyga hyn bod gweithdrefnau a phrosesau statudol a phenodol iawn wrth ad-drefnu ysgolion. Felly, wrth gloriannu cynigion mae gofyn i'r

Awdurdod ymdrin yn briodol â chanlyniadau prosesau ymgynghorol ac asesiadau effaith perthnasol cyn dod i gasgliad.

Mae'r fersiwn diwygiedig o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) a ddaeth i rym ym mis Tachwedd 2018 yn gwneud trefniadau arbennig ar gyfer ysgolion gwledig (a ddiffinnir yn y Cod), gan sefydlu rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig. Mae'r ddogfen hon yn disodli'r Cod ymarfer blaenorol (006/2013). Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gynigwyr ddilyn cyfres fanylach o weithdrefnau a gofynion wrth lunio cynnig i gau ysgol wledig. Yn benodol, yn ystod y broses o ymgynghori ar gynnig ynghylch a ddylid cau ysgol wledig ac wrth ddod i benderfyniad. Serch hynny, nid yw rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig yn golygu na fydd ysgolion gwledig byth yn cau - yn hytrach mae'n golygu fod angen i bwysu a mesur pob opsiwn a sicrhau fod yr achos dros gau yn un cryf.

Wrth ystyried y trefniadau angenrheidiol, mae'r Cyngor yn hyderus ei fod eisoes yn dilyn prosesau ymgysylltu cynhwysfawr er sicrhau mewnbwn lleol wrth ddatblygu ac ystyried unrhyw gynlluniau strategol. Mae darpariaeth ysgolion ledled y sir yn gosod anghenion y plentyn o flaen unrhyw ffactor arall.

3.4 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Rydym fel Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddorion a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau Gwynedd. Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn ystyried yr hirdymor, gan gydweithio ac ystyried pobl o bob oedran wrth ddatrys ac atal problemau. Bydd gweithredu yn y modd hwn yn ein galluogi i gwrdd ag anghenion presennol ein cymunedau gan sicrhau nad yw penderfyniadau heddiw yn niweidiol i genedlaethau'r dyfodol.

Fel rhan o'r ddyletswydd, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut bydd yn gwella llesiant yn "Cynllun Gwynedd 2018-2023". Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg disgyblion y sir drwy ei weithgareddau a'i brosiectau. Bydd unrhyw newid i'r gyfundrefn yn cael ei hystyried a'i hasesu yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, gan sicrhau fod penderfyniadau yn cydblethu gyda 7 nod llesiant y Ddeddf, ynghyd ag amcanion llesiant y Cyngor.

3.5 Ystyriaethau Allweddol Eraill

Cydnabyddir y byddai goblygiadau pellgyrhaeddol i weithredu'r egwyddorion hyn ar gyfundrefn addysg bresennol Gwynedd. O ganlyniad, rhagwelir nad proses gyflym, yn ystod cyfnod y Cyngor hwn fyddai gweithredu'r egwyddorion ar draws y gyfundrefn, ond yn hytrach, gweithred a gymer nifer o flynyddoedd, gan rychwantu sawl Cyngor.

Cydnabyddir hefyd, y gallai gweithredu newidiadau mor enfawr ar draws y gyfundrefn mewn cyfnod cymharol fyr arwain at bryder ymysg holl randdeiliaid ein hysgolion, ynghyd â'r cymunedau a wasanaethir ganddynt.

Yn gyfochrog â'r ystyriaethau hyn, cydnabyddir hefyd fod newidiadau enfawr ar y gorwel ym myd addysg: newidiadau i drefniadaeth yr arolygiaeth ysgolion (Estyn), ynghyd â newidiadau sylweddol iawn i gwricwlwm a threfniadaeth ein hysgolion yn sgil argymhellion yr Athro Donaldson. Y mae'r newidiadau hyn dros y blynyddoedd nesaf yn creu heriau amlwg i'n hysgolion i gyfarch a gwireddu'r holl newidiadau, tra ar yr un pryd, yn wynebu toriadau cyllidol cenedlaethol parhaus a digynsail.

Yn sgil yr holl ffactorau hyn, a'u heffaith pellgyrhaeddol ar y drefniadaeth a'r ddarpariaeth addysgol i'r dyfodol, bwriedir gweithredu'r egwyddorion yn bwyllog, oddi fewn i gyd-destun, ac mewn modd a fyddai o bosib yn hwyluso gallu'r gyfundrefn i ymateb i'r newidiadau enfawr yma sydd ar y gorwel.

4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

4.1. O gymeradwyo'r egwyddorion canlynol:

- cyfundrefn o ysgolion uwchradd hyfyw;
- dim mwy na dau ystod oedran o fewn yr un dosbarth **yn y cynradd**;
- oddeutu 80% o amser di-gyswllt i'r Pennaeth i ganolbwyntio ar faterion arweinyddiaeth **yn y cynradd**;

byddai hyn yn galluogi'r Adran Addysg i ystyried addasrwydd y gyfundrefn addysg nawr ac i'r dyfodol yng nghyd-destun yr egwyddorion hyn, ac yng nghyd-destun y newidiadau enfawr sydd ar y gorwel yn nhrefniadaeth a darpariaeth ein hysgolion.

5. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

5.1 Sesiynau Egwyddorion Addysg Cyfundrefn Addas i Bwrpas

Cynhaliwyd cyfres o sesiynau galw-heibio (18 mewn cyfanswm) ar draws Gwynedd rhwng 7 Tachwedd hyd at 14 Rhagfyr i ymgysylltu gyda rhieni, staff, llywodraethwyr a'r gymuned yn ehangach fel rhan o'r broses o ddatblygu egwyddorion newydd ar gyfer ysgolion Gwynedd.

Gweler yr Atodiad am ganlyniadau'r ymgynghoriad.

Isod, manylir ar dri o'r egwyddorion y bu ymgynghori arnynt:

- (i) Amser digyswllt i benaethiaid: Roedd 98% o'r ymatebwyr yn cytuno bod angen sicrhau amser digonol i benaethiaid ar gyfer cyflawni eu dyletswyddau rheolaethol. Roedd nifer uchel o ymatebion yn nodi'r pwysigrwydd i leihau'r baich gweinyddol er mwyn canolbwyntio ar y ddarpariaeth addysg, ynghyd â'r angen i ystyried cydweithio i wella addysg yn y Sir. Nododd nifer o'r sylwadau

fod angen cydweithio er mwyn lleihau dyblygu gwaith, lleihau pwysau gwaith, a rhoi cyfleoedd i rannu arbenigedd ac ymarferion da.

- (ii) Ystod oedran mewn dosbarth: Yn ogystal, roedd 70% yn cytuno gyda'r egwyddor na ddylid dysgu mwy na dau oedran gyda'i gilydd mewn un dosbarth. Cafwyd sawl sylw yn nodi'r anhawster o orfod addysgu plant o fwy na dau oedran, er ei bod hefyd yn bwysig ystyried hynny oddi mewn cyd-destun ymarferoldeb ar gyfer unrhyw newidiadau.
- (iii) Rheolaeth ysgolion uwchradd: Wrth ystyried a ddylai penaethiaid ysgolion uwchradd fod yng ngofal tua 900 o ddisgyblion, roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn anghytuno gyda'r egwyddor, er mae'n bosibl fod hyn yn adlewyrchu'r canfyddiad y byddai hyn yn golygu un ysgol o 900 yn hytrach nag ystyried gwahanol fodelau rheoli. Yn ogystal, derbyniwyd nifer helaeth o'r ymatebion yn cytuno'n gryf gyda'r datganiad fod angen i blant gael eu haddysgu gan arbenigwyr pwnc. Mae angen felly i ystyried trefniadau cydweithredol rhwng ysgolion sydd yn creu cyfleoedd i gryfhau'r gyfundrefn, yn cynnwys modelau arweinyddiaeth lorweddol.

5.2 Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi

Cyflwynwyd adroddiad ar Egwyddorion Addysg Addas i Bwrpas gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 19 Ebrill 2018 yn ceisio barn y Pwyllgor Craffu ar yr egwyddorion addysg arfaethedig fydd yn sail ar gyfer gwireddu gweledigaeth yr Adran Addysg a datblygu'r gyfundrefn er sicrhau addysg o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc Gwynedd ar gyfer yn unfed ganrif ar hugain.

Ar sail canlyniadau'r ymgynghoriad gyda'r Llywodraethwyr a'r ysgolion, a gweledigaeth yr Adran Addysg, gofynnwyd yn benodol am farn aelodau'r Pwyllgor Craffu ar yr egwyddorion canlynol, a ystyrir yn sail i gyfundrefn addysg Gwynedd i'r dyfodol:

- cyfundrefn o ysgolion uwchradd hyfyw
- dim mwy na dau ystod oedran o fewn yr un dosbarth yn y cynradd
- oddeutu 80% o amser di-gyswllt i'r Pennaeth i ganolbwyntio ar faterion arweinyddiaeth yn y cynradd

I grynhoi'r drafodaeth a gafwyd yn y Pwyllgor Craffu, nodwyd y cefnogir yr egwyddorion yn gyffredinol, ond cydnabyddir ar yr un pryd y rhagwelir heriau ar hyd y daith i fod yn darparu a gweithredu'r egwyddorion hyn.

5.3 Barn y Swyddogion Statudol:

i. Y Swyddog Monitro:

Wrth gynllunio trefniadaeth ysgolion mae sefydlu egwyddorion o'r math yma yn darparu cyd-destun ar gyfer blaen gynllunio. Mae'r ymgynghori a'r trafodaethau gyda budd-ddeiliaid oedd yn rhan bwysig o baratoi'r Egwyddorion yn gam priodol i atgyfnerthu'r broses a'i dryloywder. Fel y cydnabyddir yn yr adroddiad mae'r gyfundrefn trefniadaeth ysgolion yn ddarostyngedig i fframwaith statudol ynghyd ag arweiniad statudol yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 sydd â

darpariaethau manwl. Mae'r adroddiad yn cydnabod y fframwaith yma ac yn gosod yr Egwyddorion yn briodol o fewn y cyd-destun.

ii. Y Pennaeth Cyllid:

Ar y adroddiad blaenorol gerbron y Cabinet 12 Gorffennaf 2016, nodais fod "*rhaid cael egwyddorion cytunedig fel sail gadarn er mwyn siapio cyfundrefn addysg addas ar gyfer y dyfodol. Gwyddom y bydd angen adnabod arbedion pellach yn y tymor canol. Felly, bydd rhaid i'r Cyngor resymoli os am wireddu rhai o'r egwyddorion hyn.*" Mae'r sylwadau yma'n dal i sefyll, a'r rhagolygon diweddaraf am y sefyllfa ariannol tu hwnt i 2019/20 yn sbarduno'r angen i ystyried hyn yn fuan.


ATODIAD 1

Canlyniadau'r ymgynghoriad ar egwyddorion addysg addas i bwrpas.


ATODIAD 1:

Canlyniadau'r ymgynghoriad ar egwyddorion addysg addas i bwrpas:


i. Mae'n bwysig cynllunio ar gyfer addysg yng Ngwynedd at y dyfodol




ii. Mae'n bwysig rhoi digon o amser i Benaethiaid reoli ac arwain er mwyn sicrhau yr addysg orau i'r disgyblion




iii. Dylai arweinwyr ysgolion unigol gydweithio i wella addysg ar draws y sir




iv. Pan fo'r niferoedd mewn ysgolion cyfagos yn fychan, dylid rhannu timau rheoli (e.e. pennaeth a dirprwyon) er mwyn sicrhau goroesiad y ddau safle




v. Dylai penaethiaid ysgolion ganolbwyntio ar ddarpariaeth addysg plant yn hytrach nag ar waith gweinyddol




vi. Dylai maint dosbarthiadau fod yn gyson ar draws y sir




vii. Ni ddylid dysgu mwy na dau oedran gyda'i gilydd mewn un dosbarth




viii. Mae'n bwysig bod disgyblion yn ein hysgolion uwchradd yn cael eu dysgu gan arbenigwyr pwnc




ix. Dylid uno dwy ysgol fechan gyfagos I greu un ysgol fwy




x. Mae angen cefnogaeth leol ar Lywodraethwyr i'w cefnogi i arwain ysgolion



xi. Mae angen i benaethiaid Gwynedd fod yng ngofal mwy nag un sefydliad



xii. Dylai penaeithiaid ysgolion uwchradd fod yng ngofal tua 900 o ddisgyblion



Eitem 8

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod y Cabinet

Dyddiad y cyfarfod:	18 Rhagfyr 2018
Aelod Cabinet	Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Cyllid
Swyddog Cyswllt:	Dilwyn Williams, Prif Weithredwr
Teitl yr Eitem:	Cyfarch y bwlch ariannol

Y penderfyniad a geisir

Bod y Cabinet yn mabwysiadu'r cynlluniau sydd yn atodiadau 1 i 6, yn amodol ar ganlyniadau'r ymgynghori, fel rhai y bydd yn rhaid i ni eu cyflawni os am geisio sicrhau cyllideb gytbwys yn 2019/20, gan ymgynghori ar y cynlluniau sydd yn atodiadau 3 i 6 yn ystod mis Ionawr (gan mai rhain sydd yn debygol o gael effaith ar drigolion).

Cefndir

1. Ers dechrau'r haf mae'r Aelodau Cabinet, y Cyfarwyddwyr a'r Penaethiaid Gwasanaeth wedi bod yn ystyried beth y byddem yn ei wneud pe byddai angen i ni gyfarch bwlch ariannol yn 2019/20.
2. Fel y bydd aelodau'r cabinet yn gwybod, fe ddechreuwyd drwy ofyn i bob adran nodi sut y byddent yn darganfod 20% o'u cyllideb pe byddai angen gwneud hynny.
3. Roedd hyn yn amlwg yn gwneud i bob Adran edrych ym mhob twll a chornel am arbedion posibl.
4. Fodd bynnag, bydd aelodau hefyd yn ymwybodol fod rhai o'r dewisiadau a ddaeth ymlaen mor annerbyniol fel y bu'n rhaid tynnu llinell ymhell o'r 20% ym mhob achos. Wedi dweud hynny, llwyddwyd i greu amrediad o bosibiliadau, gyda rhai cynigion yn cael mwy o ardrawiad ar bobl Gwynedd na'i gilydd.
5. Yn y cyfamser, 'rydym hefyd wedi ymgynghori a thrigolion Gwynedd i ofyn iddynt o ran y pethau y mae Cyngor Gwynedd yn ei wneud, beth sydd fwyaf pwysig iddynt hwy.

6. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus dros gyfnod o 8 wythnos rhwng 10 Medi a 4 Tachwedd 2018.
7. Roedd cyfle i drigolion a sefydliadau gymryd rhan drwy gwblhau holiadur ar-lein neu ar bapur, drwy fynychu un o 10 cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ar draws y sir neu drwy gyflwyno unrhyw adborth neu sylwadau yn ysgrifenedig.
8. Yn ogystal, cynhaliwyd cyfres o grwpiau ffocws a sesiynau galw heibio i ganfod barn sawl carfan neu grŵp allweddol gan gynnwys pobl ifanc, pobl hyn, pobl anabl a'r sector busnes.
9. Dros gyfnod yr ymarferiad fe wnaeth 2,478 o bobl Gwynedd a 38 o sefydliadau a busnesau lleol lenwi'r holiadur ac fe wnaeth 213 o unigolion fynychu un o'r cyfarfodydd cyhoeddus, grwpiau ffocws neu sesiwn galw heibio.
10. Mae'r adroddiad sy'n crynhoi canlyniad y dasg honno i'w weld yn yr adroddiad "Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi?" sydd ynghlwm i'r adroddiad yma.
11. Mae'r adroddiad o'r canlyniadau yn cynnwys:
 - Trosolwg o ymatebwyr yr arolwg fesul rhyw, oedran, iaith ac anabledd (tud.11)
 - Canlyniadau'r Arolwg yn ei gyfanrwydd (tud. 15-18)
 - Canlyniadau'r Arolwg fesul y 10 Ardal Llesiant (tud. 19)
 - Cymhariaeth o ganlyniadau'r Ardaloedd Llesiant a'r grwpiau rhyw, oedran, : ac anabledd (tud. 20)
 - Prif negeseuon o'r cyfarfodydd cyhoeddus (tud. 26)
 - Prif negeseuon o'r cyfarfodydd gyda'r grwpiau nodwedd cydraddoldeb (tud 31)
 - Prif negeseuon a dderbyniwyd gan sefydliadau a busnesau (tud. 32).

Cyd-destun ariannol

12. Mae'r Pennaeth Cyllid yn parhau i geisio sefydlu cyllideb gytbwys ar gyfer 2019/20 ac fe roddwyd cyfle i aelodau etholedig fynychu un o bedwar gweithdy a gynhaliwyd yn yr wythnos yn cychwyn 3 Rhagfyr i gael dealltwriaeth o ble 'rydym arni erbyn hyn.
13. Yn y gweithdai yma fe eglurwyd ein bod wedi derbyn setliad arall siomedig gan Lywodraeth Cymru lle gwelwyd y grant a roddir i Lywodraeth Leol yn aros yn ei unfan; a hynny ar adeg pan rydym yn gweld cynnydd sylweddol yn chwyddiant cyflogau a chwyddiant ar faterion fel ynni; a phwysau aruthrol yn ein hwynebu ym meysydd Addysg a Gofal.

14. Mae hyn yn golygu ein bod yn wynebu bwlch ariannol sydd yn debygol o fod o gwmpas £12.9m.
15. Fel yr eglurwyd yn y gweithdai, bu'r Pennaeth Cyllid yn edrych ar gamau y gellir eu cymryd i leihau'r bwlch yma a chan wneud hynny ei amcangyfrif diweddaraf yw y gellir dod a'r bwlch hwnnw i lawr i tua £6.8m.
16. Bydd manylion hyn oll a'r sefyllfa derfynol yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a'r Cabinet yn Chwefror er mwyn sefydlu'r gyllideb a'r Dreth Gyngor i'w argymhell i'r Cyngor ar gyfer 2019/20.
17. Yn y cyfamser mae angen ystyried sut y byddem yn cyfarch bwlch o £6.8m.
18. Dim ond drwy gynyddu'r Dreth Gyngor neu ddarganfod arbedion y gellir gwneud hynny.

Arbedion

19. Nawr ein bod yn gwybod beth yw maint y bwlch, mae'r Aelodau Cabinet a'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr wedi ystyried yr amrediad o gynigion arbedion a luniwyd gan eu rhannu i ddwy pair - y naill lle mae modd eu cyflawni gan gadw'r ardrawiad i'r lleiafswm posibl a'r pair arall lle byddai'r effaith ar drigolion Gwynedd mor sylweddol fel y byddai'n well gennym beidio â mynd i'r fan honno os yw hynny'n ymarferol bosibl.
20. Yr arbedion sydd yn cael yr ardrawiad lleiaf ar bobl Gwynedd yw arbedion effeithlonrwydd ac yn arbennig felly unrhyw arbediad effeithlonrwydd y gellir ei wneud yn y swyddfa gefn. Fodd bynnag mae'r cyfleoedd ar gyfer darganfod y fath arbedion wedi lleihau'n sylweddol dros y 10 mlynedd diwethaf wrth i ni eu gwireddu er mwyn darganfod yr arbedion sylweddol y bu'n rhaid i ni eu darganfod dros y cyfnod.
21. Serch hynny, mae'r amrywiol adrannau wedi canfod cyfleoedd i gyflawni mwy o arbedion drwy edrych ar drefniadau neu leihau cyllidebau swyddfa gefn ac fe nodir y cynlluniau yma yn Atodiad 1.
22. Mae yna arbedion effeithlonrwydd pellach i'w gwneud drwy ddarganfod ffyrdd gwahanol o gyflawni gwasanaethau ac fe nodir y rhain yn Atodiad 2.
23. Mae yna gyfleoedd hefyd wedi cael eu hadnabod i greu arbedion drwy fuddsoddi ac mae rhain yn cael eu hadnabod yn Atodiad 3.

24. Wedi hynny, mae yna wasanaethau eraill lle mae angen i ni ystyried y cyfleoedd codi incwm er mwyn gwarchod gwasanaethau hanfodol y Cyngor ac mae rhain i'w gweld yn Atodiad 4.
25. Yn y diwedd fodd bynnag, mae'n rhaid i ni ddarganfod arbedion mewn mannau sy'n mynd i gael effaith ar bobl Gwynedd ac fe fydd yr effaith hwnnw yn amrywio o gynllun i gynllun.
26. Y ffordd orau o sicrhau fod yr effaith mor fychan ag sy'n bosibl yw ceisio cael eraill i gymryd y swyddogaeth drosodd, ac mae yna ddau gynllun o'r fath sy'n ymddangos yn Atodiad 5.
27. Mae Atodiad 6 yn nodi'r cynlluniau eraill hynny y gallwn eu gwireddu gan dderbyn fod yna effaith am fod ar ein trigolion ond gan dderbyn mai rhain yw'r rhai lle bydd yr effaith leiaf yn cael ei weld.
28. Mae'n bwysig nodi fod y rhestri yma hefyd wedi cael eu llunio gan ddwyn i gof yr hyn sy'n ymddangos yn yr ymgynghoriad cyhoeddus.
29. Yn amlwg, mae Addysg o ansawdd; agweddau sylweddol o'r maes gofal a dwy agwedd o faes Bwrdeistrefol (sef y meysydd gofal a'r meysydd casglu gwastraff ac ail gylchu a chanolfannau ail-gychu) yn ymddangos yn y 10 maes mwyaf pwysig i bobl Gwynedd.
30. Wedi dweud hynny fe welir fod popeth yr ydym yn ei wneud yn bwysig i rywun. Hyd yn oed gyda'r gweithgaredd ddaeth allan fel yr un lleiaf pwysig ar gyfartaledd o'r holl wasanaethau yr ydym yn eu cyflawni, fe welir o dudalen 17 yr adroddiad fod tua 100 o ymatebwyr wedi dweud ei fod o'n un o'r pethau mwyaf pwysig iddynt hwy.
31. Gan fod y meysydd Gofal ac Addysg yn gyfrifol am 62% o wariant y Cyngor mae'n amhosibl eu hepgor o unrhyw gyfraniad at yr arbedion ond fe welir o'r atodiadau nad oes bwriad gofyn i ysgolion gyfrannu at yr arbedion yn 2019/20 ac mae'r elfennau y mae gofyn i'r meysydd yma gyfrannu yn cael eu cyfyngu i arbedion effeithlonrwydd neu arbedion sydd yn cael effaith ar yr ymylon.
32. O ran y grwpiau a nodweddion gwarchodedig fe welwyd fod trafnidiaeth gyhoeddus yn cael lle amlwg yn eu blaenoriaethau hwy ac mae'r rhestr a welir yn yr atodiadau yn fwriadol yn ceisio gwarchod y maes hwnnw rhag unrhyw ostyngiadau cyllidol er ein bod yn ymwybodol fod costau yn cynyddu'n sylweddol a bydd yn sialens cadw pob gwasanaeth cyfredol i fynd yng nghydestun y gyllideb sydd ganddynt.

33. Fe welir hefyd yn y ddogfen fod y sector fusnes yn naturiol yn cymryd agwedd dra gwahanol i drigolion Gwynedd ac yn nodi fod nifer o'r meysydd sydd yn ymwneud a'r sector fusnes yn naturiol yn fwy pwysig iddynt. Wrth lunio'r cynigion, rydym wedi ceisio osgoi effeithiau mwyaf andwyol unrhyw ostyngiadau yn y maes gan geisio cyfyngu hynny i'r lleiafswm posibl ond nid oes modd osgoi elfen o leihad yn ein gweithgareddau. Mae'r warchodaeth y byddem yn ei roddi yn debygol o olygu Treth Gyngor uwch na fyddem yn reddfodol yn dymuno ei weld, ond mae'n bwysig ein bod yn parhau i fuddsoddi elfen o'n cyllideb yn y meysydd yma.

Casgliadau ac argymhellion

34. Mae'r cynigion a nodir yn yr atodiadau yn cynhyrchu'r arbedion canlynol yn 2019/20. Mae yna nifer o'r cynlluniau yn gwireddu arbedion mewn blynyddoedd dilynol hefyd sy'n ein helpu i gynllunio ymlaen –

		£
Atodiad 1	Effeithlonrwydd Swyddfa gefn	1,278,320
Atodiad 2	Effeithlonrwydd pellach	269,370
Atodiad 3	Buddsoddi i arbed	21,500
Atodiad 4	Cynyddu incwm	481,590
Atodiad 5	Atal ond gofyn i eraill gymryd drosodd (arbediad yn cael ei gyflawni mewn blynyddoedd dilynol)	-
Atodiad 6	Arbedion ag effaith (i wahanol raddau)	406,490
	Cyfanswm 2019/20	2,457,270

35. O ystyried fod gennym fwlch tebygol o £6.8m ac nad yw'r arbedion a nodir uchod ond yn cynhyrchu £2.5m tuag at y swm hwnnw ac fel yr eglurwyd yn y gweithdai mae hynny oherwydd ei fod yn cymryd amser i gyflawni unrhyw gynllun.

36. Mae yna syniadau eraill ar droed allasai gynyddu maint yr arbedion effeithlonrwydd fyddai ar gael ond lle nad yw'r cynlluniau hynny eto'n ddigon aeddfed i'w nodi yn y cynigion. Ystyrir erbyn Chwefror fodd bynnag y bydd modd cynnwys rhai o'r cynlluniau hynny fydd yn dod a'r bwlch i lawr
37. Pe byddai modd darganfod £0.5m pellach dyweder sydd yn fy marn i yn rhesymol, byddai hyn dod a'r bwlch i lawr i £3.8m. Byddai hyn gyfystyr a chynnydd yn y Dreth Gyngor o tua 5.5%.
38. Yr unig ffordd o ostwng hynny ymhellach fyddai dod a mwy o'r arbedion gydag effaith sylweddol uwch na'r rhai a nodir yn Atodiad 1-6 i mewn i'r pair.
39. Ym mis Chwefror, pan fydd y sefyllfa yn fwy cadarn a chyn i'r Cabinet orfod dod i benderfyniad terfynol byddwn yn cynnal gweithdy ar gyfer holl aelodau'r Cyngor iddynt gael mynegi barn ynglŷn â lefel benodol o Dreth Gyngor; yr hyn y bydd y cyhoedd wedi ei nodi yn yr ymgynghoriad ar yr arbedion posibl a'r angen i ddod a mwy o'r arbedion gydag ardrawiad llawer gwaeth i mewn i'r hafaliad.
40. Yn wyneb hyn oll felly **argymhellir** fod y Cabinet yn mabwysiadu'r cynlluniau sydd yn atodiadau 1 i 6 fel rhai y bydd yn rhaid i ni eu cyflawni os am geisio sicrhau cyllideb gytbwys, ond ein bod yn ymgynghori ar y cynlluniau yn atodiadau 3 i 6 yn ystod mis Ionawr (gan mai rhain sydd yn debygol o gael effaith ar drigolion). Gallwn wedyn ystyried canlyniadau'r ymgynghori hwnnw yn Chwefror (yn y gweithdy aelodau a'r Cabinet) cyn dod i benderfyniad terfynol ar y rhestr arbedion i'w gyflawni ar gyfer 2019/20 a thu hwnt. Gallwn hefyd ystyried bryd hynny lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor y bydd yn rhaid ei godi.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

41. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella llesiant yn "Cynllun Gwynedd 2018-2023". Wrth baratoi'r rhestr o arbedion arfaethedig mae'r cynlluniau wedi eu seilio ar geisio cynnal gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer pobl Gwynedd. Mae hyn wedi cwmparu'r pum ffordd o weithio yn y Ddeddf. Mae'r ystyriaethau yma yn barhaus a bydd yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn bwydo i mewn i'r broses o sefydlu rhestr derfynol gan gyfarch gofynion y Ddeddf.

Deddf Cydraddoldeb 2010

42. Cyn gwneud penderfyniad mae dyletswydd i ystyried effaith debygol ar bobl sydd â nodweddion sy'n cael eu gwarchod gan y ddeddfwriaeth cydraddoldeb (Deddf Cydraddoldeb 2010). Fe wneir hyn drwy gynnal asesiad effaith cydraddoldeb ar y cynigion. Mae pob cynnig wedi ei ystyried yn y cyd-destun yma a lle'n briodol mae asesiad ardrawiad cydraddoldeb cychwynnol wedi ei baratoi a'i ystyried wrth roi cynlluniau ymlaen. Yn unol â gofynion y Ddeddf ynglŷn ag ymgysylltu bydd y broses ymgynghori yn rhoi sylw penodol i ystyriaethau cydraddoldeb a chasglu gwybodaeth er sefydlu asesiad cyflawn fydd yn cael ei ystyried wrth benderfynu ar gynlluniau yn derfynol.

Sylwadau'r Swyddogion Statudol

Swyddog Monitro

Mae ystod yr arbedion sydd dan sylw a'u cyd-destun rheolaethol a statudol yn cael ei gosod allan yn yr adroddiad a'r atodiadau ynghyd ag adnabod ardrawiadau posib fydd angen eu cyfarch eto. Nodaf yn benodol mai prif amcan y cam yma yw symud i gyfnod o ymgynghori cyhoeddus ar y cynlluniau arfaethedig. Mae hyn yn briodol a hefyd yn cyfarch agweddau statudol gan gynnwys y dyletswyddau a nodi'r yn benodol yn yr adroddiad. Mae'r broses yma wrth gwrs yn rhan o gymryd y cynlluniau perthnasol ymlaen i ystyriaeth derfynol fydd yn sail ar gyfer argymhellion y Cabinet i'r Cyngor Llawn ar sefydlu'r Gyllideb. Rwy'n fodlon fod y camau yma yn darparu llwybr priodol ar y pwynt yma.

Pennaeth Cyllid

Rwyf wedi cydweithio gyda'r awdur i baratoi'r wybodaeth ariannol, ac rwy'n cadarnhau fod rhan 12-18 o'r adroddiad yn adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf ar gyfer cyllideb 2019/20. Mae aelodau'r Cyngor wedi derbyn manylion am y pwysau ariannol yn y pedwar gweithdy ar 4-7 Rhagfyr.

Atodiad 1: Effeithlonrwydd Swyddfa gefn

Cynllun	2019/20	2020/21 ymlaen	Eglurhad	Ystyriaeth gychwynnol o oblygiadau cydraddoldeb posib
Cyflawni arbedion drwy brynu'n rhatach (e.e offer swyddfa a TG)	£20,000	£40,000	Mae'r Adran Amgylchedd yn arwain ar waith o reoli pryniant categorïau corfforaethol ac yn adnabod cyfleoedd i brynu'n rhatach. Enghreifftiau o hyn yw rheoli a phrynu'n deunydd fel offer swyddfa, dodrefn swyddfa, dillad diogelwch, Technoleg Gwybodaeth, Printio ayyb. yn well.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Gosod costau yn erbyn cyllidebau cyfalaf	£22,500	£22,500	Mae'r swyddogion sy'n gweithio llawn amser ar y rhaglen Ysgolion G21 ar hyn o bryd yn cael eu hariannu allan o refeniw'r Gwasanaeth. Bwrriedir gosod rhai costau yn erbyn y grant Ysgolion G21. Bydd rhaid gwneud achos busnes ar gyfer pob cynllun unigol. Effaith niwtral ar drigolion Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Lleihau costau swyddfeydd drwy osod gofod gwag	£70,000	£0	Ystyrir fod yna gyfleoedd i wneud gwell defnydd o ofod swyddfa drwy gywasgu ychydig a chreu gofod gwag i'w osod i denantiaid ar rent masnachol. Angen gwaith marchnata, addasu gofod a negodi gyda darpar denantiaid. Effaith niwtral ar drigolion Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Rhesymoli ac Integreiddio'r Swyddfa gefn Adran Amgylchedd	£11,880	£23,120	Gan fod swyddfa gefn dau Wasanaeth wedi uno i greu un Uned, mae posibiliadau o welliannau effeithlonrwydd a rhesymoli'r defnydd o sustemau cyfrifiadurol swyddfa gefn. Mae'r gwaith yn cefnogi dyletswyddau statudol y gwasanaeth, a hynny'n aml iawn o gychwyn hyd at ddiwedd y dyletswyddau amrywiol. Gall fod effaith o ran oedi ar drigolion Gwynedd wrth ymdrin â mater cynllunio, gwarchod y cyhoedd a pridiannau tir. Anodd yw rhagweld beth yn union fydd lefel yr oedi, ond bydd yna lai o gapasiti er y bydd swmp y gwaith yr un fath. Y cwestiwn yw a fydd modd gwneud yn iawn am y llai o gapasiti drwy wella effeithlonrwydd. Ni fyddwn yn gwybod hyd nes y byddwn yn ceisio ei gyflawni.	Posibilrwydd o effaith ar y nodweddion oedran ac anabledd. Angen asesiad pellach.

Atodiad 1: Effeithlonrwydd Swyddfa gefn

Tud. 42

Dileu swydd o'r Gwasanaeth Diogelwch Eiddo	£0	£30,000	Mae'r uned hon wedi bod drwy ymarferiad 'Ffordd Gwynedd' arweiniodd at drefniadau gweithio newydd a lleihad mewn costau refeniw blynyddol oddeutu £55,000. Mae'r perfformiad ar y dyletswyddau craidd yn foddhaol. Fodd bynnag, mae'r maes yn un lle mae gwaith uwchlaw'r dyletswyddau craidd yn codi ar hap/ byr rybudd yn dilyn digwyddiadau iechyd a diogelwch sylweddol mewn llefydd eraill e.e. Grenfell, wal fewnol yn disgyn ar blentyn mewn ysgol yn yr Alban, pryderon newydd am Radon, gofynion archwilio newydd osodir gan y cwmni yswiriant, ymateb canlyniadau gwael profion dwr yfed ar fanddaliadau ayb. O leihau'r gyllideb hon ni fyddai adnodd o fewn y tîm i ymdopi a'r math yma o waith sydd uwchlaw'r dyletswyddau craidd	Posibilrwydd y bydd effaith yn gysylltiedig â'r nodweddion oedran ac anabledd. Angen asesiad pellach
Arbedion ailstrwythuro blaenorol o fewn Adran Cefnogaeth Gorfforaethol	£30,000	£0	Mae'r arbedion yma sy'n deillio o weddillion nifer o ail-strwythuriadau o fewn yr Adran dros y 3 blynedd diwethaf wedi eu gweithredu eisoes ac nid oes unrhyw oblygiadau pellach iddynt.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Lleihau cyllidebau costau teithio a chyflenwadau Adran Cefnogarth Gorfforaethol oddeutu 10%	£40,000	£0	Mae'r arbedion yma mewn costau teithio a chyflenwadau swyddfa wedi cael eu gweithredu eisoes fel rhan o'r gwaith o baratoi ar gyfer arbedion pellach ac felly ni fydd effaith ar bobl Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Terfynu cytundeb meddalwedd	£10,000	£0	Mae'r Uned Ymchwil a Dadansoddeg yn defnyddio sustem feddalwedd arbenigol yn ôl y gofyn ond edrychir i ddefnyddio ffynonellau amgen rhatach heb lesteirio gormod ar waith yr Uned.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Dileu swydd reolaethol o fewn y Gwasanaeth Datblygu Sefydliad ac uno'r Gwasanaeth hefo'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu	£44,000	£0	Mae yna dair swydd o fewn y Gwasanaeth. Dileuwyd swydd Rheolwr y Gwasanaeth ddiwedd Mehefin eleni gan uno'r cyn-wasanaeth hefo'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu oddi ar y 1af o Orffennaf. Rhagwelir y gellir parhau i gyflawni'r gwaith hwn heb effaith ar y ddarpariaeth bresennol ond o ystyried y cyfnod byr a fu ers uno'r ddau Wasanaeth, byddai'n gynamserol i ddatgan na fydd yna unrhyw effaith ar y gwasanaeth a ddarperir.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Adolygu'r gefnogaeth i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	£15,000	£0	Lleihau o swydd a hanner i un swydd (swydd eisoes yn wag). Gwaith gweinyddol yw hwn sy'n ofynnol i ni ei wneud ar ran y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a bydd angen i'r Bwrdd fod yn fwy miniog o ran yr hyn y gofynnir i'r tîm cefnogol ei wneud yn ogystal â sicrhau cyfraniadau o adnodd a chapasiti gan y partneriaid eraill.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb

Atodiad 1: Effeithlonrwydd Swyddfa gefn

Tud. 43

Ail raddio dwy swydd o fewn yr Adran Gefnogaeth Gorfforaethol sy'n cefnogi gwaith y Cyngor	£15,000	£0	Mae'r Gwasanaeth Cefnogi Busnes yn Wasanaeth a sefydlwyd o'r newydd ym Mehefin, 2017 ac mae'n gyfuniad o sawl cyn-wasanaeth bychan. Mae angen moderneiddio'r strwythur a etifeddwyd yn sgil y newidiadau sydd wedi digwydd yn y ffordd o weithio o fewn y Cyngor e.e. perchnogaeth a chyfrifoldeb am berfformiad yn ganolog i'r disgwyliadau o'n rheolwyr yn hytrach na bod yn gyfrifoldeb penodol i'r gwasanaethau corfforaethol. Mae adolygiad o gyfrifoldebau dwy swydd wedi arwain at swydd ddisgrifiadau diwygiedig sy'n cyfarch gofynion ar gyfer y dyfodol ac mae hyn wedi arwain at arfarniadau swyddi sydd yn dyfarnu lefelau cyflog is.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Trosglwyddo i sustem swyddfa gefn cyswllt cwsmer newydd (Ffos)	£0	£23,000	Mae'r gwasanaeth wedi penderfynu newid y sustem swyddfa gefn o un a ddarparwyd gan gyflenwr allanol i sustem a ddyluniwyd yn fewnol. Bydd hyn yn arbed costau refeniwr wrth osgoi talu am drwydded flynyddol i gwmni allanol. Anelir i gwblhau'r gwaith o drosglwyddo'n llwyr i'r sustem fewnol erbyn Ebrill, 2020.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Lleihau cefnogaeth weinyddol o fewn y Gwasanaeth Cefnogol drwy gyflwyno systemau TG	£65,000	£39,000	Lleihau'r adnodd gweinyddol wrth gyflwyno rhagor o fodiwlau Hunan Wasanaeth Staff (Technoleg Gwybodaeth) ar gyfer rheolwyr a staff. Rhagwelir y gellid rhesymoli'r strwythur yn dilyn cyflwyno'r modiwlau hyn gan ddileu'r angen i fewnbynnu data mwy nag unwaith o fewn llif gwaith yn y meysydd recriwtio a phenodi, prosesu amserlenni a chofnodi absenoldebau staff. Pwysleisir bod angen i'r modiwlau hyn fod wedi'u datblygu a'u cyflwyno yn llawn cyn y gellid gwireddu'r arbedion pellach o fewn y Gwasanaeth.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Dileu swydd o'r Gwasanaeth Gwybodaeth yn sgil cyflwyno system electronig	£30,000	£0	Rhan o swyddogaeth y Gwasanaeth yw cefnogi adrannau gyda'r gwaith o gadw cofnodion a dogfennau. Gyda'r lleihad disgwyliedig yn y gofyn am gefnogaeth yn sgil cyflwyno sustem electronig 'iGwynedd', mae'r Gwasanaeth yn credu y gellir ymdopi gyda'r gostyngiad mewn adnodd, heb effeithio yn ormodol ar wasanaethau'r Cyngor. Nid yw igwynedd wedi dwyn llawn ffrwyth eto ond credir y gellid lleddfu unrhyw effaith tymor byr o ddileu'r swydd hon trwy'r buddsoddiad presennol mewn swyddi dros-dro a gyllidir yn gorfforaethol er mwyn cyflwyno 'iGwynedd' yn llawn ar draws y Cyngor.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb

Atodiad 1: Effeithlonrwydd Swyddfa gefn

Tud. 44

Dileu un swydd swyddog adnoddau dynol ac un swydd ymgynghorydd adnoddau dynol. (Lleihad staffio o 20%) drwy newid ein model gweithredu.	£0	£80,000	Rydym yn ceisio newid i fodel gweithredu lle mae llai o ddibyniaeth ar y gwasanaeth ymgynghorol adnoddau dynol. Byddai hyn yn golygu trosglwyddo sgiliau i reolwyr fedru cyflawni eu rôl yn effeithiol ac fe fyddai hyn yn galluogi i ni leihau'r nifer o swyddogion o 2 swydd allan o 10.5. Y risg yw nad yw'r baich gwaith yn lleihau oherwydd nad yw rheolwyr yn gallu dygymod. Bydd hefyd angen sicrhau fod y gefnogaeth briodol ar gael mewn ffyrdd amgen.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Lleihau'r gefnogaeth i'r Tîm Rheoli ac i gefnogi rheolaeth project.	£68,750	£41,250	Byddai un rhan o'r arbediad hwn yn golygu lleihau'r gefnogaeth uniongyrchol dydd i ddydd i'r Tîm Rheoli tra byddai'r ail ran yn golygu lleihau'r arbenigedd o fewn y Cyngor ym maes rheolaeth prosiect ac yn cyfyngu rhyw gymaint ar yr hyblygrwydd i ymateb i ofynion ar y Gwasanaeth. Credir y byddai modd dygymod hefo'r gofynion arferol gyda pheth newid yn y modd o weithio, ond efallai y byddai'r ddisgyblaeth o reoli prosiect felly yn dirywio dros amser.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Dileu'r Gwasanaeth Datblygu Sefydliad	£0	£54,000	Byddai dileu'r gwasanaeth yma yn golygu na fyddai'r adnodd presennol ar gael i roi sylw i fuddiannau staff, i gynnal arolygon, i hyrwyddo'r diwylliant a chynnig cefnogaeth i reolwyr er mwyn gwreiddio egwyddorion 'Ffordd Gwynedd' nac ychwaith i weithredu fel y pwynt cyswllt gyda phobl Gwynedd ar gyfer ymdrin â chwynion ffurfiol. Mae'r uned yma wedi bod yn llwyddiannus iawn yn datblygu buddion i staff gan gynnwys negodi disgownts mewn siopau lleol ac annog siopau lleol i'w cynnig er mwyn cael staff i brynu'n lleol. Ni fyddai modd cynnal y gweithgaredd hwnnw gan olygu y byddai'n dirywio dros amser tra byddai'r agweddau eraill o'r gwaith, o anghenraid, yn derbyn llawer llai o sylw yn sgil y gofynion eraill ar y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Lleihau costau llinellau ffon drwy ddefnyddio mwy ar VOIP	£38,000	£38,000	Rydym eisoes wedi trosglwyddo nifer o linellau ffon y Cyngor i fod yn defnyddio VOIP : hynny yw, defnyddio llinellau cyfrifiadurol i wneud galwadau ffôn yn hytrach na thalu am linellau ffon draddodiadol. Byddai modd ymestyn y cysyniad tu hwnt i brif swyddfeydd y Cyngor i sefydliadau eraill, ysgolion, cartrefi gofal, ac unrhyw adeilad sydd â chyswllt rhwydwaith addas sy'n cael ei ddarparu gan y Gwasanaeth TG gan arbed arian. Ni fyddai'n cael effaith ar drigolion Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb

Atodiad 1: Effeithlonrwydd Swyddfa gefn

Negodi ffioedd Archwilio Allanol	£40,000	£0	Dengys ein proffil risg y dylem fedru ail negodi prisiau. Ni fydd yna oblygiadau ar wasanaethau'r Cyngor nac ar bobl Gwynedd. Mae yna risg y byddent yn gwrthod, ond bu peth lwyddiant mewn blynyddoedd diweddar.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Newid dull ariannu Caffael Systemau	£35,000	£0	Lleihau cyllideb darparu meddalwedd gyda'r bwriad o isafu'r gefnogaeth ymgynghorol ar ein systemau. Ni fyddai unrhyw oblygiadau i bobl Gwynedd nac effaith ar wasanaethau yn y tymor-byr. Gall fod angen ariannu datblygiad yn y tymor-hir.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Lleihau teithio o fewn yr Adran Gyllid o 30%	£5,750	£0	Lleihau'r gyllideb teithio ar gyfer yr adran drwy ddefnyddio dulliau cyfathrebu electronig, megis Skype for Business, cynllunio siwrneiau, ayb. Felly, ni ddylai gael effaith ar bobl Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Lleihau Staffio Gwasanaeth Incwm (Lleihau staffio o 8%)	£11,380	£0	Yn dilyn ail-strwythuro staff, mae rhan o swydd yn wag o fewn y gwasanaeth. Mae ein perfformiad presennol yn adlewyrchu hynny ac felly, mae effaith dileu'r swydd wedi ei weld eisoes ar yr adrannau perthnasol. Gellir gwneud hyn yn barhaol.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Lleihau Staffio Gwasanaeth Cyflogau o 9%	£19,500	£0	Yn dilyn ail-strwythuro staff, mae un swydd yn wag o fewn y gwasanaeth. Mae ein perfformiad presennol yn adlewyrchu hynny ac felly, mae effaith dileu'r swydd wedi ei weld eisoes ar yr adrannau perthnasol. Gellir gwneud hyn yn barhaol.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Lleihau staffio yn y maes cyfrifeg	£49,130	£0	Yn dilyn trosiant staff, mae un swydd yn wag o fewn y gwasanaeth. Mae ein perfformiad presennol yn adlewyrchu hynny ac felly, mae effaith dileu'r swydd wedi ei weld eisoes ar yr adrannau perthnasol. Gellir gwneud hyn yn barhaol.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Defnydd tanwariant un tro i ariannu hyfforddiant	£34,400	£0	Lleihau'r gyllideb barhaol i ariannu hyfforddiant gyda'r bwriad o ddefnyddio tanwariant un-tro i'w ariannu i'r dyfodol, sydd yn golygu fod unrhyw hyfforddiant proffesiynol yn y maes Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth yn ddibynnol ar fod arian un-tro (tanwariant neu gronfa adrannol) ar gael i'w ariannu. Dim effaith ar gefnogaeth ariannol i'r adrannau / pobl Gwynedd, cyn belled bod y lefel o hyfforddiant yn cael ei gynnal. Risg yn y tymor hir fod staff ddim efo'r sgiliau angenrheidiol os na fydd y tanwariant ar gael, a byddai gwasanaeth Cyllid heb swyddogion wedi eu hyfforddi a'u cymhwyso'n briodol yn risg sylweddol i allu'r Cyngor i wneud y defnydd gorau o'i adnoddau ar ran pobl Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb

Atodiad 1: Effeithlonrwydd Swyddfa gefn

Ail negodi cytundeb rhwydwaith y Cyngor	£170,000	£0	Mae hwn wedi ei gytuno gyda Llywodraeth Cymru a'n darparwr, gyda chostau'n gostwng £200,000 y flwyddyn. Byddwn angen buddsoddi £30,000 y flwyddyn er mwyn cryfhau ein cyswllt i'r rhyngwrdd oherwydd cynnydd naturiol yn nefnydd y cyfryngau digidol. Bydd angen tynnu cyllidebau i'r canol (o bob adran o'r Cyngor ac o gyllidebau datganoledig yr ysgolion) er mwyn gwireddu lleihad yn y costau fel arbedion. Ni fydd effaith ar wasanaethau cefnogol i'r adrannau na phobl Gwynedd. Mae'n gyfle i wneud arbedion a chryfhau ein darpariaeth.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Lleihau costau cyflenwadau o 2.5%	£16,330	£0	Ystyirir fod modd lleihau'r gyllideb cyflenwadau drwy uchafu'r defnydd o ddulliau gweithio electronig ac osgoi cost papur, argraffu, ayb. Heb gael unrhyw effaith ar bobl Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Dileu swydd o'r Gwasanaeth Incwm	£5,850	£17,550	Ar hyn o bryd mae yna swydd sydd yn wag, ond a lenwyd ar sail dros dro ar hyn o bryd yn y Tîm Adennill dyledion cyffredinol. Byddai modd dileu'r swydd hon heb ddiswyddo aelod o staff parhaol, ond mae'n debyg y byddai yna effaith ar ein gallu i adennill dyledion. Ni wyddom yn union beth fyddai'r effaith hwnnw heb arbrofi i weld. Byddai colli un person sy'n adennill dyledion yn golygu llai o ymdrech yn ceisio adennill gyda'r risg y byddem yn colli mwy na fyddem yn ei arbed. Pe ddigwyddith hynny byddai angen i ni ystyried adfer yr arbediad.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb

Atodiad 1: Effeithlonrwydd Swyddfa gefn

Tud. 47

Ymestyn egwyddorion Cynllun Peilot Alltwn ar draws y gwasanaeth	£133,500	£400,500	Yn seiliedig ar dystiolaeth cynllun peilot Alltwn a thystiolaeth o siroedd eraill megis Torfaen, mae rhyddhau amser staff i gael sgysiau cychwynnol addas er cael datrysiadau cywir y tro cyntaf ynghyd ag integreiddio gyda chydweithwyr iechyd a trydydd sector, yn gallu arwain at well canlyniadau a hynny ar lai o gost. Yn aml iawn, mae hyn yn golygu datrysiadau ataliol eu natur o fewn eu rhwydweithiau a'u cymunedau lleol, yn hytrach na dibynnu'n unig ar becynnau gofal traddodiadol neu 'fwydlen' o wasanaethau Gofal Cymdeithasol. O ran hyn felly, rhagwelir y bydd yna effaith cadarnhaol ar yr unigolyn trwy allu cwrdd â'r hyn sy'n bwysig iddynt yn amserol ac mewn ffurf integredig gyda phartneriaid allweddol megis y Gwasanaeth Iechyd a'r 3ydd sector. Ond, er y dystiolaeth ddechreuol sydd gennym, mae'n amhosib rhagweld beth yw lefel yr arbedion effeithlonrwydd sydd yn bosib trwy ymestyn egwyddorion Ffordd Gwynedd ar draws y gwasanaeth. Y prif resymau am hyn yw bod y galw ar ein gwasanaethau yn parhau i gynyddu a chyflyrau y rhai sydd yn derbyn cefnogaeth yn dwysau, a'r ffaith fod llwyddiant newid y ffordd rydym yn gweithio yn gwbl ddibynnol ar ein gallu i greu cymunedau mwy gwydn ac integreiddio ein gwaith gyda phartneriaid allweddol i'r dyfodol. Rhaid disgwyl nes gweld profiad y tranche cyntaf cyn dibynnu ar y swm arbedion yma.	Rhagwelir effaith positif ond posibilrwydd fod angen asesiad pellach
Gwella prosesau gwaith drwy gynnal adolygiad Ffordd Gwynedd a defnyddio modiwlau cyllid y system TG newydd o fewn yr Adran Oedolion	£40,000	£40,000	Mae adolygiad 'Ffordd Gwynedd' a modiwlau cyllid y system TG newydd yn cynnig cyfleoedd i newid a gwella prosesau gwaith cyfredol. Rhagwelir y bydd newidiadau hyn yn arwain at ail strwythuro i dimau o fewn y gwasanaeth busnes. Rhagwelir y bydd y cynllun yn arwain at arbedion effeithlonrwydd ac felly ddim effaith negyddol ar drigolion. Er hynny mae risg ynghlwm na fydd y cynllun y cyflawni'r arbediad yn llawn ac na fydd y rhagdybiaethau cynnar yn gyraeddadwy	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb

Atodiad 1: Effeithlonrwydd Swyddfa gefn

Tud. 48

Adolygu'r trefniadau gweithredu o fewn yr Adran Oedolion	£0	£135,000	Byddwn yn parhau i adolygu ein prosesau gwaith i adnabod unrhyw gyfleoedd effeithlonrwydd pellach sy'n bodoli o fewn yr Adran. O ystyried y gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd allai arwain at hyd at 8 swydd FTE yn llai, a'r arbedion effeithlonrwydd sydd wedi eu canfod dros y blynyddoedd diweddar, y tebygrwydd ydi na fydd posib cyflawni'r swm dan sylw trwy arbedion effeithlonrwydd yn unig. Er hyn tybir y bydd yr ymarferiad o adolygu ein prosesau gwaith yn ein helpu i adnabod y toriadau fyddai'n cael yr effaith lleiaf ar bobl Gwynedd. Rhagwelwn y gallai'r toriadau yma gynnwys cynigion i dderbyn gostyngiad cyffredinol mewn safon cyflawni rhai tasgau sy'n angenrheidiol eu natur o ran gofynion cyfreithiol, yn ogystal hefyd a pheidio gwneud rhai tasgau sydd o bosib o natur fwy datblygol. Yn benodol o ran yr adolygiad cyfredol o roi strwythur newydd cefnogol yn ei le, tybiwn y bydd hyn yn rhoi'r balans cywir i ni i'r dyfodol o ran sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o amser staff rheng flaen. Y risg sydd ynghlwm a gwneud toriadau i'r gefnogaeth fusnes yw'r ffaith y byddai'n rhaid i weithwyr rheng flaen ymgymryd â thasgau ychwanegol ac arbenigol sy'n annhebygol o fod yn gryfder ganddynt, gan arwain at sefyllfa ble byddent wrth reswm wedyn yn treulio llai o amser gyda thrigolion. Rhagwelir felly y byddai gweithredu'r elfen 'toriadau' fel rhan o'r cynllun hwn yn debygol o gael effaith negyddol ar allu ein staff rheng flaen i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i drigolion, deall anghenion ein poblogaeth ar lefel lleol, yn ogystal â gallu'r Timau Gwaith Cymdeithasol i fod yn rheoli'r galw yn effeithiol. Mae'r gefnogaeth fusnes yn gosod sylfaen gwaith gwbl allweddol os am lwyddo gyda'r sialens o reoli'r galw ar ein gwasanaethau.	Posibilrwydd y bydd effaith ac angen asesiad pellach
Adolygiad o drefniadau gweithredu o fewn y maes Priffyrdd	£37,500	£12,500	O gynnal adolygiad 'Ffordd Gwynedd' 'rydym wedi adnabod ffyrdd o ddiddymu dyblygu gwaith rhwng yr elfen gomisiynu a'r gweithlu priffyrdd. Mae'n annhebygol y byddai trigolion Gwynedd yn sylwi ar y gwahaniaeth er y gallasai arwain at lai o staff i ymateb i ymholiadau ar brydiau.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb

Atodiad 1: Effeithlonrwydd Swyddfa gefn

Tud. 49

Rhesymoli Gweithdai Fflyd o 3 i 2 yn y Sir	£0	£130,000	Gellir rhesymoli'r nifer gweithdai sydd gennym i arbed arian. Nid yw'n debygol y bydd yna unrhyw effaith ar drigolion Gwynedd ond yn amlwg fe allasem weld colli swyddi mechanics yn lleol hyd at 6 (F.T.E). Nid yw'r Gwasanaeth Fflyd wedi cynnal cynllun busnes llawn gogyfer y cynllun arbedion yma nac asesiad risg o ddod lawr o dri safle i ddau. Byddai cau un gweithdy yn golygu y byddai'n rhaid i gerbydau deithio o un ardal i'r llall er cael eu gwasanaethu. Byddai'n ofynnol hefyd buddsoddi o fewn y gweithdai eraill er ymgorffori gwaith o'r gweithdy fyddai'n cau. Fe allasai hyn effeithio'r achos busnes gan ddod a maint yr arbediad net i lawr.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Lleihau'r gyllideb ffioedd proffesiynol/ cyfreithiol	£7,260	£0	Mae 4 llinell gyllideb yn cyfrannu at y cyfanswm yma sydd yn cynnwys cyllideb i brynu gwasanaethau proffesiynol drwy asesiadau yn annibynnol o'r gwasanaeth mewn achosion llys neu cyn cychwyn achos llys a ffioedd cychwyn achosion llys. Mae'r cyllidebau yma yn eistedd gyda'r gwasanaeth plant ac mae tanwariant bychan wedi bod ar y penawdau cyllideb yn hanesyddol. Rhagwelir fod modd lleihau ychydig ar bob un o'r penawdau hyn heb gael ardrawiad ar blant a theuluoedd gan barhau i gyfarfod a'r gofynion llys.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Lleihau'r gyllideb hyfforddiant o fewn y Gwasanaeth Plant	£8,980	£0	Byddai dileu yr elfen hyfforddiant arbenigol o'r gyllideb yn canatau i ni arbed 3% o'r gyllideb IFSS. Ni fyddai hyn yn cael effaith ar blant, teuluoedd nac ar staff. Roedd yr elfen hon yn rhan o'r cyllid oedd ar gael i osod y gwasanaeth newydd statudol yma yn ei le ac roedd trefniadau 'train the trainer' yn bodoli o fewn y gwasanaeth. Nid yw hyn yn hanfodol bellach. 'Roedd yna hefyd anghenion hyfforddi arbenigol a oedd yn ofynol wrth sefydlu'r tim trothwy o'r newydd. Erbyn hyn mae'r gofyn hwnnw wedi lleihau yn sylweddol a staff yn ymgymryd a darpariaeth hyfforddiant cyffredinol i weithwyr proffesiynol. Ni fyddai effaith ar ddarparu gwasanaeth uniongyrchol i blant a theuluoedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Lleihad yng nghyllideb gefnogol yr Adran Plant a Theuluoedd	£14,960	£0	Lleihad fyddai hwn yn y gyllideb offer ar gyfer y gwasanaeth fyddai yn cael dim effaith ar blant a theuluoedd a lleihad hefyd yn yr opsiynau i fynychu cyrsiau hyfforddi proffesiynol allan o'r Sir sydd yn gostus o ran prynu a theithio.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb

Atodiad 1: Effeithlonrwydd Swyddfa gefn

Tud. 50

Dileu swydd Swyddog Cefnogol	£29,210	£0	Wrth i'r ddau gyn Brif Swyddog roddi'r gorau i'w gwaith ni fydd angen swyddog cefnogol. Mae'r cynllun yma eisoes wedi cael ei weithredu ac ni fydd effaith ar drigolion Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Dileu cyllideb gweithfeydd corfforaethol	£46,340	£0	Rhoddwyd y swm yma o'r neilltu i ariannu cynlluniau corfforaethol wrth ad-drefnu Uwch reolaeth ddiwethaf yn 2014. Yn yr hinsawdd bresennol gellir ei hepgor heb gael effaith ar bobl Gwynedd gan ystyried unrhyw angen i'r dyfodol o unrhyw danwariant neu fid unwaith ac am byth.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Creu arbedion effeithlonrwydd o fewn y Gwasanaeth Crwner	£5,000	£0	Er bod y gwasanaeth yn un statudol ac nad oes gennym lawer o ddewis ynglŷn â faint yr ydym yn ei dalu (gan fod yn rhaid i ni ddigolledu'r crwner am ei gostau). Ystyrir fodd bynnag fod modd edrych am rywfaent o arbedion effeithlonrwydd a bydd adolygiad i adnabod posibiliadau heb effeithio ar bobl Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Lleihau 2 ddiwrnod ar gefnogaeth weinyddol etholiadau a chyfreithiol (lleihad o 7% yn y gefnogaeth weinyddol)	£6,225	£6,225	Ystyrir y byddai modd lleihau'r gefnogaeth weinyddol heb gael llawer o effaith ar drigolion Gwynedd ond mae yna siawns fechan y gallasai effeithio ychydig ar rai elfennau o'r gwaith.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Dileu'r holl gyllideb cefnogi adolygiadau Ffordd Gwynedd.	£61,370	£0	Tra bod modd gostwng y gyllideb heb ardrawiad sylweddol byddai'r cynllun yma efallai yn arafu adolygiadau oherwydd methiant i ddatrus y cymorth ariannol sydd ei angen. Byddai'n rhaid i adrannau gyfarch yr angen hynny eu hunain. Wedi dweud hynny nid yw hynny yn afresymol.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Cyfyngu amser staff i fynd ar gyrsiau addysgiadol e.e. cyrsiau BTEC, HNC a gradd.	£9,000	£0	Mae'r Adran yn rhoi cyfleoedd i staff fynd ar hyfforddiant tra'n gweithio i'r Cyngor. Drwy cyfyngu'r amser yn ystod oriau gwaith byddai hyn yn golygu fod yna fwy o amser ar gael i ennill ffi drwy gynyddu oriau cynhyrchiol yr adran.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Ail strwythuro rheolaeth yr Adran Ymgynghoriaeth	£11,500	£11,500	Mae newid yn ein patrwm gwaith yn golygu fod angen i uwch swyddogion yr adran ennill fwy o ffioedd sydd rŵan yn bosib drwy i YGC wneud mwy o waith tu hwnt i Wynedd e.e. i NMWTRA, Llywodraeth Cymru, y sector breifat a llywodraethau lleol eraill. Golyga hyn felly ofyn i Uwch Swyddogion yr Adran wneud mwy o waith cynhyrchu ffi yn hytrach na gwaith "rheolaethol".	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Cyfanswm	£1,278,315	£1,144,145		

Atodiad 2: Effeithlonrwydd pellach drwy weithio'n wahanol

Cynllun	2019/20	2020/21 ymlaen	Eglurhad	Ystyriaeth gychwynnol o oblygiadau cydraddoldeb posib
Lleihau'r adnodd o fewn y Gwasanaeth Cefn Gwlad	£5,000	£15,000	Mae yna adolygiad ('Ffordd Gwynedd') ar y gweill yn yr Uned yma. Rhagdybir ar sail ein gwytodaeth o beth sy'n digwydd ar hyn o bryd y bydd cyfleoedd yn codi i ryddhau arbedion drwy'r gwaith hwnnw ond os na fydd hynny yn dwyn ffrwyth mae modd lleihau'r gyllideb drwy leihau rhywfaint ar y gwaith a wneir.	Posibilrwydd y bydd effaith ac angen asesiad pellach
Gostyngiad yn y nifer o Gynghorwyr	£0	£100,000	Mae'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth leol eisoes wedi nodi eu bod am leihau nifer yr aelodau etholedig. Er na fydd yr arbediad ar gael tan ar ôl etholiad Mai 2022, dylid ei gymryd i ystyriaeth rŵan er mwyn osgoi toriadau diangen i wasanaethau.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Addasu trefn gwirio DBS	£0	£50,000	Mae adolygiad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd yng nghyswllt polisi presennol y Cyngor i ail-wirio cofnod troseddol pob swyddog sy'n cyflawni gwaith ple mae angen gwiriad DBS. Mae pob gwiriad yn costio £44 sy'n golygu bod y Cyngor yn talu'r ffi yma ar ddechrau cyflogaeth swyddog perthnasol ac yna pob 3 blynedd wedi hynny. Mae'n ofyn cyfreithiol i gynnal gwiriad DBS ar bob swyddog a gyflogir o'r newydd yn y meysydd perthnasol ond dewis y Cyngor yw'r ffaith ein bod yn bresennol yn ail-wirio cofnod pob 3 blynedd (er bod cefnogaeth i hynny gan sefydliadau megis yr Arolygaeth Gofal a.y.b.). Byddai peidio cynnal ail-wiriad pob 3 blynedd yn gwreiddu arbediad blyneddol o £50,000 i'r Cyngor ac mae adolygiad yn cael ei gynnal er mwyn ystyried sut y byddai modd gwneud hyn heb beryglu diogelwch plant ac oedolion bregus h.y. prin iawn yw derbyn unrhyw ddadleniad o gofnod troseddol ar ôl cynnal ail-wiriad sy'n tynnu sylw at drosedd ymysg gweithlu'r Cyngor, a phan fo trosedd wedi'i chyflawni, byddai hynny yn hysbys i'r cyflogwr cyn cynnal yr ail-wiriad. Mae opsiynau eraill fyddai'n gwreiddu arbediad llai yn rhan o'r ystyriaeth hefyd ond mae angen gwaith pellach ar y posibiliadau hynny cyn eu cyflwyno.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Dileu 1 swydd o'r Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu	£0	£26,000	Mae'r Gwasanaeth hwn yn darparu cefnogaeth i'r holl waith a wneir ym meysydd ymgysylltu, gwefan y Cyngor, swyddfa'r wasg, cyfathrebu mewnol, cyfathrebu hefo cynghorwyr a chyfathrebu mewn argyfwng. Byddai lleihad o 1 swydd yn golygu ein bod yn rhagweld y byddai modd parhau i ddarparu gwasanaeth lle byddai ei angen yn ôl blaenoriaethau corfforaethol.	Mae'n bosib y bydd effaith ar nodweddion anabledd, oedran a hil felly mae angen asesiad effaith pellach
Ail-strwythuro'r gefnogaeth ar gyfer Craffu	£25,000	£0	Mae angen sicrhau strwythur sydd hefo'r capasiti i gefnogi gofynion cynyddol trefniadau craffu'r Cyngor. Mae dwy swydd wedi dod yn wag o fewn y Gwasanaeth Democrataidd ac edrychir i ail-gyfeirio adnodd	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb

Atodiad 2: Effeithlonrwydd pellach drwy weithio'n wahanol

			ariannol i bwrpas cefnogi craffu wrth wireddu arbediad ariannol ar yr un pryd. Gellir gwneud hyn yn wyneb adolygiad o drefniadau gwaith sy'n cael ei gynnal o fewn y Gwasanaeth Democratiaeth yn bresennol h.y. dyma sy'n caniatáu'r arbediad a'r gallu i ail-gyfeirio adnodd.	
Lleihau Staffio Gwasanaeth Trethi a Budd-daliadau o 4%	£40,440	£0	Mae'r swydd a hanner yma eisoes yn wag o fewn yr uned ac mae ein perfformiad presennol yn adlewyrchu hynny. Byddai peidio â'u llenwi'n barhaol yn golygu y dylem fedru cynnal y perfformiad presennol ond fe fydd yna lai o allu i ddygymod gyda sefyllfaoedd anarferol yn y dyfodol. Tra na ddylid gweld effaith ar drigolion- ar adegau o bwysau arferol , bydd effaith o oedi cyn ymateb ar gyfnodau mwy prysur, neu mewn cyfnod o newid trefniadau.	Posibilrwydd y bydd effaith ar nodweddion anabledd ac oedran. Angen asesiad pellach
Trefn slipiau electronig cyflog i bawb	£3,750	£11,250	Byddai atal slipiau cyflog papur yn llwyr yn amhoblogaidd ymysg nifer o staff sydd ar hyn o bryd yn ei dderbyn ar bapur. Mae yna berygl y gallai gynyddu'r nifer ymholiadau. Fodd bynnag, ni fyddai'n cael effaith ar y cyhoedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Arbedion dros ben o ail-strwythuro diweddar i'r Gwasanaeth Llyfrgell	£15,000	£0	Dros y 4 blynedd diwethaf mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi cyflwyno cyfres o newidiadau i'w model darparu ac wedi cyflawni arbedion i'r Cyngor yn eu sgil. Mae £15k o arbedion wedi cael eu cynhyrchu uwchlaw y targed a osodwyd i'r gwasanaeth gan y Cyngor ac yn ystod 2018/19 mae'r gyllideb yma yn cael ei defnyddio i helpu gwreiddio'r gwasanaeth newydd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Cydweithio â'r trydydd sector i sicrhau darparwr newydd i gymryd drosodd y ddarpariaeth gofal dydd yng Nghriccieth a Blaenau Ffestiniog	£25,000	£75,000	Mae yna ddwy ganolfan dydd sef Encil Y Coed, Criccieth (18 yn mynychu ar hyn o bryd gyda'r ganolfan yn agored 3 diwrnod yr wythnos) a Blaenau Ffestiniog (15 yn mynychu ar hyn o bryd gan agor 4 diwrnod yr wythnos) lle mae gan gyrff fel Age Cymru bresenoldeb yn ardaloedd eisoes. Mae datblygiadau Hafod Y Gest a Chanolfan Goffa Ffestiniog yn gyfleon i gydweithio. Er y bydd parhad gwasanaeth i'r unigolion gall newid darparwr fod yn fater sensitif i fynychwyr a'u teuluoedd. Mae nifer o fynychwyr y ddwy ganolfan eisoes wedi mynd trwy newidiadau rhai blynyddoedd yn ôl wrth gau canolfan dydd Noddfa Madog ym Mhorthmadog lle bu i nifer fawr o fynychwyr y ganolfan symud i Encil y Coed a Blaenau Ffestiniog. Mae risg hefyd i unigolion ddewis peidio mynychu'r ddarpariaeth newydd yn yr ardal fyddai yn golygu cynnydd yn y galw am ofal cartref mewn ardaloedd lle mae'n sialens cael gofalwyr i gyflawni pecynnau gofal. Mae arbedion i'w cael drwy ystyried cynnal y ganolfan mewn lleoliad arall yn yr ardal. Mae canolfan ddydd Blaenau Ffestiniog yn cael ei chynnal yn y	Rhagwelir effaith ar unigolion hefo'r nodweddion anabledd ac oedran ac angen asesiad pellach

Atodiad 2: Effeithlonrwydd pellach drwy weithio'n wahanol

			ganolfan gymunedol. Rydym yn talu rhent blyneddol i'r ganolfan ac maent wedi nod pryder na fydd yn gallu cynnal ei hun heb y rhent.	
Gwell cydgordio gwasanaeth gyda'r Adran Plant a theuluoedd ar adeg oed trosglwyddo	£0	£60,000	Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn darparu gwasanaeth i blant sydd ag anableddau dysgu hyd y maent yn cyrraedd 18 oed ac yna mae'r gwasanaeth oedolion yn comisiynu gwasanaeth iddynt o hynny ymlaen. Mae cyfle i wella cydweithio a manteisio ar yr effeithlonrwydd allasai godi o fod yn cyd-gynllunio'n well. Bydd angen newid diwylliant i ddatblygu gwasanaethau ar sail egwyddorion cyd-weithio gydol oes a bydd angen datblygu trefn cyd-weithio newydd gydag lechyd ar draws y ddau wasanaeth. Yn gychwynnol, bydd modd i ni graffu'r ffordd orau o gyd-weithio wrth adolygu achosion CHC oed trosglwyddo yn gynt, gan gydweithio gyda'r Adran Plant a Theuluoedd i gynllunio'r gefnogaeth.	Rhagwelir effaith cadarnhaol a phosibilrwydd y bydd effaith ar bobl anabl
Adolygu pecynnau gofal anableddau dysgu all-sirol er mwyn adnabod lleoliadau mwy lleol i unigolion	£50,000	£50,000	Mae angen parhau gyda'r gwaith pwysig yma o adolygu pecynnau all sirol er mwyn cyd fynd gyda'r strategaeth o ddarparu cefnogaeth ar sail egwyddorion cefnogaeth actif yn y maes anableddau dysgu a'r model adfer (recovery mode) yn y maes iechyd meddwl a rhoi'r cyfle (pan yn addas) i'r sawl sydd eisiau ac angen derbyn cefnogaeth yn lleol. Fel y byddwn yn mynd trwy'r achosion ac yn edrych am ddatblygu cyfleoedd lleol i unigolion rydym yn hyderus o fedru darganfod rhai arbedion ond fe allasai cyrraedd lefel £100k fod yn her, yn enwedig wrth gyrraedd yr achosion hefo anghenion dwys a rheoli ymddygiad dwys.	Posibilrwydd o effaith ac angen asesiad pellach
Hurio Cerbydau Codi yn y Canolfannau Ailgylchu yn hytrach na' prynu	£15,000	£5,000	Ar hyn o bryd rydym yn prynu cerbydau codi yn y canolfannau ailgylchu ond dengys adolygiad y byddai modd arbed drwy eu hurio. Ni fyddai unrhyw effaith ar drigolion Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Rhesymoli Trefn ar ddyletswydd/ Ar alwad Priffyrdd	£7,500	£7,500	Ar hyn o bryd mae gennym drefniadau ar alwad yn y gwasanaeth Priffyrdd sydd yn derbyn a gweithredu ar alwadau gan y cyhoedd; yr heddlu ac asiantaethau eraill am faterion yn ymwneud a chynnal priffyrdd. Ar hyn o bryd trefnir y gwasanaeth ar sail ardaloedd / rhaniad uned gwaith / comisiynu. Byddai modd symud i sefyllfa o gyfuno rhai agweddau o'r drefn neu weithredu ar sail dwy ardal.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Defnyddio deunydd rhatach ar gyfer cynnal ffyrdd	£45,000	£0	O fod yn defnyddio 'non premium binder' wrth gynnal ffyrdd ystyrir y gellir arbed arian. Ni chredir y byddai trigolion Gwynedd yn sylwi ar y gwahaniaeth. Yn wir rydym yn ei ddefnyddio yn barod mewn rhai lleoedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Newid Teledu Cylch Cyfyng sydd gyda gofalywyr yn monitro i gyfundrefn 'heb ofalwyr'.	£0	£210,000	Gyda chytundeb y Cabinet, mae'r gwaith yma eisoes ar waith gan fod ein offer wedi cyrraedd diwedd ei oes. Mae yna bosibilrwydd wrth gwrs y bydd trigolion perthnasol yn dod i ganfyddiad nad yw'r gwasanaeth cystal â'r presennol heb oruchwyliaeth ond o ddefnyddio offer modern mae	Posibilrwydd y bydd effaith ar nodweddion amrywiol ac angen asesiad mwy manwl

Atodiad 2: Effeithlonrwydd pellach drwy weithio'n wahanol

			modd chwyddo lluniau camera sy'n edrych dros ardal ehangach a chael yn agos at yr un effaith.	
Newid trefniadau gwaith casglu gwastraff i shifftiau a chylchdeithiau llai (sydd o bosib yn golygu newid i ddiwrnod casglu i drigolion)	£0	£150,000	Mae ein profiad yn amlygu fod yna ddadl dros newid ein trefn shifftiau o ran casglu gwastraff. Tra na fyddai hyn yn golygu newid i amllder ein casgliadau, byddai'n golygu newid diwrnodau casglu i rai. Fe allasai helpu fodd bynnag gyda'r gwyn ein bod yn methu rhai casgliadau oherwydd bod rhai ar y lori yn anghyfarwydd a'r rownd gan mai'r un rhai fyddai wedyn ar y rownd yn barhaus. Fe allasai hyn helpu hefyd i greu "perchnogaeth" o'r rownd ymysg y gweithlu. Bydd newid diwrnod casglu i nifer o drigolion yn achosi peth dryswch ar y cychwyn. Angen trefn amgen i sicrhau cwblhau'r dasg (cylchdaith) i roddi sicrwydd i'r trigolion bod y casglu yn cael ei wneud ar y diwrnod.	Posibilrwydd y bydd effaith ar nodweddion anabledd ac oedran
Cefnogi a hyfforddi gwarchodwyr plant a meithrinfeydd ein hunain	£24,980	£0	Lleihad yn y gallu i ddarparu pecynnau hyfforddi a grantiau 'set up' i warchodwyr plant ac i feithrinfeydd. Ni fyddai effaith sylweddol ar blant a theuluoedd gan y byddai modd i'r gwasanaeth ddarparu'r hyfforddiant yn fewnol heb yr angen i gomisiynu yn allanol.	Posibilrwydd y bydd effaith ar y nodwedd oedran
Lleihau'r gyllideb Lwfans Cynllun Cynnal	£0	£30,900	Mae hon yn gyllideb fydd yn lleihau mewn gwariant dros y blynyddoedd nesaf gan ei bod yn gwireddu pecynnau cefnogi teuluoedd o dan gynllun hanesyddol. Nid oes unrhyw wariant yn cael ei gymeradwyo o'r newydd o'r gyllideb hon ers nifer o flynyddoedd ac fe fydd yn dod i ben pan mae'r bobl ifanc sydd yn parhau i dderbyn y lwfans yn troi yn 18oed. Ni fydd defnydd pellach ohoni ar ôl y 3 mlynedd nesaf ac felly ni fydd effaith ar blant a theuluoedd. Nid oes modd bellach i gymeradwyo cynlluniau o dan y trefniant yma oherwydd newid deddfwriaethol.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Gwireddu mwy o arbedion effeithlonrwydd o fewn y Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng	£12,700	£0	Darperir y gwasanaeth yma gan Uned ar y cyd ar gyfer Gogledd Cymru. Dengys sgwrs gyda rheolwr yr uned y dylem fedru weld arbediad effeithlonrwydd pellach o'r maint yma dros y 3 blynedd nesaf. Mae £10,000 o hwn eisoes wedi ei gyflawni ac ni ddylai gael effaith o unrhyw sylwedd ar drigolion Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Cyfanswm	£269,370	£790,650		

Atodiad 3: Cynlluniau i fuddsoddi er mwyn creu arbediad

Cynllun	2019/20	2020/21 ymlaen	Eglurhad	Ystyriaeth gychwynnol o oblygiadau cydraddoldeb posib
Darparu pwyntiau gwefru ceir trydan mewn meysydd parcio	£0	£50,000	Mae defnydd ceir trydan yn cynyddu'n yn sydyn a galw cynyddol am bwyntiau gwefru mewn meysydd parcio. Mae manylion y grantiau sydd ar gael ar gyfer ariannu'r offer wrthi'n cael eu cyhoeddi. O'i wireddu byddai yna effaith bositif ar drigolion Gwynedd gan fod diffyg pwyntiau gwefru yn broblem i unrhyw un sy'n ystyried prynu car trydan yng Ngwynedd ar hyn o bryd. Mae angen gwaith manwl ar y cynllun hwn cyn gallu datgan sicrwydd o allu ei wireddu, a phwysleisiwn mai amcan yn unig ydi'r ffigwr cychwynnol yma.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Buddsoddi mewn gwelliannu byddai yn gwneud y Neuadd Dwyfor yn fwy effeithlon gan baratoi i edrych am fodel amgen i'r dyfodol	£0	£100,000	Mae'r Adran wedi derbyn adolygiad busnes o'r Neuadd sy'n amlygu o wneud newidiadau a chyda buddsoddiad cyfalaf modest, y gallai arwain at wneud y neuadd £100,000 yn rhatach i'w redeg ymhén 3 blynedd o wireddu'r cynllun. Pan drafodwyd sefyllfa Neuadd Dwyfor yn ystod ymarferiad Her Gwynedd fe benderfynodd y Cyngor na ddylid torri'r gyllideb yma bryd hynny , ond fod hynny yn amodol ar drafod opsiynau gydag unrhyw fudiad lleol gyda golwg ar iddynt gymryd cyfrifoldeb amdano gyda'r nod o leihau'r costau sy'n syrthio ar drethdalwyr Gwynedd, ac y dylid cynnwys unrhyw arbedion yn yr arbedion effeithlonrwydd. Nid oes diddordeb lleol wedi bod mewn rhedeg y Neuadd ond o wireddu'r cynllun yma byddai cost yr adnodd yn syrthio i £48,000 y flwyddyn. Wedi dweud hynny nid ydym yn rhedeg y fath gyfleuster mewn unrhyw leoliad arall.	Posibilrwydd y bydd effaith ac angen asesiad pellach

Atodiad 3: Cynlluniau i fuddsoddi er mwyn creu arbediad

Tud. 56

Creu Uned Gofal Ysbaid newydd yn Tan Y Marian a fydd yn lleihau costau talu am leoliadau allanol	£21,500	£21,500	Mae angen creu Uned Gofal Ysbaid 'bespoke' newydd yn Tan Y Marian i ganolbwyntio ar anghenion dwys a chymhleth. Mae'r angen yma wedi amlygu ei hun am sawl rheswm:- 1. Newid mewn anghenion dwys a chymhleth yr oedolion rydym yn gefnogi 2. Newid yn anghenion oed trosiannol (ifanc, canol oed, oedolion hyn) 3. Llai o achosion yn all-sirol a fwy o oedolion yn derbyn cefnogaeth ddwys yn lleol 4. Mwy o oedolion gydag anghenion dwys a chymhleth yn byw gartref 5. Angen ail edrych ar y 'block booking' o wythnosau ofal ysbaid mewn dau leoliad yng Ngwynedd. Y gwasanaethau yma bellach yn methu cyfarch anghenion yr oedolion gydag anghenion corfforol ac ymddygiad mwy dwys. Hefyd, rydym angen gosod fframwaith sirol gofal ysbaid gyda 'menu' o ddewis ar sail galw, anghenion a lleoliad er mwyn darparu dewis ac ystod eang o wasanaethau ar draws y sir. Hynny ar sail y rhesymau uchod a hefyd er mwyn gosod trefn ar gyfer y ffordd rydym yn comisiynu gofal ysbaid. Bydd hynny yn fwy cost effeithiol yn hytrach na dilyn trefn 'spot purchase' o gyfleoedd ofal ysbaid ychwanegol. O wneud hyn oll rhagwelir y byddwn yn creu arbedion drwy leihau'r contract 'block booking, lleihau defnydd o'r drefn 'spot purchase' a chau y cyfleon 'block booking' sydd yn bodoli ar hyn o bryd.	Posibilrwydd y bydd yn cael effaith bositif ar bobl hyn ac angen asesiad pellach
--	---------	---------	--	--

Atodiad 3: Cynlluniau i fuddsoddi er mwyn creu arbediad

Tud. 57

Datblygu 3 prosiect Tai Gofal Ychwanegol arall yng Ngwynedd (Ardal Pwllheli, Ffestiniog, De Meirionnydd).	£0	£300,000	Mae'r Cyngor wedi datblygu dau gynllun Tai Gofal Ychwanegol eisoes yng Ngwynedd - Bala (Awel y Coleg) a Bangor (Cae Garnedd) a'r 3ydd yn y broses o gael ei gwblhau ym Mhorthmadog (Hafod y Gest) gyda tharged arbedion ynghlwm. Yn seiliedig ar ein profiadau hyd yma, amcangyfrif y gellir gwneud arbediad o £200,000 gyda phob datblygiad newydd o gael y rhaniad a'r cydbwysedd cywir anghenion gofal ymhob datblygiad. Byddai angen buddsoddiad ariannol sylweddol i adeiladu 3 safle tai gofal ychwanegol arall yng Ngwynedd, ond yn ogystal â chreu arbedion byddai'n cwrdd â gwir anghenion bobl hyn yn well. Yn naturiol, byddai'n gynllun hir dymor. Byddai asiantaeth dai yn gyfrifol am adeilad. Y costau gofal fyddai'n gyfrifoldeb ar yr adran. Mae yna bosibilrwydd o ehangu'r ddarpariaeth i unigolion ac anableddau dysgu, anableddau corff a chyflyrau iechyd meddwl yn ogystal â darpariaeth i bobl hyn yn unig. Y ddarpariaeth yn golygu fod unigolion yn cael eu tenantiaeth eu hunain ac yn gallu derbyn cefnogaeth amserol petai angen i'w galluogi i barhau yn annibynnol am gyhyd ac sy'n bosib yn eu cymunedau lleol. Tystiolaeth fod yn bosib darparu gofal i unigolion ac anghenion gofal dwys iawn o fewn y cynlluniau. Y cynlluniau yn galluogi i gyplau allu aros gyda'i gilydd a derbyn cefnogaeth ac yn galluogi teuluoedd i barhau i ddarparu elfennau o gefnogaeth petaent yn dymuno.	Posibilrwydd y bydd yn cael effaith bositif ar bobl hyn ac angen asesiad pellach
Lleihau dibyniaeth ar lety dros-dro trwy fuddsoddi mewn llety pwrpasol	£0	£100,000	Mae cyfrifoldeb ar yr Adran i ddarparu llety dros dro i unigolion sy'n ddigartref. Mae'r Adran yn sicrhau llety mewn gwahanol ffyrdd ond yn cael anhawster adnabod llety addas ar gyfer rhai unigolion gan fod prinder darpariaeth ar gael ac yn gorfod cyfrannu at gost y ddarpariaeth. Byddai cyflenwad o eiddo ychwanegol pwrpasol o gymorth i leihau dibyniaeth ar ffurfiau mwy costus. Pe gellid sicrhau buddsoddiad cyfalaf gan y Cyngor i sicrhau bod unedau llai a llety amgen ar gael gellid lleihau dibyniaeth ar lety dros dro. Rhaid sicrhau rheolaeth o'r unedau a bod gennym fynediad uniongyrchol iddynt a chyllid cynnal i osgoi heriau rheolaethol.	Posibilrwydd o effaith ar y nodwedd anabledd ac angen asesiad pellach

Atodiad 3: Cynlluniau i fuddsoddi er mwyn creu arbediad

Gosod lampau LED i weddill goleuadau stryd y Sir	£0	£45,900	Rydym eisoes wedi newid 10,264 o unedau goleuo stryd i LED. Rydym wedi derbyn cymeradwyaeth am £1.389m trwy gynllun benthyciadau'r Llywodraeth er mwyn cyflawni gwaith fyddai'n cychwyn yn Ebrill 2019 a chwblhau ym Mawrth 2022 i newid 7000 o lampau ffyrdd 'mwyaf' i rai mwy effeithiol. £184,000 fydd y swm ar gael ar ddiwedd y cyfnod y byddwn wedi ad-dalu'r benthyciad yn ôl ond dim ond 45,900 yn y blynyddoedd cychwynnol. Bydd trigolion yn sylwi ar y cychwyn cyn dod i arfer gyda'r goleuadau newydd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Cyfanswm	£21,500	£617,400		

Atodiad 4: Cynlluniau cynyddu incwm

Cynllun	2019/20	2020/21 ymlaen	Eglurhad	Ystyriaeth gychwynnol o oblygiadau cydraddoldeb posib
Cynyddu'r ffi am y clwb gofal cyn ysgol o £0.80 i £1	£43,000	£0	Ar hyn o bryd rydym yn codi 80c am yr elfen gwarchod cyn ysgol yn ein hysgolion ac mae oddeutu 2000 o blant yn manteisio ar y gwasanaeth. O gynyddu'r ffi i £1 byddai'n rhaid i deuluoedd dalu mwy am y gwasanaeth gyda'r perygl y byddai rhai yn dewis peidio parhau a gorfod newid eu patrymau gwaith er mwyn dygymod. Gallai hefyd olygu llai o blant yn dod i gael brecwast am ddim.	Mae'n debygol y bydd effaith ar ddisgyblion ac felly'r nodwedd oedran. Bydd angen asesiad effaith pellach
Cynyddu'r ffi ar gyfer asesu ansawdd dwr er mwyn adlewyrchu'r gost o ddarparu'r gwasanaeth.	£12,500	£12,500	Mae'n ofynnol i'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd archwilio a samplo dyfroedd dwr yfed preifat er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel. Mae'r ystod gwaith sydd ei angen i wneud hynny wedi newid dros y blynyddoedd ac fe ddylai'r ffi a godir adlewyrchu hynny. Yn naturiol o'i godi bydd yn rhaid i ddefnyddwyr ffynonellau dwr preifat dalu mwy am y gwasanaeth ond dim ond i'r graddau y mae'n cwrdd â'r gwir gostau o wneud y gwaith.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Cynyddu incwm drwy wella'r drefn o godi cosb ar ymgymrwyr lle nad ydynt yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth wrth weithio ar ein lonydd.	£15,000	£0	Mae modd defnyddio system dechnoleg yn fwy effeithiol i gael gwell rheolaeth ar weithiau ymgymrwyr statudol . Mae trefniant cosb ariannol mewn lle ar gyfer peidio â chydymffurfio a'r deddfwriaeth. Byddai cael gwell rheolaeth ar y gweithiau yn arwain at adnabod unrhyw anghysondebau gan ddenu hysbysiadau cosb. Effaith niwtral ar drigolion Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb

Atodiad 4: Cynlluniau cynyddu incwm

Cynyddu incwm drwy ddileu parcio am ddim o Nadolig 2019 ymlaen; cynyddu'r nifer meysydd parcio sy'n rai talu ac arddangos a chynyddu ffioedd parcio gan ystyried sut y gellir yr un pryd a oes modd cadw cost parcio i drigolion yr un fath neu ei leihau hyd yn oed.	£82,500	£97,500	Mae Parcio am ddim dros gyfnod Nadolig yn golled incwm o oddeutu £45,000. Byddai newid criteria ar gyfer meysydd parcio talu ac arddangos yn golygu y byddwn yn codi mewn mannau sy'n ddi-dâl ar hyn o bryd, yn ogystal â chynyddu ffioedd mewn rhai lleoliadau. Byddai codi ffioedd parcio oddeutu 10% yn amlwg yn cynhyrchu fwy o incwm ond yn taro ymwelwyr a thrigolion Gwynedd yr un fath . Yn y rhan fwyaf o feysydd parcio tymor byr byddai cost parcio am awr yn cynyddu wedyn o £1 i £1.10. Yn y rhan fwyaf o feysydd parcio tymor hir byddai cost parcio am 4 awr yn cynyddu o £2 i £2.20. Yr hyn y byddai'r Cyngor yn dymuno ei wneud yw ystyried a ellid osgoi'r cynnydd yma ar gyfer trigolion Gwynedd neu hyd yn oed ei leihau drwy leihau pris tocyn tymor i drigolion dyweder. Byddai angen cryn dipyn o waith i sefydlu'r cynllun terfynol yn amlwg.	Posibilrwydd y bydd effaith ar nodweddion oedran, anabledd a hil. Angen asesiad pellach.
Codi ffioedd difa pla er mwyn dod yn agosach at brisiau'r farchnad	£5,000	£5,000	Mae gwaith diweddar i gynyddu incwm drwy godi ffioedd a denu cwsmeriaid newydd wedi bod yn llwyddiannus. Rydym yn parhau i fod yn rhatach na chwmnïau eraill ac ymddengys felly fod yna gyfle i godi ffioedd. Byddai yna effaith fechan ar drigolion Gwynedd yn sgil cynnydd bychan mewn ffioedd e.e. triniaeth llygod mawr mewn tŷ yn codi o £40 i £45 sydd yn parhau yn gystadleuol wrth gymharu gydag oddeutu £60 gan gwmnïau preifat. Yn naturiol fe fydd angen monitro'r sefyllfa yn ofalus i sicrhau ein bod yn parhau i gynnig pris cystadleuol o gymharu ag eraill.	Posibilrwydd y bydd effaith y nodweddion oedran, anabledd a hil. Mae angen asesiad pellach

Atodiad 4: Cynlluniau cynyddu incwm

Cynyddu'r ffioedd a godir ar Ymgymerywyr Statudol ayb am gau ffyrdd / gorchmynion traffig yn sylweddol uwch.	£12,500	£17,500	Mae'r cynllun yma yn golygu cynyddu ffioedd a godir ar ymgymerywyr statudol ac eraill am gau ffyrdd neu i baratoi gorchmynion traffig yn sylweddol uwch. Byddai'r effaith ar ein trigolion yn gallu cynyddu, h.y. drwy i gostau cynnal digwyddiadau gynyddu gan effeithio budd i gymunedau (rhai sydd ddim yn fasnachol eu natur). Fe allasai hyn wrth gwrs arwain ar ddigwyddiadau un ai yn cael eu cynnal heb adael i ni wybod, allasai gynyddu risg i'r cyhoedd, neu fod digwyddiadau ddim yn cael eu cynnal a lleihau'r budd cymunedol.	Posibilrwydd y bydd effaith ar nodweddion oedran ac anabledd ac angen asesiad pellach
Cynyddu incwm yr Uned Iechyd Galwedigaethol drwy werthu mwy o wasanaeth	£20,000	£0	Mae'r Uned yn cynhyrchu incwm drwy werthu gwasanaeth iechyd galwedigaethol i sefydliadau cyhoeddus eraill. Mae'r cynnydd yn y targed incwm yn seiliedig ar berfformiad y Gwasanaeth dros y tair blynedd diwethaf.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Denu incwm ychwanegol drwy wneud gwaith i gyrff cyhoeddus eraill	£46,340	£10,000	Rydym wedi bod yn trafod yr hyn a ddarperir i gyrff allanol i adlewyrchu'n well y ddarpariaeth a roddir iddynt.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Creu incwm drwy werthu system tracio fflyd	£0	£20,000	Mae system tracio fflyd fewnol wedi'i ddatblygu yma yng Ngwynedd, sy'n dod ag arbedion o tua £100,000 i'r Adran Priffyrdd. Mae cryn ddiddordeb gan awdurdodau eraill, wedi ymdrech i werthu'r system iddynt. Bydd ein gallu i gynhaefu'r arbediad yn dibynnu ar y partïon eraill yn cytundebu, ond gwelir cyfle i godi incwm ychwanegol.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb

Atodiad 4: Cynlluniau cynyddu incwm

Tud. 62

Cynhyrchu incwm drwy atal twyll	£0	£40,000	Byddem yn sefydlu'r gwasanaeth er mwyn ceisio adnabod mwy o achosion twyll na'r hyn a wneir eisoes. Yn amlwg, mae'r swm a nodir yn warged sydd angen i'r gwasanaeth ei gynhyrchu ar ôl ystyried costau ei sefydlu a'i redeg. Mae yna risg na fyddai'r swm yn gwireddu ei hun, ond ni fyddwn yn gwybod heb ymgeisio. Yn sgil Deddf Diwygio Lles 2012, sefydlwyd gwasanaeth atal twyll 'SFIS' gan y DWP, yn cynnwys trosglwyddo cyn staff atal twyll y Cyngor i'r DWP yn 2015/16, cyn gweld canlyniad gweithrediad SFIS, nid oedd modd amcangyfrif maint y twyll gweddilliol tebygol. Wrth gwrs, mae'n anochel bydd elfen o dwyll sydd heb ei adnabod, a bron yn amhosib amcangyfrif faint. Mae yna risg go iawn o ddibynnu ar y swm yma felly.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Denu incwm ychwanegol drwy Asiantaeth Casglu Fewnol	£0	£100,000	Yn hytrach na dibynnu ar asiantaethau allanol i fynd ar ôl dyledion, byddai modd sefydlu uned ein hunain. Byddai'r symiau y byddai'n rhaid i ddyledwyr eu talu (ar ben y ddyled) yn parhau i fod yr un fath ond byddai elw sy'n cael ei wneud gan asiantaethau masnachol yn dod i'r Cyngor yn hytrach nag i gwmni preifat. Mae llwyddiant mentrau o'r fath ar draws gogledd Cymru wedi bod yn amrywiol. Byddai yna gostau ynghlwm â chyflwyno'r gwasanaeth. Hefyd, mae risg arwyddocaol o fethu denu'r incwm ychwanegol, a phosibilrwydd o ddirywiad yn y cyfraddau casglu trethi.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Cysoni trefniadau parcio drwy gyflwyno ffioedd parcio i safleoedd (e.e. ardal Y Glyn)	£20,000	£20,000	Mae ffioedd parcio eisoes yn daladwy mewn rhai meysydd parcio ym Mharc Padarn. Bwriedir cyflwyno ffioedd parcio cyffelyb mewn mannau ychwanegol (e.e. ardal Y Glyn) a fyddai yn cysoni'r trefniadau. Mae'n bwysig nodi mai trigolion Gwynedd ydi canran uchel o'r ymwelwyr sydd yn defnyddio'r safle ar gyfer pwrpasau hamdden. Byddai hefyd yn amcan i geisio cael cyrff eraill i gymryd cyfrifoldeb dros ein parciau gwledig gan leihau'r gost i ni o'u darparu. Byddai angen buddsoddiad i'w weithredu.	Posibilrwydd y bydd effaith ar nodweddion oedran, anabledd a hil. Mae angen asesiad pellach

Atodiad 4: Cynlluniau cynyddu incwm

Sefydlu ffioedd parcio ar draeth Dinas Dinlle	£15,000	£35,000	Mae ffioedd parcio eisoes yn daladwy mewn rhai meysydd parcio ger prif draethau. Bwriedir cyflwyno ffioedd parcio cyffelyb mewn lleoliadau ychwanegol lle nad ydym yn codi ar hyn o bryd a fyddai yn gyson gyda mannau eraill e.e. traeth Dinas Dinlle. Dylid nodi fod canran uchel o ymwelwyr i'r traethau (yn enwedig allan o dymor) yn drigolion Gwynedd a gall arwain at gynydd mewn parcio ar y ffordd.	Posibilrwydd y bydd effaith ar nodweddion oedran, anabledd a hil. Mae angen asesiad pellach
Cynyddu ffioedd lansio ar draws traethau Gwynedd o £10 i £15.		£10,000	Mae modd cynyddu ffioedd lansio cychod o lithrfeydd y Cyngor o £10 i £15. Byddai angen buddsoddiad i'w weithredu.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Cynyddu'r ffi i ysgolion am y gwasanaeth archifau	£5,000	£5,000	Mae yna 70 o ysgolion wedi ymrwymo i ddefnyddio'r gwasanaeth archifau eleni ac maent yn talu 50% o gost y gwasanaeth drwy dalu ffi o £254 yr ysgol. Byddai'r cynnig yn arwain at gynydd yn ffi ysgolion i £397 yr ysgol, sef cynnydd o bron i £150 yr ysgol (yn ddibynnol ar nifer ysgolion fydd wedi ymrwymo).	Posibilrwydd y bydd effaith ar blant ac mae cyswllt felly a'r nodwedd oedran. Angen asesiad pellach
Cynyddu ffioedd archwilio a thrwyddedu tai mewn amldeiliadaeth o £140 i £180 yr ystafell	£0	£20,380	Rydym yn codi tal am archwilio a thrwyddedu eiddo amldeiliadaeth gyda thrwydded wedyn yn parhau am gyfnod o 5 mlynedd. Mae'r tal yn cyfrannu at gost y gwasanaeth a gellid codi'r ffi wrth aros o fewn canllawiau'r llywodraeth. Ar hyn o bryd, codir £140 fesul ystafell a rhagwelir byddai modd codi'r ffi i tua £180 yr ystafell. Mae yna berygl y byddai yna gynydd posibl mewn lefel rhenti i rai tenantiaid bregus wrth i'r gost gael ei throsglwyddo.	Posibilrwydd y bydd effaith ac angen asesiad pellach
Cynyddu incwm gorfodaeth stryd drwy ddirwyo mwy o unigolion sy'n gollwng sbwriel	£10,000	£10,000	Rydym ar hyn o bryd yn edrych ar gydweithio rhanbarthol neu ymestyn pwerau gweithredu i eraill o fewn y Cyngor er mwyn gweithredu ar hwn.	Posibilrwydd y bydd effaith ar unigolion gyda'r nodwedd anabledd ac angen asesiad pellach
Gwastraff Gardd: cynhyrchu mwy o incwm neu leihau costau	£25,000	£75,000	Mae yna nifer o opsiynau i arbed arian yn y maes gwastraff gardd. Byddai modd codi ar y ffi flynyddol a neu leihau'r gwasanaeth i 9 mis yn bosibl ond efallai yn creu elfen o anniddigrwydd ymysg tua traean o'n trigolion. Byddai angen ymgynghori ar y dull ffafredig o gael yr arbediad gyda'r trigolion.	Posibilrwydd y bydd effaith ar unigolion gyda'r nodwedd oedran (pobl hŷn) ac angen asesiad pellach

Atodiad 4: Cynlluniau cynyddu incwm

Codi ffi am ailgyflenwi biniau sydd wedi'u difrodi gan drigolion	£6,250	£18,750	Mewn blwyddyn mae gofyn i ni ail gyflenwi 12,000 o gynhwysyddion gwastraff ac amcangyfrifir bod tua 75% o'r achosion yma oherwydd difrod gan drigolion. Gallwn ofyn iddynt dalu am ailgyflenwi. Fel cam cyntaf byddem yn codi am ail gyflenwi bin gweddilliol yn unig.	Posibilrwydd y bydd effaith ar unigolion hefo'r nodweddion anabledd ac angen asesiad pellach
Codi ffi ychwanegol am amlosgi ar yr un diwrnod a'r gwasanaeth	£10,000	£10,000	Mae modd symud trefniadau'r amlogfa i un lle rydym ond yn amlosgi ar yr un diwrnod os bydd taliad ffi ychwanegol.	Posibilrwydd y bydd effaith ar unigolion hefo nodweddion crefydd ac angen asesiad pellach
Codi ffi amlosgi yr Amlogfa o £520 i £550	£7,500	£22,500	Codi ffi amlosgi o £520 i £550.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Canolfannau Ailgylchu: codi ffi ar fasnachwyr	£5,000	£15,000	Ar hyn o bryd ni chaniateir i fasnachwyr fynd a deunydd i'r canolfannau ailgylchu. Drwy drwyddedu masnachwyr i gael gwneud hynny gallwn gynyddu incwm. Ni fydd effaith ar drigolion.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Codi ffi ar waredu deunyddiau DIY (e.e. Rwbwl £3 y bag neu £30 lond trelar)	£25,000	£75,000	Mae rhai cyngorau cyfagos yn codi ar drigolion am fynd a deunydd DIY i'r canolfannau ailgylchu. Mae'r deunydd yma yn ddud i'w ailgylchu ac mae gennym bryderon fod masnachwyr yn dod a deunydd i'r safleoedd gan honni mai unigolion preifat ydynt. Rhagwelir codi ffi ar nwyddau megis rwbwl, teiars, asbestos ac eraill. Er enghraifft Rwbwl £3 y bag neu £30 lond trelar, teiar £4 yr un asbestos £12 y bag.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Cynyddu ffioedd am gasglu gwastraff gan fusnesau	£0	£100,000	Er nad oes rhaid i ni ddarparu'r gwasanaeth 'rydym yn casglu gwastraff gan fusnesau ac mae o'n talu am ei hun. Mae yna ddarparwyr preifat wrth gwrs ac i raddau mae'r ffaith fod y cyngor yn darparu gwasanaeth yn helpu i gymedroli'r farchnad ac yn helpu i dalu am ein costau gorbenion. Byddai modd codi mwy ond gyda'r perygl y byddem wedyn yn colli busnes ac yn gwneud y gweddill yn aneffeithlon. Ni fyddai yna effaith ar drigolion ond bydd effaith ar 2001 o fusnesau yn y Sir.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb

Atodiad 4: Cynlluniau cynyddu incwm

Cynyddu incwm drwy wneud gwaith cyfreithiol i sefydliadau cyhoeddus eraill	£33,000	£0	Fel rhan o waith o geisio annog mwy o incwm mae'r Uned wedi llwyddo i greu mwy o incwm drwy wneud gwaith i eraill . Mae'r incwm yma eisoes mewn llaw ac felly ni fyddai yna oblygiadau ar bobl Gwynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Codi ffioedd YGC yn y maes gwaith ymgynghorol peirianeg sifil.	£40,000	£0	Codi ffioedd d er mwyn adlewyrchu symudiad o fewn y farchnad sector breifat. Byddai costau i gleientiaid yn codi wrth gwrs ond ystyrir fod hyn yn gynaliadwy o ystyried y farchnad bresennol.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Cynyddu Incwm ar gyfer y maes atal llifogydd	£25,500	£25,500	Oherwydd yr her o newid hinsawdd mae'r Gwasanaeth wedi llwyddo i ennill gwaith fydd yn cyfrannu mwy o incwm o leiaf am y 5 mlynedd nesaf. Bydd angen cyflogi 3 swyddog ychwanegol er mwyn medru cyflawni'r gwaith hwnnw gyda risg isel i'r gwaith hwnnw leihau ar ôl 5 mlynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Cynyddu incwm drwy gynnig cefnogaeth dechnegol, wyddonol a pheiranyddol i gynlluniau lliniaru risg llifogydd i Gynghorau ledled Cymru.	£7,500	£22,500	Mae'r adran yn datblygu arbenigedd yn y maes o atal llifogydd nad yw ar gael mewn nifer o gynghorau ac ystyrir y gellir gwerthu rhywfaint o'r arbenigedd yma i gynghorau eraill yng Nghymru. Byddai angen cyflogi 2 swyddog ychwanegol er mwyn gwneud hynny ond am y 5 mlynedd gyntaf byddai'r incwm yn ddigonol i gwrdd â'r gost a chreu elw uwch. Byddai yna risg bychan y gallasai'r gwaith leihau ar ôl y cyfnod 5 mlynedd gyntaf.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Cynyddu incwm drwy gynnig fwy o gefnogaeth rheoli prosiect i Lywodraeth Cymru ar gynlluniau mawr.	£10,000	£0	Mae yna gyfleoedd pellach i'r Adran gynnig swyddogaeth rheoli prosiect i Lywodraeth Cymru ac er nad oes sicrwydd y gellir ei ennill, dengys profiad fod y cyfle yno a dylid anelu i ymestyn gornelion yr adran i geisio ennill y fath waith.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Cyfanswm	£481,590	£767,130		

Atodiad 5: Atal gweithgareddau cyn trafod gydag eraill ynglŷn â chymryd drosodd y swyddogaeth

Cynllun	2019/20	2020/21 ymlaen	Eglurhad	Ystyriaeth gychwynnol o oblygiadau cydraddoldeb posib
Trosglwyddo rhai toiledau cyhoeddus i eraill	£0	£50,000	Y bwriad yma yw trosglwyddo rhai asedau i'r Cyngor Cymuned / Cyngor Tref neu o bosibl i Grŵp Cymunedol. Os am gyrraedd y ffigwr byddai angen trosglwyddo rhwng 6 a 10 toiled. Byddai cyrraedd y swm yn ddibynol ar ddarganfod cyrff fyddai'n fodlon eu cymryd a'u rhedeg.	Posibilrwydd y bydd effaith ar nodweddion anabledd, oedran, traws-rywioldeb a rhyw ac angen asesiad pellach
Trosglwyddo Meysydd chwarae i eraill	£0	£210,000	Mae yna gostau sylweddol ynghlwm a rhedeg meysydd chwarae ond mewn rhai lleoliadau mae yna gymdeithasau neu gynghorau lleol yn eu rhedeg. Yn wyneb hyn rhaid gofyn bellach yn yr hinsawdd bresennol a all y Cyngor barhau i wario ar y cyfleusterau yma. Y bwriad yma yw cynnig i gymdeithasau neu gynghorau eu derbyn a'u rhedeg neu stopio eu cynnal yn gyfan gwbl ar ôl amser penodol.	Posibilrwydd y bydd effaith ar nodwedd oedran ac angen asesiad pellach
Cyfanswm	£0	£260,000		

Atodiad 6: Arbedion sy'n debygol o gael effaith (i wahanol raddau) ar drigolion Gwynedd

Cynllun	2019/20	2020/21 ymlaen	Eglurhad	Ystyriaeth gychwynnol o oblygiadau cydraddoldeb posib
Lleihau cyfraniad y Cyngor i Gwasanaeth Gwe o 1%	£6,410	£0	Mae'r Cyngor yn cyfrannu £640,000 i GwE ar gyfer gwasanaeth gwella ysgolion. Byddai lleihau'r cyfraniad yn lleihau'r adnodd fyddai ar gael i'w gynnig i ysgolion ond mae'n anodd meintoli yn union beth fyddai goblygiadau gan mai lleihau rhywfaint ar y gefnogaeth i'r ysgolion fyddai'r effaith ymarferol ac anodd yw darogan pa bryd y byddai hynny yn cael effaith. Y tebygolrwydd yw, gan mai canran fechan ydyw mai prin fyddai'r effaith ac y gellid canolbwyntio'r gostyngiad ar yr ysgolion hynny sydd angen llai o ymdrech.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Dileu'r gwasanaeth Llyfrgelloedd i Ysgolion	£36,780	£36,780	Mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cefnogi llythrennedd a darllen yn yr ysgolion cynradd drwy Lori-Ni sy'n ymweld â'r ysgolion o leiaf dwywaith y flwyddyn er mwyn cyfoethogi profiadau darllen plant. Mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd hefyd yn darparu adnoddau i gefnogi'r cwricwlwm ar gais athrawon, mae'r adnoddau yn cynnwys llyfrau, sachau stori, deunyddiau rhyngweithiol ar gyfer y bwrdd gwyn, a setiau darllen grŵp sydd yn cyfoethogi natur y deunyddiau a'r profiad cwricwlaidd sydd ar gael i blant. Heb yr adnodd yma byddai plant â llai o fynediad at lyfrau a phrofiadau darllen hamdden, a byddai'r ysgolion a llai o adnoddau cwricwlaidd i'w galluogi i sicrhau profiadau addysg o ansawdd i blant.	Mae'n debygol y bydd effaith ar ddisgyblion ac felly'r nodwedd oedran, felly mae angen asesiad effaith
Lleihau amllder glanhau rhai ardaloedd mewn Ysgolion drwy gwthogi oriau o 1.7%	£17,560	£17,560	Ar hyn o bryd rydym yn glanhau ysgolion drwy fanyleb sy'n gyffredinol yn glanhau lloriau'r ysgol gyfan yn cynnwys toiledau a sychu dodrefn a chelfi yn ddyddiol, mopio tamp a sgwrio lloriau amryw o ardaloedd ond nid i gyd yn ddyddiol a 1 wythnos o lanhau dwfn (spring clean). Mae hyn oll yn costio £2,045,320. O leihau'r gyllideb o £35,120 byddai'n rhaid cwtogi amllder glanhau rhai ardaloedd o fewn yr ysgol, yr unig ffordd o wneud hyn fyddai cwtogi oriau staff. Golyga hyn, ostyngiad o 1.7% yn oriau glanhau pob safle a all olygu, er enghraifft, na fyddai modd sychu dodrefn a chelfi yn ddyddiol. Byddai hyn yn arwain at ddirywiad yn safonau hylendid ysgolion oni bai fod ysgolion yn dewis atgyfnerthu'r gyllideb o'u cyllideb craidd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb

Atodiad 6: Arbedion sy'n debygol o gael effaith (i wahanol raddau) ar drigolion Gwynedd

Tud. 68

Lleihau'r adnodd o fewn yr Uned Diogelwch Ffyrdd	£7,500	£2,500	Tîm bach o 1.5 swyddog yw hwn sy'n cyflwyno'r agwedd addysgu, hysbysebu a hyfforddi ar faterion diogelwch y ffyrdd ar draws pob oedran. Mae modd gostwng faint o ddeunyddiau hyrwyddo diogelwch y ffyrdd mae'r Uned yn bresennol yn eu dosbarthu i ddisgyblion ysgol. Ni fyddai hyn yn cael effaith niweidiol sylweddol ar y gwasanaeth o addysgu pobl fregus. Yn ogystal, mae modd rhesymoli'r nifer o groeswyr plant sydd yn cael eu cyflogi yn bresennol trwy adolygu amgylchiadau safleoedd unigol yn erbyn y meini prawf cyfredol ar gyfer sefydlu darpariaethau croesi. Fyddai hyn yn sicrhau mai ond y safleoedd sy'n peri risg isel i groeswyr fyddai'n cael eu heffeithio.	Posibilrwydd y bydd effaith ar blant ac mae cyswllt felly a'r nodwedd oedran. Angen asesiad pellach
Lleihau'r gyllideb ar gyfer cynnal y llwybrau cyhoeddus	£5,000	£5,000	Mae'r arian cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus (Cyllideb o £177,160) yn mynd tuag at gynnal thua 1700 cilomedr o lwybrau categori 1 a 2 yn ogystal â thua 2200 cilomedr o lwybrau categori 3, 4 a di-gategori. Yn unol â Chynllun Gwella Hawliau Tramwy'r Cyngor, rydym yn blaenoriaethu gwaith ar lwybrau categori 1 a 2, felly mae rhan helaeth o'r cyllid yn cael ei ganolbwyntio ar y rhain. Mae llwybrau categori 1 a 2 yn rhai sydd yn brif llwybrau rhwng canolfannau a'r rhai sy'n cael eu defnyddio yn bennaf er pleser e.e. llwybrau o amgylch cymunedau, llwybrau cerdded cylchol, mynediad i draethau ayyb. Mae'r gwaith yn golygu ymgymryd â gwaith adweithiol yn dilyn cwynion, e.e. trwsio'r wyneb, trwsio strwythurau ac ymateb i dywydd eithafol e.e. coed wedi syrthio yn ystod stormydd ac ailosod arwyddion ayyb yn cael ei ymgymryd gan y Cyngor yma. Fodd bynnag, mae hefyd yn golygu rheoli tyfiant, sydd yn cael ei wneud drwy drefniant gydag ambell i Gyngor Cymuned. Fe fyddai effaith toriad o £10,000 yn golygu y bydd llai o'r rhwydwaith yn cael sylw, ac yn rhoi straen cynyddol ar ein gallu i annog Cynghorau Cymuned i reoli tyfiant.	Mae'n debygol o gael effaith ar bobl hyn, unigolion anabl ac mae cyswllt felly a'r nodweddion oedran ac anabled. Angen asesiad effaith llawn.

Atodiad 6: Arbedion sy'n debygol o gael effaith (i wahanol raddau) ar drigolion Gwynedd

Tud. 69

Lleihau'r adnodd o fewn y Gwasanaeth Polisi Cynllunio	£2,500	£2,500	Mae'n bosibl rhesymoli rhywfaint ar yr uned drwy newid dyletswyddau a chanfod arbediad ond nodir fod toriad o dros 30% mewn staff wedi bod eisoes dros y 7 mlynedd diwethaf. Fe fydd effaith o leihau arbenigedd a gwydnwch ynghyd a chynnydd mewn oedi mewn cyflawni dyletswyddau statudol ar ran trigolion Gwynedd ac Ynys Môn. Bydd hefyd arafwch gyda chynghori'r Unedau Cynllunio (Rheolaeth Datblygu) y ddau gyngor ar geisiadau / cyngor cynllunio. Mae angen rhannu'r arbediad gyda Môn 50/50.	Posiblrwydd y bydd effaith ar bobl anabl ac angen asesiad pellach
Lleihau'r gyllideb ar gyfer yr Uned Gorchmynion Traffig o 33%	£2,500	£7,500	Byddai modd leihau rhywfaint ar gyllideb yr Uned sy'n ymwneud a gorchmynion traffig fyddai'n cyfyngu ar allu'r Gwasanaeth i ymateb i sylwadau'r cyhoedd, heddlu ayyb ar sefyllfaoedd diogelwch e.e. goryrru a pharcio anystyriol. Y gyllideb bresennol o £30,000 sy'n galluogi'r Gwasanaeth i osod gorchmynion ar ein ffyrdd a chario allan gweithiau ffisegol fel gosod llinellau dwbl melyn, cyflwyno parthau gyrru a chyflwyno mesurau tawelu traffig. Byddai hyn, o bosib, yn gorfodi'r Gwasanaeth i ystyried gweithredu trefniant cwota i sicrhau nad yw'r gwariant yn mynd yn fwy na'r gyllideb sydd ar gael. Byddai'n rhaid i'r math yma o drefniant fod ar sail y cyntaf i'r felin gan na fyddai'n ymarferol casglu rhestr o sefyllfaoedd er mwyn eu blaenoriaethu yn chwarter olaf unrhyw flwyddyn ariannol. Byddai gorfod ystyried y math yma o drefniant yn golygu y byddai llai o orchmynion yn cael eu prosesu.	Posiblrwydd y bydd effaith ar blant ac unigolion anabl ac mae cyswllt felly gyda'r nodweddion oedran ac anabledd. Angen asesiad pellach
Lleihau adnodd cyflogaeth dymhorol o 50% o fewn y Gwasanaeth Trethi a Budd-daliadau	£42,780	£0	Bu'n rhaid gwneud defnydd helaeth o oramser yn sgil "backlog" o 2,000 eitem ar ôl haf 2017 a haf 2018. Ar adegau prysur fel Medi/Hydref neu droad y flwyddyn ariannol, heb y gyllideb yma mi fydd oedi cyn rhoi cymorth i bobl Gwynedd i dalu eu rhent, neu wneud addasiad angenrheidiol i'w cyfrifon Treth Cyngor. Mae'n anodd meintoli beth yn union fyddai'r effaith heb adael iddo ddigwydd i weld, ond gellir rhagweld y byddai'n cymryd yn hirach i glirio unrhyw "backlog" gwaith.	Mae'n bosib y bydd effaith ar unigolion hefo'r nodweddion anabledd ac oedran felly mae angen asesiad effaith pellach

Atodiad 6: Arbedion sy'n debygol o gael effaith (i wahanol raddau) ar drigolion Gwynedd

Dileu swydd wag o fewn y Gwasanaeth Cefnogi Busnes (lleihad o 25% yn y nifer o staff)	£23,000	£0	Mae un swydd (allan o 4 yn yr Uned) eisoes yn wag a thra ei fod yn amlwg yn amharu ar allu'r Cyngor i ddelio gyda ymholiadau gan fusnesau unigol, mae'r lefel perfformiad presennol yn adlewyrchu beth sydd modd ei wneud heb y swydd. Yn seiliedig ar ffigurau 2016/7 roedd natur yr ymholiadau yn cynnwys Ymholiadau Tir ac Eiddo (51%); Grantiau a chymorth ariannol (31%); Cymorth datblygu busnes (10%); Gwybodaeth Busnes (6%) a mewnfuddsoddi (2%). Effaith torri'r swydd hon ydi fod oedi yn yr ymateb ymholiadau busnes o gymharu â phe bydda'r swydd yn bodoli, risg na fydda'r Cyngor yn gallu rhoi cymaint o gymorth i bob ymholiad ac na fyddai'r Cyngor yn gallu bod mor rhagweithiol yn codi ymwybyddiaeth busnesau Gwynedd o gyfleoedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
Adolygu ffioedd parcio a trefniadau gweithredu Storiol	£10,000	£10,000	Mae Storiol wedi ei sefydlu fel amgueddfa ac oriel ym Mangor gydag arddangosfeydd yn cael eu trefnu mewn lloerennau cymunedol ar draws y sir er mwyn ehangu mynediad. Mae'r cynnig yma'n ymwneud ag edrych ar drefniadau gweithredu Storiol o ran cynyddu incwm, gan gynnwys adolygu ffioedd parcio.	Rhagwelir effaith ar blant ac mae cyswllt felly hefo'r nodwedd oedran. Angen asesiad pellach.

Atodiad 6: Arbedion sy'n debygol o gael effaith (i wahanol raddau) ar drigolion Gwynedd

Lleihau'r gwasanaeth llyfrgell deithiol - ymweld â llai o aros fannau ac yn llai aml	£7,500	£2,500	Mae 3 cerbyd teithiol cymunedol gan y Gwasanaeth Llyfrgelloedd, sef, Llyfrgell Deithiol Arfon - Gwasanaeth Teithiol a Chartref Llyfrgell Deithiol Dwyfor - Gwasanaeth Teithiol a Chartref Llyfrgell Deithiol Meirionnydd - Gwasanaeth Teithiol a Chartref Mae'r llyfrgelloedd teithiol yn ymweld â phentrefi a stadau tai led led y sir (140 arosfan) ac yn cyflawni'r gwasanaeth misol 10 gwaith y flwyddyn. Yn ogystal i'r gwasanaeth llyfrgelloedd teithiol, mae'r cerbydau hefyd yn darparu gwasanaeth danfon i'r cartref i'r defnyddwyr hynny sydd yn gaeth i'w cartrefi neu sy'n cael trafferthion ymweld â'u llyfrgell leol am resymau gwahanol. Nifer y defnyddwyr 2016-17 Arfon - 103 oedolyn, 0 plentyn, 54 caeth i'r tŷ Dwyfor - 156 oedolyn, 1 plentyn, 36 caeth i'r tŷ Meirionnydd - 208 oedolyn, 10 plentyn, 84 caeth i'r tŷ Mae'n debyg byddai nifer o'r defnyddwyr sy'n ymweld â'r Gwasanaeth teithiol mewn arosfan pentref yn gymwys i dderbyn Gwasanaeth i'r Cartref ond eu bod yn dewis defnyddio'r arosfan teithiol er mwyn dibenion cymdeithasol. Drwy leihau cyllideb y gwasanaeth, byddai'r llyfrgell deithiol yn ymweld â llai o arosfannau ar draws y sir ac/neu yn ymweld â'r arosfannau yn llai aml.	Rhagwelir effaith ar unigolion hefo'r nodweddion oedran (plant a phobl hŷn) ac anabledd ac angen asesiad pellach.
---	---------------	---------------	--	--

Atodiad 6: Arbedion sy'n debygol o gael effaith (i wahanol raddau) ar drigolion Gwynedd

Dileu 1 swydd o'r Gwasanaeth Datblygu'r Economi (lleihau staffio o 33%)	£20,000	£20,000	Byddem yn anelu i gael grantiau i ariannu 1 swydd o fewn yr Uned ond pe na fyddem yn llwyddo byddai'n rhaid dileu'r swydd honno. Byddai hyn yn lleihau ein gallu i ddatblygu prosiectau strategol gan y byddai'r adnodd yn lleihau o 3 swyddog i 2. Y math o gynlluniau y bu'r swyddogion yma yn eu cyflawni dros y blynyddoedd diweddar yw targedu £9m i ddatblygu Plas Heli Pwllheli, targedu £13m i gefnogi datblygiad mentrau Glannau Caernarfon (Galeri, Castell, Hen Ynys a Rheilffordd Eryri), targedu £4.5m i gefnogi datblygiad mentrau Awyr Agored Meirionnydd (Coed y Brenin, Deorfa Bysgota Llyn Trawsfynydd, Antur Stiniog, Glanllyn Bala), Sefydlu Rhaglen Siopa Lleol a Rhaglen Trethi Gwella Busnes (BIDS Caernarfon a Bangor), cefnogi menter adfywio Harlech, datblygu achos busnes Safle Treftadaeth Byd i'r dyffrynnoedd llechi a thargedu cronfa Loteri £450k i'r cymunedau ynghyd a sefydlu cronfa i uwchraddio adeiladau gwag. Rydym yn y broses o dargedu £25m i uwchraddio safle a mynediad i faes awyr Llanbedr a thargedu £4m i adfywio canol dinas Bangor . Gyda llai o adnoddau staff, byddai llai o brosiectau yn cael eu datblygu a'u gweithredu, gan arwain o lai o fuddsoddiad mewn cymunedau i greu'r amodau fyddai'n diogelu a chreu swyddi newydd i'r dyfodol.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
--	----------------	----------------	---	---

Atodiad 6: Arbedion sy'n debygol o gael effaith (i wahanol raddau) ar drigolion Gwynedd

Dileu swydd a newid trefniadau rheoli y Gwasanaeth Adfywio Cymunedol (lleihad o 20%)	£37,500	£12,500	Byddai dileu 1 swydd a newid trefniadau rheoli yn golygu fod llai o gefnogaeth gan Cyngor Gwynedd i gefnogi mentrau a grwpiau cymunedol. Mae 5 swyddog o fewn yr uned ac fe nodir isod y math o gynlluniau sydd ar hyn o bryd yn derbyn cefnogaeth - cefnogi o Ddrws i Ddrws i baratoi cais grant am fws mini newydd; Tafarn yr Heliwr Nefyn i baratoi cais grant i adnewyddu'r dafarn; caffi Noddfa a Cegin Cofi i dargedu cronfeydd grant amrywiol; Fic Penygroes i sefydlu achos busnes cadarn i dargedu grant; Cwmni Nod Glas Dinas Mawddwy i dargedu arian cyfatebol; cefnogi Cylch Meithrin Maesywaun i ail-leoli i safle Ysgol Bro Tryweryn; cefnogi partneriaeth Abermaw i adolygu adnoddau cymunedol a pharatoi achos busnes i drosglwyddo asedau; cynghori a chefnogi Partneriaeth Maesgeirchen gyda phhecyn o brosiectau cymunedol; cefnogi Partneriaeth Ogwen gyda phhecyn o brosiectau yn amrywio o sefydlu ymddiriedolaeth tir, ynni adeiladau cymunedol ac opsiynau ar gyfer safle'r llyfrgell.	Posibilrwydd y bydd effaith ar unigolion hefo amrywiol nodweddion ac mae angen asesiad mwy manwl
--	---------	---------	--	--

Atodiad 6: Arbedion sy'n debygol o gael effaith (i wahanol raddau) ar drigolion Gwynedd

Tud. 74

Dileu 1 swydd o'r Gwasanaeth Twristiaeth a Marchnata (lleihau staffio o 25%)	£12,500	£12,500	Mae'r Uned yma yn Uned o 4 sydd yn cydgordio ymdrechion rhwng partneriaid lleol; rhanbarthol a chenedlaethol ynghyd a'r diwydiant twristiaeth ei hun yn y sir er mwyn ceisio gwella a hyrwyddo Gwynedd fel cyrchfan dwristiaeth a'i farchnata drwy gyfryngau cymdeithasol a safle We Eryri Mynyddoedd a'r Môr. O ddileu 1 swydd byddai'n rhaid blaenoriaethu gweithgaredd allasai olygu - - Leihau gweithgaredd marchnata - gwefan Eryri Mynyddoedd a Môr, cyfryngau cymdeithasol, taflenni a llyfrynau ayb; - Leihau gweithgaredd datblygu'r sector e.e. ceisiadau grant i Croeso Cymru i wella'r cynnyrch a'r cynnig yma (Gwelwyd derbyn grantiau o dros £600,000 dros y 3 blynedd diwethaf i wella'r cynnig yma yng Ngwynedd); - Leihau cefnogaeth i'r bartneriaeth dwristiaeth sirol; - Leihau cyfraniad amser ac adnodd swyddogion i waith a phartneriaethau strategol gyda Chroeso Cymru a Gogledd Cymru - Dileu capasiti i weinyddu ceisiadau arwyddion brown a gwyn; Yn dilyn penderfyniad y Cyngor i gau rhwydwaith Canolfannau Croeso Gwynedd, mae ymholiadau gan ymwelwyr a diwydiant yn parhau i gael eu cyfeirio at y Cyngor ac ymlaen i'r gwasanaeth. Byddai dileu 1 swydd yn cael effaith ar allu'r Cyngor i ymateb i ymholiadau gan fusnesau Gwynedd, ymwelwyr a phartneriaid sector gyhoeddus a hynny ar gyfnod lle mae cynnydd sylweddol wedi ei weld mewn nifer ymwelwyr i Wynedd.	Ni ragwelir effaith cydraddoldeb
---	----------------	----------------	---	---

Atodiad 6: Arbedion sy'n debygol o gael effaith (i wahanol raddau) ar drigolion Gwynedd

Yn yr hir dymor, anelu i leihau'r sybsidi i'r Cwmni Hamdden newydd fydd yn cael ei sefydlu o 20%	£0	£155,000	Rydym ar fin sefydlu cwmni masnachol fydd yn ein helpu i wireddu arbedion sylweddol (£435,000). Bydd hyn yn seiliedig ar y Cyngor yn ymrwmo i dalu sybsidi o £741,000 i'r cwmni yn y tymor byr o leiaf. Y gobaith yn yr hir dymor yw y bydd y cwmni yn gallu lleihau'r sybsidi y bydd yn rhaid i'r cyngor ei dalu un ai drwy ddarganfod marchnadoedd eraill neu leihau'r costau rhedeg ymhellach. Er na fydd modd gwneud hynny yn syth mae'n rhesymol i ddisgwyl i hynny ddigwydd yn yr hir dymor.	Posibilrwydd y bydd effaith ar unigolion hefo nodweddion anabled, oedran a trawsrywiol ac angen asesiad pellach
Lleihau cyllideb y grantiau strategol i'r celfyddydau o 20%	£0	£18,000	Fe hanerwyd y gyllideb yma yn ystod proses arbedion Her Gwynedd. Byddai gweithredu'r cynllun yma yn golygu y byddai'r Cyngor yn gorfod ystyried lefel y cymorth y gellid ei roi i'r 11 prif gwmni celfyddydol yng Ngwynedd. Nifer ohonynt yn arwain ar brosiectau sy'n cael effaith yn genedlaethol o ran y Gymraeg a diwylliant Cymru. Y cwmnïau sy'n derbyn cymorth yw - Bara caws; Cerddoriaeth mewn Ysbytai; Canolfan Gerdd William Mathias; Cofis Bach; Dawns i Bawb; Galeri Caernarfon; Fran Wen; Plas Glyn y Weddw; Llenyddiaeth Cymru; Pontio; Theatr Ardudwy; Theatr y Ddraig Nifer o'r cwmnïau hyn yn nodi bod derbyn elfen o gefnogaeth gan y Cyngor yn sicrhau eu bod yn denu arian gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac yn sicrhau buddsoddiadau uwch yn y Celfyddydau yng Ngwynedd.	Rhagwelir effaith ar unigolion hefo nodweddion oedran ac anabled, ac angen asesiad pellach
Lleihau cyllideb cronfa lyfrau'r llyfrgelloedd o 10%	£19,500	£0	Mae'r gyllideb Gronfa Lyfrau wedi cael ei lleihau o 25% yn ystod ymarferiad Her Gwynedd. O'i leihau 10% ymhellach yn amlwg byddai'r dewis sydd ar gael i drigolion Gwynedd gymaint yn llai ac amseroedd aros am lyfrau yn cynyddu gan ei wneud yn llai deniadol i drigolion.	Posibilrwydd y bydd effaith ar unigolion hefo amrywiol nodweddion ac angen asesiad pellach

Atodiad 6: Arbedion sy'n debygol o gael effaith (i wahanol raddau) ar drigolion Gwynedd

Adolygu pecynnau gofal anableddau corff gan gwrdd ag amcanion mewn ffordd amgen	£25,000	£75,000	Mae gennym achosion sy'n costio dros £1000 yr wythnos i'r Adran sef lleoliadau all-sirol a phecynnau gofal sydd wedi eu hetifeddu o siroedd eraill o dan reolau 'ordinary residen't. O adolygu'r pecynnau yma ystyrir y gellir cwrdd ag anghenion mewn ffordd amgen. Mae'r arbediad yn seiliedig ar waith tebyg sydd eisoes wedi ei gyflawni yn y maes Anabledd Dysgu a bydd yna elfen allweddol o fuddsoddi i arbed drwy fuddsoddi mewn cartrefi addas, a datblygiadau tai gofal ychwanegol. Bydd angen penodi gweithiwr cymdeithasol am gyfnod o 18 mis i weithio ar y cynllun i adolygu'r holl achosion all-sirol a chwblhau dadansoddiad o'r angen sydd yn bodoli rŵan ac i'r dyfodol. Bydd hefyd angen buddsoddiad amser staff i gydweithio gyda'r unigolion ac adnabod datrysiadau cywir. Effaith gadarnhaol os ydi'n bosib i unigolion ddychwelyd i gael gofal yn lleol. Rhaid cofio fod rhai o'r unigolion wedi derbyn gofal am nifer fawr o flynyddoedd, felly mae rheoli unrhyw newid a disgwyliadau am fod yn allweddol. Mae elfen o or-wasanaethu yn y pecynnau 'ordinary residence' a bydd yn broses o newid dros amser i ddod i ddygymod a chefnogaeth sy'n cael ei ddarparu mewn modd amgen.	Rhagwelir effaith ar unigolion hefo'r nodwedd anabledd ac angen asesiad pellach
--	----------------	----------------	---	--

Atodiad 6: Arbedion sy'n debygol o gael effaith (i wahanol raddau) ar drigolion Gwynedd

Tud. 77

Adolygiad pecynnau Gofal Iechyd Parhaus	£50,000	£150,000	Wrth adolygu pecynnau gofal iechyd parhaus 'rydym yn ceisio sicrhau fod lechyd yn talu cyfraniad teg tuag at y pecynnau gofal a roddir i unigolion yn unol â'r rheolau a sefydlwyd. Mae angen parhau gyda'r gwaith pwysig yma o ran egwyddor 'gwerth gorau', ond hefyd o ran cyfrifoldeb am y pecyn cefnogaeth/gofal. Rydym yn adolygu'r drefn CHC/DST ar y cyd gydag Iechyd ac yn anelu i dderbyn rhagor o fuddiannau o'r gwaith yma. Y bwriad yma yw mynd ar ôl yr achosion mwyaf dwys a thra byddwn yn eithaf hyderus o fedru cyflawni oddeutu £100k bydd cyflawni'r holl £200k yn fwy o her o lawer. Mae'r Gwasanaeth Anableddau Dysgu eisoes wedi gweithredu'r achosion mwy rhwydd a llai dadleuol wrth gyflawni arbedion 600k o ran adolygu pecynnau, cyflawni egwyddorion gwasanaeth gwerth gorau am arian ac wedi herio iechyd am eu cyfraniad. Nid oes modd herio pecynnau mwy nag unwaith. Mae yna oblygiadau capasiti staffio i wneud y gwaith a risg o gael her gyfreithiol a chwynion. Mae angen capasiti ychwanegol i graffu'r asesiad anghenion a'r DST ac i fynychu cyfarfodydd "disputes" gydag iechyd pan nad ydi'r asiantaeth yn cytuno ar benderfyniad o ran lefel CHC.	Rhagwelir effaith ac angen asesiad pellach
Calendrau casglu gwastraff electronig yn unig	£22,500	£7,500	Ar hyn o bryd rydym yn dosbarthu calendrau casglu gwastraff ar bapur i bob un o'r 62500 o dai yn y sir. Byddai symud i'w darparu ar lein neu drwy gais yn unig yn creu arbediad sylweddol i ni. Mae gan 34,382 unigolyn gyfrif hunan wasanaeth ar lein ac rydym eisoes yn gohebu gyda rhain drwy'r ffurf yma mewn perthynas â gwasanaeth gwastraff gardd.	Posiblirwydd y bydd effaith ar unigolion gyda'r nodweddion anabledd, oedran a hil (pobl sydd ddim yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf) ac angen asesiad pellach

Atodiad 6: Arbedion sy'n debygol o gael effaith (i wahanol raddau) ar drigolion Gwynedd

Pont Abermaw – peidio talu Network Rail am yr hawl tramwy dros y bont	£0	£35,000	Roedd y cynllun yma yn un a ddaeth i'r amlwg yn ystod ymarferiad Her Gwynedd ond fe benderfynwyd bryd hynny na ddylid torri'r cyllidebau yma yr adeg hynny , ond fod hynny yn amodol ar gyrraedd targed o leihau'n sylweddol y gost i'r Cyngor o gyfrannu tuag at ei ddyfodol. Rydym yn parhau i dalu £35,000 i Network Rail gan na fu modd leihau'r gost i ni. O beidio talu cyfraniad i Network Rail, mater iddynt hwy yw a ydynt am ei gau at ddefnydd Llwybr yr Arfordir a'r Llwybr Beicio Cenedlaethol. Bydd adwaith negyddol yn lleol ac o safbwynt atyniad twristiaeth pe na fydde Network Rail yn ei gadw'n agored.	Posibilrwydd y bydd effaith ar unigolion hefo'r nodwedd anabledd ac angen asesiad mwy manwl
Lleihau cyllideb Cymorth i ferched o 20%	£8,080	£2,690	Byddai modd lleihau 20% ar y gyllideb Cymorth i Ferched drwy ddileu'r gweithiwr plant o fewn Cymorth i Ferched a Trais yn y Cartref De Gwynedd. Mae'r cyfraniad yn ddewisol ac ar gael i unrhyw deulu sydd wedi dioddef neu yn byw mewn sefyllfa trais yn y cartref, nid dim ond i deuluoedd sydd yn adnabyddus i wasanaethau'r Cyngor. Gwynedd yw'r unig awdurdod yn y Gogledd sydd yn cynnal cytundeb lefel gwasanaeth gyda Cymorth i Ferched. Nid yw lleihad gan y Cyngor yn golygu na fydd modd i'r mudiad barhau i ddarparu gan fod ganddynt fynediad at ffynonellau ariannu eraill. Mae Cymorth i Ferched yn nodi eu bod yn gwneud defnydd o'r cytundeb gyda'r Cyngor i ddenu arian a grantiau eraill i'r mudiad, ond mae yn anodd derbyn cadarnhad o hynny. Bydd gweddill cyfraniad y Cyngor yn parhau a bydd adnoddau'r Cyngor hefyd ar gael i ddarparu gwasanaeth statudol i Ferched sydd ei angen.	Rhagwelir effaith ar unigolion hefo'r nodwedd oedran a rhyw ac angen asesiad pellach

Atodiad 6: Arbedion sy'n debygol o gael effaith (i wahanol raddau) ar drigolion Gwynedd

Tud. 79

Lleihau 6% ar y gyllideb eiriolaeth	£1,570	£520	Mae darparu eiriolaeth i blant a phobl ifanc sydd mewn gofal, yn anabl neu yn derbyn cynllun gofal a chefnogaeth yn ofyn statudol yn Neddf 2014. Ni fyddai lleihad o 6% yn cael ardrawiad sylweddol ar y niferoedd o blant a phobl ifanc sydd yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth gan fod y 'take-up' o wasanaeth eiriolaeth gan y plant a'r bobl ifanc cymwys yn isel o gymharu â'r capasiti o fewn y gyllideb sydd yn cael ei glustnodi. Mae yna gytundeb rhanbarthol ac ar ôl 3 mlynedd o weithredu, mae yn amlwg y gellid lleihau 6% heb ardrawiad ar wasanaeth uniongyrchol i blant ar sail data 3 mlynedd. Mae'r cytundeb yn un rhanbarthol gyda chyfraniadau gan y 5 awdurdod arall yn y Gogledd. Mae tebygolrwydd y byddai awdurdodau eraill yn lleihau eu cyfraniadau mewn amser.	Posibilrwydd y bydd effaith ar unigolion hefo'r nodweddion oedran a rhyw ac angen asesiad pellach
Haneru cyllideb recriwtio a hyfforddi rhieni maeth	£5,420	£0	Mae gweithgaredd recriwtio a marchnata yn gostus, ond mae modd uchafu ein gweithgaredd ar wefannau cymdeithasol a chyfryngau cost isel a gwneud mwy o ddefnydd o adnoddau cyfathrebu'r Cyngor. Rhagwelir felly mai effaith isel ar blant a theuluoedd fyddai hyn yn ei olygu a hynny oherwydd bod yna risg fechan na fyddai trefniadau newydd mor effeithiol.	Posibilrwydd y bydd effaith ar unigolion hefo'r nodwedd oedran (plant) ac angen asesiad pellach
Lleihau cyfraniad y Cyngor o 7% Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid	£12,390	£1,770	Byddai angen colli 0.4 staff FTE gan rannu'r lleihad ar draws seondidiadau ac arian yn y tîm Cyfiawnder adferol (anstatudol), a byddai peth effaith ar blant a theuluoedd drwy leihad yn y gallu i wneud gwaith iawn gyda dioddefwyr; cynnal llai o brosiectau cymunedol a lleihau oriau cyswllt gyda phlant a phobl ifanc.	Posibilrwydd y bydd effaith ac angen asesiad pellach
Lleihau adnodd o fewn yr Uned Gyfreithiol i gefnogi gwaith adrannau eraill	£7,500	£7,500	Dengys ymchwil yn y gorffennol na ellir cael y gwaith wedi ei wneud ar gost is yn allanol. Serch hynny, ystyrir y byddai modd gwasgu mwy o effeithlonrwydd allan o'r sustem gan dderbyn y byddai yna risg o weld mwy o faterion yn wynebu oedi - heb ei wireddu mae'n anodd gallu dweud faint. Byddai hefyd angen darganfod adnodd i lenwi mewn pan mae yna etholiadau.	Posibilrwydd y bydd effaith ac angen asesiad pellach

Atodiad 6: Arbedion sy'n debygol o gael effaith (i wahanol raddau) ar drigolion Gwynedd

Ail Strwythuro'r Uned Rheolaeth Adeiladu gan leihau'r nifer o arweinyddion tîm	£23,000	£0	Byddai ail strwythuro yn lleihau nifer staff yr Uned o un a thrwy hynny mae yna berygl y gallasai'r amser i wirio cais cynlluniau llawn gynyddu o 13 diwrnod i 15 diwrnod. Mae sgôr arolwg boddhad cwsmeriaid wedi mynd i lawr o 9.6 eleni i 9.0. Mi fydd pob ymdrech yn cael ei weithredu i leihau'r effaith ar foddhad cwsmeriaid gan yr Uned.	Ni ragwelir effaith
Cyfanswm	£406,490	£582,320		



Canlyniadau arolwg barn cyhoeddus “Pa wasanaethau sy’n bwysig i chi?”

Medi – Tachwedd 2018

www.gwynedd.llyw.cymru/blaenoriaethau

Cynnwys

1. Cefndir	6
2. Cyd-destun ariannol	7
3. Cynnal yr Arolwg	9
4. Trosolwg o'r ymatebwyr i'r arolwg	11
- Rhyw	11
- Oedran	12
- Iaith	12
- Anabledd	13
5. Methodoleg dadansoddi'r canlyniadau	14
6. Canlyniadau'r arolwg yn ei gyfanrwydd	15
- Graff 10: Yr opsiynau a nodwyd yn yr arolwg mewn trefn yn ôl cyfanswm eu sgôr o'r mwyaf pwysig i'r lleiaf pwysig	16
- Graff 11: Nifer yr ymatebwyr wnaeth roi sgôr o 5 (sef "mwyaf pwysig") i'r 59 gwasanaeth	17
- Graff 12: Pynciau a nodwyd gan ymatebwyr yr arolwg yn y blwch 'unrhyw sylwadau pellach	18
7. Canlyniadau'r arolwg fesul y 10 Ardal Leol	19
8. Cymhariaeth o ganlyniadau'r gwahanol ardaloedd a grwpiau (oedran, rhyw ayyb)	20
9. Prif negeseuon o'r Cyfarfodydd Cyhoeddus	25
10. Prif negeseuon o'r cyfarfodydd gyda'r grwpiau nodwedd cydraddoldeb	26
- Grŵp Craidd Cydraddoldeb	26
- Pobl ifanc LGBT+ (GISDA)	28
- Gofalwyr ifanc Gwynedd	28
- Pobl ifanc sydd wedi gadael gofal	29
- Grŵp Hunan Adfocatiaeth (Cwm y Glo a Dolgellau)	29
- Cyngor Pobl Hŷn Gwynedd	30
- Cynrychiolaeth o blith ffoaduriaid sydd wedi ymgartrefu yng Ngwynedd	30
11. Prif negeseuon sefydliadau / busnes	31
- Graff 13: Graff o'r pynciau a nodwyd gan y sefydliadau / busnesau yn y blwch "sylwadau pellach	32
12 Gohebiaeth	33

Atodiad A – Cyfanswm sgôr y 59 gwasanaeth a'r nifer o ymatebwyr wnaeth osod pob gwasanaeth yn y gwahanol categorïau o'r "lleiaf pwysig" i'r "mwyaf pwysig" (yn seiliedig ar y 2,478 ymateb)	34
Atodiad B – Ymatebion ardal Bangor (235 ymateb)	37
Atodiad B1: Y gwasanaethau mae Bangor wedi eu rancio 5 neu fwy (sef mwy pwysig) na Gwynedd yn ei gyfanrwydd	39
Atodiad B2: Y gwasanaethau mae Bangor wedi eu rancio -5 neu is (sef llai pwysig) na Gwynedd yn ei gyfanrwydd	
Atodiad C – Ymatebion ardal Caernarfon (616 ymateb)	40
Atodiad C1: Y gwasanaethau mae Caernarfon wedi eu rancio 5 neu fwy (sef mwy pwysig) na Gwynedd yn ei gyfanrwydd	42
Atodiad C2: Y gwasanaethau mae Caernarfon wedi eu rancio -5 neu'n is (sef llai pwysig) na gweddill Gwynedd yn ei gyfanrwydd	
Atodiad Ch – Ymatebion ardal Dolgellau (178 ymateb)	43
Atodiad Ch1: Y gwasanaethau mae Dolgellau wedi eu rancio 5 neu fwy (sef mwy pwysig) na Gwynedd yn ei gyfanrwydd	45
Atodiad Ch2: Y gwasanaethau mae Dolgellau wedi eu rancio -5 neu'n is (sef llai pwysig) na gweddill Gwynedd yn ei gyfanrwydd	
Atodiad D – Ymatebion ardal Dyffryn Nantlle (185 ymateb)	47
Atodiad D1: Y gwasanaethau mae Dyffryn Nantlle wedi eu rancio 5 neu fwy (sef mwy pwysig) na Gwynedd yn ei gyfanrwydd	49
Atodiad D2: Y gwasanaethau mae Dyffryn Nantlle wedi eu rancio -5 neu'n is (sef llai pwysig) na gweddill Gwynedd yn ei gyfanrwydd	
Atodiad Dd – Ymatebion ardal Dyffryn Ogwen (166 ymateb)	50
Atodiad Dd1: Y gwasanaethau mae Dyffryn Ogwen wedi eu rancio 5 neu fwy (sef mwy pwysig) na Gwynedd yn ei gyfanrwydd	52
Atodiad Dd2: Y gwasanaethau mae Dyffryn Ogwen wedi eu rancio -5 neu'n is (sef llai pwysig) na gweddill Gwynedd yn ei gyfanrwydd	
Atodiad E – Ymatebion ardal Ffestiniog (109 ymateb)	53
Atodiad E1: Y gwasanaethau mae Ffestiniog wedi eu rancio 5 neu fwy (sef mwy pwysig) na Gwynedd yn ei gyfanrwydd	55
Atodiad E2: Y gwasanaethau mae Ffestiniog wedi eu rancio -5 neu'n is (sef llai pwysig) na gweddill Gwynedd yn ei gyfanrwydd	

Atodiad F – Ymatebion ardal Llŷn (466 ymateb)	56
Atodiad F1: Y gwasanaethau mae Llŷn wedi eu rancio 5 neu fwy (sef mwy pwysig) na Gwynedd yn ei gyfanrwydd	58
Atodiad F2: Y gwasanaethau mae Llŷn wedi eu rancio -5 neu'n is (sef llai pwysig) na gweddill Gwynedd yn ei gyfanrwydd	
Atodiad Ff – Ymatebion ardal Penllyn (76 ymateb)	59
Atodiad Ff1: Y gwasanaethau mae Penllyn wedi eu rancio 5 neu fwy (sef mwy pwysig) na Gwynedd yn ei gyfanrwydd	61
Atodiad Ff2: Y gwasanaethau mae Penllyn wedi eu rancio -5 neu'n is (sef llai pwysig) na gweddill Gwynedd yn ei gyfanrwydd	
Atodiad G – Ymatebion ardal Porthmadog (249 ymateb)	62
Atodiad G1: Y gwasanaethau mae Porthmadog wedi eu rancio 5 neu fwy (sef mwy pwysig) na Gwynedd yn ei gyfanrwydd	64
Atodiad G2: Y gwasanaethau mae Porthmadog wedi eu rancio -5 neu'n is (sef llai pwysig) na gweddill Gwynedd yn ei gyfanrwydd	
Atodiad Ng – Ymatebion ardal Tywyn (159 ymateb)	65
Atodiad Ng1: Y gwasanaethau mae Tywyn wedi eu rancio 5 neu fwy (sef mwy pwysig) na Gwynedd yn ei gyfanrwydd	67
Atodiad Ng2: Y gwasanaethau mae Tywyn wedi eu rancio -5 neu'n is (sef llai pwysig) na gweddill Gwynedd yn ei gyfanrwydd	
Atodiad H: Ymatebion yn ôl rhyw - Dynion (888 ymateb)	69
Atodiad H1: Y gwasanaethau mae dynion wedi eu rancio 5 neu fwy (sef mwy pwysig) na Gwynedd yn ei gyfanrwydd	71
Atodiad H2: Y gwasanaethau mae dynion wedi eu rancio -5 neu'n is (sef llai pwysig) na Gwynedd yn ei gyfanrwydd	
Atodiad I: Ymatebion yn ôl rhyw - Merched (1,422 ymateb)	72
Atodiad I1: Y gwasanaethau mae merched wedi eu rancio 5 neu fwy (sef mwy pwysig) na Gwynedd yn ei gyfanrwydd	74
Atodiad I2: Y gwasanaethau mae merched wedi eu rancio -5 neu'n is (sef llai pwysig) na Gwynedd yn ei gyfanrwydd	
Atodiad L: Pobl Ifanc o dan 25 oed (261 ymateb)	75
Atodiad L1: Y gwasanaethau mae pobl ifanc o dan 25 oed wedi eu rancio 5 neu fwy (sef mwy pwysig) na Gwynedd yn ei gyfanrwydd	77
Atodiad L2: Y gwasanaethau mae pobl ifanc o dan 25 oed wedi eu rancio -5 neu'n is (sef llai pwysig) na Gwynedd yn ei gyfanrwydd	


Atodiad LI: Pobl Hŷn 65+ oed (449 ymateb)	79
Atodiad LI1: Y gwasanaethau mae pobl hŷn 65+ oed wedi eu rancio 5 neu fwy (sef mwy pwysig) na Gwynedd yn ei gyfanrwydd	81
Atodiad LI2: Y gwasanaethau mae pobl hŷn 65+ oed wedi eu rancio -5 neu'n is (sef llai pwysig) na Gwynedd yn ei gyfanrwydd	
Atodiad M: Iaith gyntaf – Cymraeg a Dwyieithog (1,487 ymateb sy'n cynnwys 21 dwyieithog)	83
Atodiad M1: Y gwasanaethau mae ymatebwyr iaith gyntaf Cymraeg a Dwyieithog wedi eu rancio 5 neu fwy (sef mwy pwysig) na Gwynedd yn ei gyfanrwydd	85
Atodiad M2: Y gwasanaethau mae ymatebwyr iaith gyntaf Cymraeg a Dwyieithog wedi eu rancio -5 neu'n is (sef llai pwysig) Gwynedd yn ei gyfanrwydd	
Atodiad N: Iaith gyntaf – Saesneg (786 ymateb)	86
Atodiad N1: Y gwasanaethau mae ymatebwyr iaith gyntaf Saesneg wedi eu rancio 5 neu fwy (sef mwy pwysig) na Gwynedd yn ei gyfanrwydd	88
Atodiad N2: Y gwasanaethau mae ymatebwyr iaith gyntaf Saesneg wedi eu rancio -5 neu'n is (sef llai pwysig) na Gwynedd yn ei gyfanrwydd	
Atodiad O: Pobl gydag Anabledd (181 ymateb)	89
Atodiad O1: Y gwasanaethau mae ymatebwyr anabl wedi eu rancio 5 neu fwy (sef mwy pwysig) na Gwynedd yn ei gyfanrwydd	91
Atodiad O2: Y gwasanaethau mae ymatebwyr anabl wedi eu rancio -5 neu'n is (sef llai pwysig) na Gwynedd yn ei gyfanrwydd	
Atodiad P: Prif negeseuon y cyfarfodydd cyhoeddus	92
Atodiad Ph: Sylwadau llawn y Grŵp Craidd Cydraddoldeb	96
Atodiad R: Prif negeseuon o'r cyfarfodydd grwpiau nodwedd	101
Atodiad Rh: Sefydliadau (38 ymateb)	108
Atodiad Rh1: Y gwasanaethau mae sefydliadau wedi eu rancio 5 neu fwy (sef mwy pwysig) na Gwynedd ar gyfartaledd	110
Atodiad Rh2: Y gwasanaethau mae sefydliadau wedi eu rancio -5 neu'n is (sef llai pwysig) na gweddill Gwynedd	
Atodiad S: Rhestr o sefydliadau wnaeth ymateb	112
Atodiad T: Gohebiaeth	114

1. Cefndir


- 1.1 Bob blwyddyn mae Cyngor Gwynedd yn gwario miliynau o bunnau ar lu o wasanaethau lleol.
- 1.2 Yn ystod 2018/19 yn unig, mae **£243 miliwn** yn cael ei wario ar y gwasanaethau hyn gyda thua **70%** yn mynd ar addysg, gofal plant ac oedolion, casglu gwastraff a sicrhau fod rhwydwaith ffyrdd y sir yn cael eu cadw i safon dderbyniol.
- 1.3 Mae **£7.20 o bob £10** mae Cyngor Gwynedd yn ei wario ar wasanaethau lleol yng Ngwynedd yn dod yn uniongyrchol o'r llywodraeth.
- 1.4 Ers sawl blwyddyn bellach nid yw'r arian a dderbynnir gan y llywodraeth tuag at y gost o gynnal gwasanaethau lleol yng Ngwynedd wedi bod yn ddigon i dalu amdanynt. Rhwng 2010/11 a 2018/19 mae'r Cyngor wedi derbyn toriad sylweddol iawn yn yr arian mae'n ei dderbyn gan y llywodraeth tra bod y costau a'r galw am wasanaethau lleol wedi cynyddu'n sylweddol iawn flwyddyn ar flwyddyn.
- 1.5 Yn y cyfnod rhwng **2019/20** a **2022/23** amcangyfrifir y bydd y **bwllch ariannol** fydd yn wynebu Cyngor Gwynedd rywle rhwng **£11 miliwn** a **£20 miliwn**.
- 1.6 Pwrpas ymgynghoriad "***Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi?***" oedd:
- egluro'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor i bobl a sefydliadau Gwynedd;
 - cynnig cyfle i bobl a sefydliadau Gwynedd ddweud eu dweud ar ba rai o'r gwasanaethau mae'r Cyngor yn darparu sydd fwyaf pwysig iddynt;
 - darparu cyfleoedd priodol i unigolion, grwpiau cymunedol, grwpiau diddordeb a grwpiau gwarchodedig i gymryd rhan yn yr ymarferiad.
- 1.7 Fel cyflwyniad i'r holiadur arolwg ac yn y cyfarfodydd cyhoeddus eglurwyd:
- y bydd y Cyngor yn wynebu sefyllfa ariannol hynod heriol dros y tair blynedd nesaf;
 - y bydd canlyniadau'r arolwg a'r prif negeseuon a gasglir yn cael eu cyflwyno i gynghorwyr Gwynedd fel gwybodaeth fydd yn ddefnyddiol iddynt wrth ystyried sut orau i ddyrannu'r symiau annigonol o arian fydd ar gael i gyllido gwasanaethau lleol rhwng 2019/20 a 2022/23;
 - mai cyfrifoldeb cynghorwyr Gwynedd fydd pwyso a mesur yr holl wybodaeth a thystiolaeth a ddaw i law wrth iddynt ystyried y ffordd orau o ddyrannu a blaenoriaethu'r swm cyfyngedig o arian a fydd ar gael i dalu am wasanaeth lleol o Ebrill 2019 ymlaen.

2. Cyd-destun ariannol

- 2.1 Dros yr wyth mlynedd diwethaf, mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn toriad o **£14 miliwn** yn yr arian mae'n ei dderbyn gan y llywodraeth.
- 2.2 Dros yr un cyfnod, mae costau'r Cyngor wedi cynyddu **£56 miliwn** - gyda **£31 miliwn** o'r swm yma oherwydd costau chwyddiant a **£25 miliwn** oherwydd cynnydd parhaus yn y galw am wasanaethau lleol, yn benodol yn y maes gofal oherwydd y nifer / cyfran uchel o bobl hŷn sy'n byw yn y sir.



- 2.3 Fel y gwelir o'r graff uchod, mae'r cyfuniad yma o ffactorau yn golygu fod Cyngor Gwynedd yn gorfod ymdopi efo diffyg ariannol o **£70 miliwn** yn 2018/19 yn unig.
- 2.4 Mewn ymateb i'r diffyg ariannol yma, ers 2011/12 mae Cyngor Gwynedd wedi llwyddo i arbed **£46 miliwn** trwy weithio'n fwy effeithlon ac wedi gorfod gwireddu gwerth **£5 miliwn** o doriadau i rai gwasanaethau. Er mwyn pontio gweddill y diffyg ariannol o **£19 miliwn** cyflwynwyd cynnydd blynyddol yn y Dreth Cyngor.
- 2.5 Yn anffodus, nid oes unrhyw arwydd y bydd y tueddiadau a welwyd dros yr wyth mlynedd diwethaf yn newid rhwng 2019/20 a 2022/23 ac amcangyfrifir y bydd y bwlch ariannol sy'n wynebu Cyngor Gwynedd yn tyfu i fod rhywle rhwng **£11 miliwn** a **£20 miliwn** dros y cyfnod yma.



2.6 Oherwydd maint y diffyg ariannol, a'r ffaith fod y Cyngor wedi bod yn gwireddu arbedion effeithlonrwydd ers nifer o flynyddoedd, mae'n anorod y bydd rhaid ystyried torri rhai gwasanaethau er mwyn cwrdd â dyletswydd gyfreithiol y Cyngor i osod cyllideb gytbwys ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20.

2.7 Cyn pwyso a mesur y dewisiadau posib, roedd y Cyngor yn awyddus i gynnal arolwg "Blaenoriaethau Pobl Gwynedd" er mwyn cael darlun cliriach o'r hyn sydd yn bwysig i bobl Gwynedd ac i ardaloedd a charfannau penodol o fewn y sir.

3. Cynnal yr Arolwg

3.1 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros gyfnod o **8 wythnos** rhwng 10 Medi a 4 Tachwedd 2018.

3.2 Roedd cyfle i drigolion a sefydliadau gymryd rhan **mewn tair ffordd**:

i) Cwblhau holiadur '***Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi?***' mewn un o dair ffordd:

- Ar-lein drwy ymweld â gwefan **www.gwynedd.llyw.cymru/blaenoriaethau**;
- Llyfryn a **holiadur papur** a oedd ar gael drwy Siop Gwynedd, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden y Cyngor.
- Fersiwn papur **hawdd ei ddarllen** ar gael ar gais i unrhyw un oedd yn dymuno llenwi'r arolwg yn y fformat yma.

ii) Mynychu un o **10** cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ar draws y sir yn **Y Bala, Bangor Bethesda, Blaenau Ffestiniog, Caernarfon, Dolgellau, Penygroes, Porthmadog, Pwllheli a Thywyn**.

iii) Anfon llythyr neu e-bost gydag unrhyw adborth neu sylwadau.

3.3 Defnyddiwyd ystod eang o ddulliau i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i gymryd rhan yn yr arolwg gan gynnwys:

- cyhoeddi cyfres o erthyglau blaenllaw yn rhifyn hydref 2018 **Newyddion Gwynedd** a ddosbarthwyd i 58,000 (dros 95%) o gartrefi ar draws Gwynedd rhwng 10 a 14 Medi;
- cyhoeddi cyfres o **ddatganiadau i'r wasg** a ddefnyddiwyd fel sail i erthyglau yn y papurau newydd lleol a rhanbarthol (Daily Post, Herald, Bangor Mail, Cambrian News, Y Cyfnod, Chronicle, a nifer o Bapurau Bro y sir);
- ymgyrch ragweithiol ar y **cyfryngau cymdeithasol** a oedd yn cynnwys cyfres gyson o negeseuon a chlipiau fideo a hyrwyddwyd drwy gyfrifon **Twitter, Facebook a Instagram** y Cyngor a drwy sawl partner;
- dosbarthu **pecynnau hyrwyddo i'r 75 cynghorydd sir, 64 Cyngor Cymuned, 13 llyfrgell, 11 canolfan hamdden, tair Siop Gwynedd**. Roedd y pecynnau yn cynnwys copi papur o'r holiadur gan gynnwys amlen rhadbost i'w anfon yn ôl, posteri a thaflenni yn hyrwyddo'r ymarferiad ar-lein ac ar bapur a phosteri yn nodi dyddiadau, lleoliadau a manylion cofrestru ar gyfer y cyfarfodydd cyhoeddus;
- cylchredeg manylion yr ymarferiad i sawl corff ei raeadru i'w haelodau gan gynnwys aelodau:
 - **Grŵp Cyswllt y Trydydd Sector yng Ngwynedd;**
 - **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn;**
 - **Rhwydwaith Busnes Gwynedd;**
 - **Ffermwyr Ifanc Eryri a Meirionnydd;**
 - **Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor;**

- Yr Urdd;
 - Age Cymru Gwynedd a Môn;
 - sefydliadau celfyddydol;
 - grwpiau amgylcheddol ayyb);
- cysylltu â phob un o'r **ysgolion uwchradd** yng Ngwynedd a gweithio gyda'r **Gwasanaeth Ieuencid** i annog plant a phobl ifanc i gwblhau'r arolwg;
 - cynnal **stondinau gwybodaeth** yng:
 - Ngholeg Meirion Dwyfor;
 - Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor;
 - digwyddiad Siop un Stop Llesiant Age Cymru Gwynedd a Môn yn Nyffryn Ardudwy;
 - Mosg Bangor ayyb.
 - rhoi cymorth i bobl mewn rhai o **gartrefi preswyl** y sir i lenwi'r holiadur
 - bu i rai **partneriaid** e.e Cartrefi Cymunedol Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr rannu manylion yr ymarferiad yn eu newyddlen staff.

3.4 Gwnaethpwyd ymdrech ragweithiol i sicrhau fod llais sawl carfan, grŵp nodwedd a grŵp anodd eu cyrraedd yn cael eu clywed yn yr ymarferiad. Fel rhan o'r gwaith yma cynhaliwyd cyfarfodydd penodol gyda:

- **Grŵp Craidd Cydraddoldeb Gwynedd**
- **Pobl ifanc gan gynnwys pobl ifanc LGBT+ (GISDA), gofalwyr ifanc Gwynedd a phobl ifanc sydd wedi gadael gofal y Cyngor.**
- **Pobl Anabl gan gynnwys Grŵp Hunan Adfocatiaeth yng Nghwm y Glo a Dolgellau**
- **Cyngor Pobl Hŷn Gwynedd**
- **Grŵp o Ffoaduriaid**
- **Cynrychiolwyr sector busnes Gwynedd.**

4. Trosolwg o'r ymatebwyr i'r arolwg

4.1 Dros gyfnod yr ymarferiad fe wnaeth **2,478** o bobl Gwynedd a **38** o sefydliadau / busnesau lleol fanteisio ar y cyfle i lenwi holiadur.


4.2 O'r rhain, fe wnaeth **2,270** (90.2%) lenwi'r **holiadur ar-lein**, fe wnaeth **236** (9.4%) lenwi'r holiadur **ar bapur** ac fe wnaeth **10** (0.4%) lenwi'r fersiwn bapur **hawdd ei ddarllen**.

4.3 Rhyw

4.3.1 O'r unigolion wnaeth lenwi'r holiadur roedd:


- **1,422** yn **ferched**;
- **888** yn **ddynion**;
- **8** yn nodi '**Arall**';

4.3.2 Yn ychwanegol i hyn, fe wnaeth **160** o unigolion ddatgan **fod well gennynt beidio dweud neu ddewis peidio ateb y cwestiwn**.



4.4 Oedran

4.4.1 Mae'r graff isod yn dangos nifer a chanran yr ymatebwyr fesul grŵp oedran. Dewisodd **3** unigolyn i **beidio ateb y cwestiwn**.



4.5 Iaith

4.5.1. O'r unigolion wnaeth ymateb, nododd:


- **1,466** (59.2%) mai'r **Gymraeg** yw eu hiaith gyntaf;
- **786** (31.7%) mai **Saesneg** yw eu hiaith gyntaf;
- **21** (0.9%) eu bod yn **ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg**;
- **18** (0.7%) eu bod yn siarad iaith gyntaf '**Arall**';
- **187** (7.5%) bod gwell **ganddynt beidio â dweud / heb ateb y cwestiwn**.

4.5.2. Roedd yr ieithoedd cyntaf a nodwyd o dan yr opsiwn '**Arall**' yn cynnwys **Almaeneg, Burmese, Punjabi, Iseldireg, Ffrangeg, Gwyddeleg, Pwyleg, Rwmaneg, Swedeg** ac **Arabeg**.

4.5.3. Mae'r graffiau isod yn dangos nifer a chanran yr ymatebwyr yn ôl iaith gyntaf a chanran cefndir ieithyddol pobl Gwynedd.


Graff 6: Iaith gyntaf yr ymatebwyr*

Arall 0.8% (18)



*Nid yw'r graff uchod yn cymryd i ystyriaeth y nifer wnaeth ateb 'gwell gennyf beidio â dweud' na'r rhai a ddewisiodd i beidio ateb y cwestiwn.

Graff 7: Canran o boblogaeth Gwynedd 3 oed a throsodd sydd wedi nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg**



**Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011


4.5.4. Er nad oes modd gwneud cymhariaeth uniongyrchol, mae'n drawiadol fod y ganran wnaeth lenwi'r holiadur gan nodi'r Gymraeg fel eu hiaith gyntaf ynghyd a'r rhai wnaeth ddatgan eu bod yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg (**64.9%**) yn adlewyrchu'r ganran o boblogaeth Gwynedd wnaeth nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg yng nghyfrifiad 2011 (**65.4%**).

4.6 Anabledd

4.6.1 Mae **graff 8** yn dangos nifer a chanran o ymatebwyr a nododd eu bod yn ystyried eu hunain yn anabl. Dewisodd 227 o unigolion beidio ateb y cwestiwn neu ddewis yr opsiwn 'gwell gennyf beidio â dweud'. Er nad oes modd gwneud cymhariaeth uniongyrchol, mae **graff 9** yn dangos fod **9.7%** o bobl Gwynedd wedi datgan fod ganddynt gyflwr sy'n "cyfyngu'n sylweddol ar eu gweithgareddau dydd i ddydd" sy'n cymharu gyda 8% o ymatebwyr yr arolwg a nododd eu bod yn ystyried eu hunain yn anabl.


Graff 8: Nifer a chanran o ymatebwyr a nododd eu bod yn ystyried eu hunain yn anabl

Ydw 8.0% (181)



Graff 9: Canran o bobl Gwynedd wnaeth ddatgan fod ganddynt gyflwr sy'n "cyfyngu'n sylweddol ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd"

Ydw 9.7%



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

5. Methodoleg dadansoddi'r canlyniadau

5.1 Cyflwynwyd **59 o opsiynau** gwasanaeth ynghyd â disgrifiad byr i bobl ddewis ohonynt a gwahoddwyd hwy i'w gosod mewn un o 5 categori sef mwyaf pwysig, pwysig iawn, pwysig, eithaf pwysig a lleiaf pwysig.

Y Gwasanaethau	Lleiaf Pwysig	Eithaf Pwysig	Pwysig	Pwysig iawn	Mwyaf Pwysig
22. TELEDU CYLCH CYFYNG (CCTV) Cynnal rhwydwaith o gamerâu cylch cyfyng (CCTV) mewn mannau poblog i ddiogelu'r cyhoedd.	☐	☐	☒	☐	☐
23. TACLO TROSEDDAU AMGYLCHEDDOL Delio gyda phroblemau tipio slei bach, taflu sbwriel, baw ci a graffiti.	☐	☐	☐	☒	☐

5.2. Er mwyn dadansoddi'r dewisiadau, rhoddwyd sgôr o:

- **5** i'r gwasanaethau a roddwyd yn y blwch '**mwyaf pwysig**';
- **4** i '**pwysig iawn**';
- **3** i'r rhai '**pwysig**';
- **2** i'r '**eithaf pwysig**'
- ac **1** i'r '**lleiaf pwysig**'.


5.3. Cymerwyd cyfanswm sgôr yr holl ymatebion ar gyfer pob gwasanaeth i'n galluogi i'w rhoi mewn trefn yn ôl pwysigrwydd.

6. Canlyniadau'r arolwg yn ei gyfanrwydd


- 6.1 Mae **Graff 10** yn dangos trefn y gwasanaethau yn ôl sgôr pwysigrwydd i'r cyhoedd (fel yr eglurir yn 5.2 a 5.3 uchod). Mae canlyniadau llawn y rhan yma o'r ymarferiad i'w gweld yn **Atodiad A**.
- 6.2 Tra bod y fethodoleg 'sgorio' yma yn ddull teg, yn gyffredinol, o ddangos sut roedd ymatebwyr wedi blaenoriaethu'r gwasanaethau, mae'n bosib na fyddai'n amlygu unrhyw wasanaethau sy'n eithriadol bwysig i rai pobl ond ddim yn flaenoriaeth uchel i bobl eraill. Mae **Graff 11**, felly, yn dangos trefn y gwasanaethau yn ôl faint o ymatebwyr oedd wedi rhoi'r gwasanaethau yn y blwch '**mwyaf pwysig**'.
- 6.3 Roedd cyfle wedyn i'r ymatebwyr gynnig unrhyw sylwadau yr hoffent eu nodi. Mae'r sylwadau yma wedi eu categorïddio yn ôl sylwadau cyffredin ac i'w gweld mewn trefn poblogrwydd yn **Graff 12**.

Graff 10: Yr opsiynau a nodwyd yn yr arolwg mewn trefn yn ôl cyfanswm eu sgôr o'r mwyaf pwysig i'r lleiaf pwysig


Tud. 96



Graff 11: Nifer yr ymatebwyr wnaeth roi sgôr o 5 (sef “mwyaf pwysig”) i'r 59 gwasanaeth




Graff 12: Pynciau a nodwyd gan ymatebwyr yr arolwg yn y blwch 'unrhyw sylwadau pellach'



7. Canlyniadau'r arolwg fesul y 10 Ardal Leol

7.1. Mae'r canlyniadau ar gyfer y **10 Ardal Lleol** ynghyd â chymhariaeth gyda'r canlyniadau ar gyfer y sir yn ei gyfanrwydd i'w gweld yn **Atodiadau B – Ng**. Mae pob atodiad hefyd yn cynnwys tabl sy'n amlygu unrhyw wahaniaethau trawiadol rhwng yr ardal a gweddill y sir.



Tabl 1: Canlyniadau yn ôl 10 Ardal Leol

Atodiad	Ardal Lleol	Nifer wedi ateb	Canran o'r holl ymatebwyr sy'n byw yn yr Ardal Leol	Canran poblogaeth 11+ yng Ngwynedd
B	Bangor	235	9.6%	17.9%
C	Caernarfon	616	25.3%	20.0%
Ch	Dolgellau	178	7.3%	8.6%
D	Dyffryn Nantlle	185	7.6%	6.2%
Dd	Dyffryn Ogwen	166	6.8%	6.7%
E	Ffestiniog	109	4.5%	5.2%
F	Llŷn	466	19.1%	15.7%
Ff	Penllyn	76	3.1%	3.7%
G	Porthmadog	249	10.2%	10.0%
Ng	Tywyn	159	6.5%	6.1%
	Cyfanswm	2,439*	100.0%	100.0%

**nid oedd 39 o'r 2,478 o ymatebwyr wedi nodi côd post cyflawn i'w rhoi mewn ardal benodol.*

8. Cymhariaeth o ganlyniadau'r gwahanol ardaloedd a grwpiau (oedran, rhyw ayyb)

8.1 Wrth edrych ar ganlyniadau'r holl ardaloedd lleol a fesul grwpiau gwahanol, gweler yn gyffredinol yr un gwasanaethau yn cael eu gosod yn y 10 uchaf a'r 10 isaf o'r 59 (fel y gwelir yng **Ngraff 10** uchod) gydag ambell i eithriad yn ymddangos ymysg y grwpiau gwahanol.

8.2 Prif negesuon o'r 10 Ardal Leol (Atodiadau B – Ng)

8.2.1 O safbwynt y 10 gwasanaeth a osodwyd **uchaf** o'r 59, o gymharu â'r canlyniadau ar gyfer Gwynedd yn ei gyfanrwydd, gweler gwahaniaeth bach yng nghanlyniadau pob un o'r ardaloedd lleol:

- **Bangor** – yn wahanol i Wynedd yn ei gyfanrwydd, mae Bangor yn gosod '**Cefnogi pobl gydag anableddau dysgu**' (safle 10) ymysg eu 10 uchaf;
- **Caernarfon** yn gosod '**Cefnogi pobl gydag anableddau dysgu**' (safle 9) a '**Darparu gofal preswyl, gofal cymunedol a gofal dydd i oedolion**' (safle 10) yn eu 10 uchaf;
- **Dolgellau** – yn wahanol i Wynedd yn ei gyfanrwydd, mae Dolgellau yn gosod '**Cryfhau economi Gwynedd**' (safle 8) a '**Ffyrdd diogel a safonol**' (safle 10) yn eu 10 uchaf;
- **Dyffryn Nantlle** yn gosod '**Ffyrdd diogel a safonol**' (safle 7), '**Cludiant cyhoeddus**' (safle 8) a '**Cryfhau economi Gwynedd**' (safle 10);
- **Dyffryn Ogwen** – yn wahanol i Wynedd yn ei gyfanrwydd, mae Dyffryn Ogwen yn gosod '**Darparu gofal preswyl, gofal cymunedol a gofal dydd i oedolion**' (safle 9 yn gyfartal) a '**Cefnogi gofaluwr ifanc**' (safle 9 yn gyfartal) yn eu 10 uchaf;
- **Ffestiniog** – yn wahanol i Wynedd yn ei gyfanrwydd, mae Ffestiniog yn gosod '**Cryfhau economi Gwynedd**' (safle 9) yn y categori 10 uchaf;
- **Llŷn** - yn wahanol i Wynedd yn ei gyfanrwydd, mae ardal Llŷn yn cynnwys '**Tai fforddiadwy**' (safle 9) a '**Cefnogi gofaluwr ifanc**' (safle 10) yn un o'i 10 blaenoriaeth uchaf;
- **Penllyn** – yn wahanol i Wynedd yn ei gyfanrwydd, mae ardal Penllyn yn nodi '**Hyrwyddo'r iaith Gymraeg**' (safle 7) ac '**Anghenion Dysgu Ychwanegol**' (safle 9) yn eu 10 blaenoriaeth uchaf;
- **Porthmadog** - yn wahanol i Wynedd yn ei gyfanrwydd, mae Porthmadog yn gosod '**Cryfhau economi Gwynedd**' (safle 10) yn y categori 10 uchaf;
- **Tywyn** yn cynnwys '**Toiledau cyhoeddus**' (safle 5), '**Ffyrdd diogel a safonol**' (safle 8) a '**Rheoli, atal a lleihau'r risg o lifogydd**' (safle 9) yn eu deg blaenoriaeth uchaf. Mae '**Toiledau cyhoeddus**' a '**Rheoli, atal a lleihau'r risg o lifogydd**' yn cael eu gosod yn uwch o lawer (20 safle neu fwy) na chanlyniadau Gwynedd yn ei gyfanrwydd.

8.2.2 Roedd ambell i ardal yn blaenoriaethu rhai gwasanaethau yn **llawer iawn uwch** (+/- 20 safle neu fwy) na Gwynedd yn ei gyfanrwydd:

- **Dolgellau** yn gosod '**Toiledau cyhoeddus**' (safle 11) ac '**Hyrwyddo'r ardal a chefnogi'r sector twristiaeth**' (safle 13) yn llawer iawn uwch na'r ardaloedd eraill;

- **Tywyn** yn gweld **‘Rheoli harbyrau a thraethau’** (safle 25), **‘Hyrwyddo’r ardal a chefnogi’r sector twristiaeth’** (safle 12) a **‘Llyfrgelloedd’** (safle 19) yn flaenoriaeth uwch na’r ardaloedd eraill;
- **Ffestiniog** yn gosod y **‘Gwasanaeth ieuenctid’** (safle 18) yn uwch o lawer.

8.2.3 O safbwynt y 10 gwasanaeth a osodwyd **isaf** o’r 59, eto gweler ambell i wahaniaeth ym mhob ardal lleol o gymharu â Gwynedd yn ei gyfanrwydd:

- **Bangor** – yn wahanol i Wynedd yn ei gyfanrwydd, mae Bangor yn gosod **‘Toiledau cyhoeddus’** (safle 52) yn ymysg y 10 isaf;
- **Caernarfon** - yn wahanol i Wynedd yn ei gyfanrwydd, mae Caernarfon yn gosod **‘Toiledau cyhoeddus’** (safle 51) a **‘Cefnogi cymunedau’** (safle 52) ymysg eu 10 isaf;
- **Dolgellau** – yn wahanol i Wynedd yn ei gyfanrwydd, mae Dolgellau yn gosod **‘Hyrwyddo’r iaith Gymraeg’** (safle 50) a **‘Cefnogi cymunedau’** (safle 53) ymysg eu 10 isaf;
- **Dyffryn Nantlle** – yn wahanol i Wynedd yn ei gyfanrwydd, mae Dyffryn Nantlle yn gosod **‘Toiledau cyhoeddus’** (safle 51) a **‘Cefnogi cymunedau’** (safle 50) ymysg y 10 isaf;
- **Dyffryn Ogwen** - yn wahanol i Wynedd yn ei gyfanrwydd, mae Dyffryn Ogwen yn gosod **‘Goleuadau stryd’** (safle 50) ymysg y 10 isaf;
- **Ffestiniog** – **nid** yw Ffestiniog yn gosod dim yn wahanol i weddill Gwynedd yn y categori yma;
- **Llŷn** - yn wahanol i Wynedd yn ei gyfanrwydd, mae Llŷn yn gosod **‘Goleuadau stryd’** (safle 51) ymysg y 10 isaf;
- **Penllyn** - mae Penllyn yn gosod **‘Cynnal rhwydwaith llwybrau cyhoeddus a llwybrau beicio’** (safle 51) a **‘Goleuadau stryd’** (safle 52) ymysg y 10 lleiaf pwysig iddynt.
- **Porthmadog** – mae Porthmadog yn gosod **‘Cefnogi cymunedau’** (safle 51) ymysg y 10 lleiaf pwysig iddynt;
- **Tywyn** – mae Tywyn yn gosod y **‘Gwasanaeth cynllunio’** (safle 51), **‘Cefnogi cymunedau’** (safle 50) a **‘Hyrwyddo’r iaith Gymraeg’** (safle 56) ymysg y 10 lleiaf pwysig iddynt. Mae **‘Hyrwyddo’r iaith Gymraeg’** yn cael ei flaenoriaethu **llawer iawn is** yn Tywyn (-20 safle neu lai) nag unrhyw wasanaeth arall ar draws Gwynedd yn ei gyfanrwydd.

8.3 Prif negeseuon yn ôl rhyw (Atodiadau H – I)

8.3.1 Does dim gwahaniaethau arwyddocaol i’w gweld rhwng y ffordd mae dynion a merched wedi blaenoriaethu’r 10 uchaf ac isaf ond eto gweler ambell i wahaniaeth bychan. Mae’r nifer sydd wedi nodi eu rhyw fel **‘Arall’** yn **rhy fychan** i allu cymharu.

8.3.2 Mae **dynion** yn nodi'r canlynol, yn wahanol i'r ymatebion yn eu cyfanrwydd, ymhlith eu **10 uchaf**:

- **Cryfhau economi Gwynedd** (safle 5);

8.3.3 Mae **merched** ar y llaw arall, yn wahanol i'r ymatebion yn eu cyfanrwydd, yn cynnwys y canlynol ymhlith eu **10 uchaf**:

- **Cefnogi gofalwyr ifanc** (safle 9);
- **Darparu gofal preswyl, gofal cymunedol a gofal dydd i oedolion** (safle 10).

8.3.4 Gwahaniaeth bychan sydd i'w weld yn y ffordd mae **dynion** a **merched** yn gosod eu **10 isaf** o gymharu â Gwynedd yn ei gyfanrwydd. Mae dynion yn gosod '**Cefnogi cymunedau**' (safle 50) yn y categori yma tra bod merched yn gosod y '**Gwasanaeth cynllunio**' (safle 50) yn yr un categori.

8.3.5 O safbwynt yr ymatebion yn ôl rhyw, **nid oes unrhyw wasanaeth** wedi ei flaenoriaethu yn llawer iawn uwch nac is (mwyr neu lai na +/- 20 safle) o'i gymharu a Gwynedd yn ei gyfanrwydd.

8.4 Prif negeseuon yn ôl oedran (Atodiad L ac Atodiad LI)

8.4.1 Ymatebwyr o dan 25 oed

8.4.2 Roedd sawl gwahaniaeth yn y 10 gwasanaeth a osodwyd fel y rhai mwyaf pwysig i'r grŵp oedran **o dan 25 oed**. Yn wahanol i'r ymatebion yn eu cyfanrwydd, gosododd y grŵp y materion canlynol ymysg eu **10 uchaf**:

- **Tai fforddiadwy** (safle 4);
- **Cartrefi sy'n addas a diogel i blant, pobl ifanc ac oedolion anabl** (safle 7);
- **Cefnogi oedolion ag anableddau corfforol** (safle 10 yn gyfartal);
- **Hyrwyddo'r iaith Gymraeg** (safle 10 yn gyfartal);
- **Cefnogi teuluoedd bregus** (safle 10 yn gyfartal).

8.4.3 Roedd gwahaniaethau hefyd i weld ymhlith y **10 isaf** ar gyfer y grŵp oedran **o dan 25** o gymharu â'r ymatebion yn eu cyfanrwydd:

- **Toiledau cyhoeddus** (safle 51);
- **Goleuadau stryd** (safle 52);
- **Amlogfa a mynwentydd** (safle 49).

8.4.4 Nododd yr ymatebwyr **o dan 25 oed** bod:

- **Hyrwyddo'r iaith Gymraeg** (safle 10);

- **Cefnogi teuluoedd sy'n delio â phroblemau alcohol a chyffuriau** (safle 22)

yn **llawer iawn uwch** (20 safle neu uwch) o ran pwysigrwydd na'r ymatebion yn eu cyfanrwydd.

8.4.5 Roedd y grŵp yn gosod:

- **Darparu gofal preswyl, gofal cymunedol a gofal dydd i oedolion** (safle 32) yn **llawer iawn is** (-20 safle neu is) na'r ymatebion yn eu cyfanrwydd.

8.4.6 Ymatebwyr dros 65 oed

8.4.7 O safbwynt **10 uchaf** yr ymatebwyr sydd wedi nodi eu bod yn **65 oed** neu drosodd, yr unig wahaniaeth sydd ymhlith eu 10 uchaf o gymharu â'r ymatebion cyffredinol yw:

- **Cryfhau economi Gwynedd** (safle 8).

8.4.8 O safbwynt **10 isaf** yr ymatebwyr **dros 65 oed**, gweler dau wahaniaeth ymhlith eu 10 isaf o gymharu â'r ymatebion cyffredinol sef:

- **Cefnogi cymunedau** (safle 51);
- **Cynnal rhwydwaith llwybrau cyhoeddus a llwybrau beicio** (safle 50).

8.4.9 Nododd yr ymatebwyr **dros 65 oed** bod:

- **Toiledau cyhoeddus** (safle 11)

yn **llawer iawn uwch** (20 safle neu uwch) o ran pwysigrwydd na'r ymatebion yn eu cyfanrwydd.

8.4.10 **Nid** oedd y grŵp yma yn nodi unrhyw wasanaeth yn **llawer iawn is** (-20 safle neu is) na'r ymatebion yn eu cyfanrwydd.

8.5 Prif negeseuon yn ôl iaith gyntaf yr ymatebwyr (Atodiad M ac Atodiad N)

8.5.1 Er bod cysondeb yn atebion y grŵp sydd wedi nodi eu bod yn **Gymraeg neu'n ddwyieithog iaith gyntaf** â'r grŵp sydd wedi nodi **Saesneg fel iaith gyntaf** o gymharu â'r ymatebion yn eu cyfanrwydd, gweler ambell i wahaniaeth arwyddocaol yn y **10 uchaf a'r 10 isaf**.

8.5.2 Gweler bod y rhai sy'n nodi eu bod yn siarad **Cymraeg / dwyieithog fel iaith gyntaf** yn gosod y canlynol yn wahanol i'r ymatebion yn eu cyfanrwydd ymhlith eu **10 uchaf**:

- **Hyrwyddo'r iaith Gymraeg** (safle 8);

- **Darparu gofal preswyl, gofal cymunedol a gofal dydd i oedolion** (safle 10).

8.5.3 Gweler wedyn bod y rhai sy'n nodi eu bod yn siarad **Cymraeg / dwyieithog fel iaith gyntaf** yn gosod y canlynol yn wahanol i'r ymatebion yn eu cyfanrwydd ymhlith eu **10 isaf**:

- **Toiledau cyhoeddus** (safle 51).

8.5.4 Nododd yr ymatebwyr Cymraeg / dwyieithog fel iaith gyntaf:

- **'Hyrwyddo'r iaith Gymraeg'** (safle 8) **llawer iawn uwch** (20 safle neu uwch) na'r ymatebion yn eu cyfanrwydd.

Nid oeddent yn gosod unrhyw wasanaeth **llawer iawn is** (-20 safle neu is) na'r ymatebion yn eu cyfanrwydd

8.5.5 Gweler bod y rhai sy'n nodi **Saesneg fel iaith gyntaf** yn gosod y canlynol, yn wahanol i'r ymatebion yn eu cyfanrwydd yn eu **10 uchaf**:

- **Cryfhau economi Gwynedd** (safle 10).

8.5.6 Gweler bod y rhai sy'n nodi eu bod yn siarad **Saesneg fel iaith gyntaf** yn gosod y canlynol, yn wahanol i'r ymatebion yn eu cyfanrwydd, ymhlith eu **10 isaf**:

- **Hyrwyddo'r iaith Gymraeg** (safle 56);
- **Cefnogi cymunedau** (safle 50).

8.5.7 Nododd yr ymatebwyr Saesneg fel iaith gyntaf:

- **Cynnal a gwarchod ein cefn gwlad** (safle 14) **yn llawer iawn uwch** (20 safle neu uwch) na'r ymatebion yn eu cyfanrwydd.

8.5.8 Roeddent yn gosod:

- **'Hyrwyddo'r iaith Gymraeg'** (safle 56) **yn llawer iawn is** (-20 safle neu is) na'r ymatebion yn eu cyfanrwydd.

8.6 Prif negeseuon yr ymatebwyr sydd wedi nodi fod ganddynt anabledd (Atodiad O)

8.6.1 Does dim gwahaniaeth sylweddol yn y ffordd mae unigolion sydd wedi nodi fod ganddynt anabledd wedi blaenoriaethu eu 10 uchaf a'u 10 isaf o gymharu â'r sampl yn ei gyfanrwydd.

8.6.2 Fodd bynnag, gweler bod y gwasanaethau:

- **Cefnogi oedolion efo anableddau corfforol** (safle 8);
- **‘Darparu gofal preswyl, gofal cymunedol a gofal dydd i oedolion’** (safle 10) yn wahaniaeth i’w weld yn y **10 uchaf**
- **‘Cynnal rhwydwaith llwybrau cyhoeddus a llwybrau beicio’** (safle 54) yn ymddangos yn wahanol yn eu **10 isaf**.

8.6.3 **Nid oes** gwahaniaethau llawer iawn uwch nac is (+/- 20 safle yn fwy neu lai) i’w weld yn ymatebion yr unigolion wnaeth nodi fod ganddynt anabledd o gymharu â’r ymatebion yn eu cyfanrwydd.

9. Prif negeseuon o'r Cyfarfodydd Cyhoeddus

- 9.1 Fe wnaeth cyfanswm o **131** o breswylwyr fynychu un o **10 cyfarfod cyhoeddus** gydag Arweinydd neu Ddirprwy Arweinydd a Phrif Weithredwr y Cyngor yn bresennol.
- 9.2 Yn gyffredinol cafwyd adborth fod pobl Gwynedd yn **croesawu'r cyfle** i fynychu sesiynau o'r fath yn eu hardal leol er mwyn derbyn gwybodaeth am yr ymarferiad.
- 9.3 Roedd **cydnabyddiaeth** i'r ffaith fod **toriadau** yn wynebu'r Cyngor fel canlyniad i leihad yn yr arian a dderbynnir gan y Llywodraeth i dalu am wasanaethau lleol.
- 9.4 O safbwynt prif negeseuon, roedd consensws fod blaenoriaethu'r **59 opsiwn** o fewn yr arolwg yn **dasg anodd** gan fod pob gwasanaeth yn bwysig i wahanol bobl neu garfan.
- 9.5 Cafwyd awgrymiadau mewn sawl cyfarfod o wahanol bethau y gall y Cyngor ystyried eu gwneud er mwyn gwireddu arbedion. Er enghraifft:
- **Rhesymoli casgliadau gwastraff domestig a chasgliadau gwastraff stryd;**
 - **Manteisio ar unrhyw gyfleodd i ddarparu gwasanaethau ar y cyd ar y lefel rhanbarthol e.e. cefnogaeth technoleg gwybodaeth;**
 - **Cysoni ffioedd parcio ym meysydd parcio'r sir.**
- 9.6 Codwyd pryderon cyffredinol am wasanaethau ac am safon rhai gwasanaethau megis **anghysondeb yn safon y casglu gwastraff, tâl bysus coleg yn golygu nad yw plant yn gallu fforddio mynychu, diffyg tai fforddiadwy, y sefyllfa ar ôl cau Ysbyty Blaenau Ffestiniog, dyfodol Neuadd Buddug yn Y Bala, rhwystrau gyda'r gwasanaeth cynllunio.**
- 9.7 Mae canlyniadau'r rhan yma o'r ymarferiad i'w gweld yn gynhwysfawr yn **Atodiad P**.



Enghreifftiau o'r sesiynau cyhoeddus a gynhaliwyd ar draws y sir.

10. Prif negeseuon o'r cyfarfodydd gyda'r grwpiau nodwedd cydraddoldeb

10.1 Cynhaliwyd cyfanswm o **8 grŵp ffocws / cyfarfod** gydag oddeutu **76 o unigolion** yn cynrychioli amryw o grwpiau nodweddion cydraddoldeb gwahanol:

- **Grŵp Craidd Cydraddoldeb Gwynedd;**
- **Pobl ifanc gan gynnwys pobl ifanc LGBT+ (GISDA), gofalwyr ifanc Gwynedd a phobl ifanc sydd wedi gadael gofal;**
- **Pobl anabl gan gynnwys Grŵp Hunan Adfocatiaeth yng Nghwm y Glo a Dolgellau;**
- **Cyngor Pobl Hŷn Gwynedd;**
- **Cynrychiolaeth o blith ffoaduriaid sydd wedi ymgartrefu yng Ngwynedd.**

10.2 Daeth nifer o negeseuon i'r amlwg yn y sesiynau yma gyda negeseuon tebyg yn dod i'r amlwg ymysg rhai grwpiau e.e. pwysigrwydd **trafnidiaeth gyhoeddus** a'r galw am **dai addas**.



Grŵp ffocws gydag un o'r grwpiau nodwedd

10.3 Grŵp Craidd Cydraddoldeb

10.3.1 Roedd **13** o fynychwyr yn cynrychioli'r grwpiau canlynol yn y cyfarfod **Grŵp Craidd Cydraddoldeb**:

- **Grŵp Ffoaduriaid;**
- **Cytûn (Eglwysi ynghyd yng Nghymru);**
- **Grŵp Mynediad Meirionnydd;**
- **Cyngor Pobl Hŷn;**
- **Men's Sheds Caernarfon;**
- **Hunaniaith;**
- **Bangor Indians and Friends Association;**
- **Unique Transgender Network;**
- **Council of Sign Sight Sound;**
- **Gwasanaeth Eiriolaeth Annibynnol Gogledd Cymru;**

- **Canolfan Cymorth Dioddefwyr;**
- **Canolfan Islamaidd Bangor.**

10.3.2 Teimlai'r Grŵp fod nifer fawr o wasanaethau yn bwysig i'r bobl roeddynt yn cynrychioli, ond roedd dau brif faes yn dod i'r amlwg sef:

- **Gwasanaethau i blant**
- **Gwasanaethau i oedolion**

10.3.3 Roedd y Grŵp yn gweld cyfle am gydweithio gwell mewn nifer o feysydd megis rhwng y **gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, trais yn y cartref, teuluoedd bregus a'r gwasanaeth iechydd meddwl** gyda gwaith ataliol yn lleihau'r angen i ymateb i argyfyngau yn y dyfodol.

10.3.4 Teimlai'r grŵp hefyd bod angen i'r Cyngor **gydweithio'n agosach** gyda'r **Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol** a'r **trydydd sector** yn y **maes gofal** a nodwyd hefyd **mor bwysig yw darpariaeth y gwasanaeth hwn drwy'r Gymraeg**. Nodwyd eto pwysigrwydd gwaith ataliol er mwyn sicrhau annibyniaeth unigolion.

10.3.5 Nododd y Grŵp fod y gwasanaeth **Anghenion Dysgu Ychwanegol, iechydd meddwl, gofalwyr a chefnogaeth i bobl efo anableddau dysgu** wedi eu gwasgu i'r eithaf yn barod ac nid yw'n bosib eu gwasgu ymhellach.

10.3.6 Awgrymodd y Grŵp nifer o syniadau ar sut i wneud gwasanaethau'n fwy effeithlon. Awgrymwyd fod angen **newid pwyslais gwaith wardeiniaid traffig** i ganolbwyntio mwy ar gosbi unigolion sy'n parcio ar balmentydd a chreu rhwystrau i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn ac ati.

10.3.7 Roedd gwasanaethau fel **golau stryd** a **chamerâu cylch cyfyng (CCTV)** yn cael eu nodi yn bwysig iawn gan eu bod yn hanfodol o ran **diogelwch merched, plant a phobl ag amhariad golwg**. Roedd y Grŵp hefyd yn nodi bod **canolfannau ailgylchu** yn bwysig iawn i unigolion gydag **anableddau dysgu** am eu bod yn cael cyfle i gael gwaith a phrofiad yn y canolfannau.

10.3.8 Er bod y Grŵp wedi gosod sawl gwasanaeth yn y categori **lleiaf pwysig** roedd rhesymau cadarn dros hyn ac awgrymiadau ar sut i'w gwneud yn fwy effeithlon. Rhoddwyd **cefn gwlad a strydoedd glân a thaclus** yn y categori 'lleiaf pwysig' gan eu bod yn teimlo y dylid **arfogi cymunedau** i gymryd mwy o gyfrifoldeb drostynt.

10.3.9 Yn yr un modd roeddent yn gweld cyfle i gryfhau'r economi drwy **godi treth twristiaeth** ar ymwelwyr a chynyddu ffi defnydd ymwelwyr o weithgareddau môr megis **lansio 'jetskis'** neu godi'r tâl am le yn yr harbwr neu farina.

10.3.10 Mae sylwadau'r Grŵp Craidd Cydraddoldeb i'w gweld yn gynhwysfawr yn **Atodiad Ph.**

10.4 Pobl ifanc LGBT+ (GISDA)

- 10.4.2 Cynhaliwyd sesiwn ‘galw i mewn’ yn ystod noson gymdeithasol grŵp **LGBT+** yng nghaffi GISDA, Caernarfon. Roedd oddeutu **40** o bobl ifanc o bob rhan o Wynedd yn mynychu’r noson, a daeth **15** at y Cyngor am sgwrs.
- 10.4.3 Daeth un gwasanaeth i’r amlwg fel y **mwyaf pwysig** i’r garfan yma sef **trafnidiaeth gyhoeddus**.
- 10.4.4 Roeddent yn pwysleisio mor bwysig oedd y gwasanaeth bws, ac yn benodol y bws i’r Coleg. Roedd sawl un yn nodi bod eu rhieni’n ei chael hi’n anodd talu £120 (mewn un swm) bob tymor am fws i’r Coleg.
- 10.4.5 Roedd eraill yn nodi eu bod yn cael problemau gyda thrafnidiaeth gyhoeddus e.e. **amserlenni bws, costau uchel a bod rhai o’r bysus ddim yn troi fyny** o gwbl.
- 10.4.6 Mae sylwadau’r grŵp pobl ifanc LGBT+ (GISDA) i’w gweld yn gynhwysfawr yn **Atodiad R**.

10.5 Gofalwyr ifanc Gwynedd

- 10.5.2 Cynhaliwyd grŵp ffocws yng Nghanolfan Mentec, Bangor gyda chriw o **5** o bobl ifanc **12– 18 oed** oedd yn gofalu am riant neu aelod arall o’r teulu e.e. brawd neu chwaer.
- 10.5.3 Daeth pedwar gwasanaeth i’r amlwg fel y rhai **mwyaf pwysig** i’r garfan yma sef:
- **Trafnidiaeth gyhoeddus**
 - **Lles disgyblion ysgol**
 - **Cefnogi gofalwyr ifanc**
 - **Cefnogi teuluoedd bregus.**
- 10.5.4 Roeddent yn pwysleisio bod y **gwasanaeth bws** yn hanfodol ac yn eu galluogi i fynd allan i gymdeithasu a chael **seibiant** (*respite*) o’r cartref a dyletswyddau gofalu.
- 10.5.5 Roedd y grŵp yn nodi y bydden nhw’n gwerthfawrogi **pas bws / cerdyn disgownt** gan yn aml nid yw’r rhieni yn gallu eu cludo i lefydd.
- 10.5.6 Teimla’r grŵp fod angen gwell dealltwriaeth o’r **heriau** sy’n wynebu gofalwyr ifanc o fewn yr ysgol, a hoffai’r grŵp godi ymwybyddiaeth o’r **pwysau** sydd ar ofalwyr ifanc.
- 10.5.7 Codwyd y pwynt fod gofalwyr ifanc yn aml yn teimlo eu bod yn cael eu heithrio o drafodaethau gyda gweithwyr cymdeithasol, ac y bydden nhw’n hoffi rhoi eu barn ar faterion sy’n ymwneud â gofalu am aelod o’r teulu.
- 10.5.8 Mae sylwadau’r Gofalwyr Ifanc i’w gweld yn gynhwysfawr yn **Atodiad R**.

10.6 Pobl ifanc sydd wedi gadael gofal

10.6.2 Cynhaliwyd grŵp ffocws yng **Nghaffi Gisda, Caernarfon** gyda chriw o **7** o bobl ifanc **16-25 oed** sydd wedi gadael gofal Cyngor Gwynedd.

10.6.3 Daeth pedwar gwasanaeth i'r amlwg fel y rhai **mwyaf pwysig** i'r garfan yma sef:

- **Cefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal**
- **Tai**
- **Budd-daliadau**
- **Gwasanaeth maethu a mabwysiadu.**

10.6.4 Roeddent yn pwysleisio ei bod yn anodd dod o hyd i **lety sefydlog** ar ôl gadael gofal ac y byddai cael cefnogaeth bellach i **ddysgu sgiliau ymarferol** megis sut i gynilo arian a choginio wedi bod yn fuddiol.

10.6.5 Roeddent hefyd yn pryderu am oblygiadau cyflwyno'r **credyd cynhwysol** a'r ffaith eu bod yn gorfod dibynnu ar **fanciau bwyd** gan nad yw'r cymorth ariannol misol presennol yn ddigonol.

10.6.6 Codwyd y pwynt fod angen rhoi cydnabyddiaeth i ofalwyr maeth da a bod angen codi ymwybyddiaeth i recriwtio gofalwyr newydd.

10.6.7 Mae sylwadau'r bobl ifanc sydd wedi gadael gofal i'w gweld yn gynhwysfawr yn **Atodiad R**.

10.7 Grŵp Hunan Adfocatiaeth (Cwm y Glo a Dolgellau)

10.7.2 Cynhaliwyd grŵp ffocws gyda dau Grŵp Hunan Adfocatiaeth. Un yng Nghaffi Menter Fachwen yng Nghwm y Glo gyda **9** yn mynychu a'r llall yn Dolfeurig yn Nolgellau gyda **7** yn mynychu.

10.7.3 Daeth nifer o wasanaethau amrywiol i'r amlwg fel y rhai **mwyaf pwysig** i'r grwpiau yma sef:

- **Tai**
- **Trafnidiaeth gyhoeddus**
- **Cefnogi pobl hefo anableddau dysgu**
- **Strydoedd taclus a glân**
- **Canolfannau ailgylchu**
- **Canolfannau hamdden**
- **Toiledau cyhoeddus**

10.7.4 Yn gyffredinol roedd y ddau grŵp yn nodi fod annibyniaeth yn bwysig iawn iddynt felly roedd **bysus, tai, canolfannau dydd a gwaith** yn bwysig.

10.7.5 Un peth oedd yn gallu effeithio ar eu hyder i fod yn annibynnol oedd peidio teimlo'n ddiogel. Roedd pethau fel **camerâu cylch cyfyng (CCTV), goleuadau, pafin diogel a bysus** yn troi i fyny ar amser yn greiddiol i hyn.

10.7.6 Mae sylwadau'r Grŵp Hunan Adfocatiaeth i'w gweld yn gynhwysfawr yn **Atodiad R**.

10.8 Cyngor Pobl Hŷn Gwynedd

10.8.1 Cynhaliwyd stondin 'galw i mewn' yng Nghynhadledd Cyngor Pobl Hŷn yn Y Ganolfan, Porthmadog. O'r 30 wnaeth fynychu'r gynhadledd, fe wnaeth 7 cynrychiolydd fanteisio ar y cyfle i roi eu barn.

10.8.2 Daeth dau brif wasanaeth i'r amlwg fel y rhai **mwyafr pwysig** i'r grŵp yma:

- **Trafnidiaeth gyhoeddus**
- **Toiledau cyhoeddus**

Pobl ifanc sy'n gadael gofal	Cynhaliwyd grŵp ffocws gyda chriw o 7 o bobl ifanc 16 – 25 oed sydd wedi gadael gofal Cyngor Gwynedd. Roedd 4 o wasanaethau yn flaenoriaeth uchaf i'r grŵp i gyd: • Tai/cartrefi - Roedd y bobl ifanc yn pwysleisio eu bod yn cael hi'n anodd dod o hyd i lety sefydlog ar ôl gadael gofal a bod rhai wedi cael ei rhoi mewn fflatiau / tai oedd ddim yn addas ar gyfer eu hanghenion. • Cefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal - Roedd sawl un yn teimlo fod angen fwy o gefnogaeth ymarferol e.e. sut i arbed arian, sut i goginio prydau iach, ymolchi a chadw tŷ'n lân, CYN gadael gofal fel eu bod yn teimlo'n fwy parod ar gyfer byw'n annibynnol. Roeddent yn gwerthfawrogi gwaith Gweithwyr Cefnogol y Cyngor a mudiadau trydydd sector fel GISDA. • Budd-daliadau - Roedd pob un o'r grŵp yma yn dibynnu ar fudd-daliadau. Roedd rhai o'r grŵp yn teimlo'n rhwystredig, ac yn nodi eu bod yn aml yn gorfod dibynnu ar fanciau bwyd gan fod yr arian oeddent yn cael pob mis ddim yn ddigon. Roedd y grŵp yn poeni am beth sy'n mynd i ddigwydd ar ôl cyflwyno 'Credyd Cynhwysol' ac yn hoffi mwy o wybodaeth gan y Cyngor am y drefn newydd.

	• Gwasanaeth maethu a mabwysiadu - Tra bod rhai wedi cael profiadau negyddol o'r gwasanaeth ac yn nodi fod angen rhagor o wiriadau, roedd y mwyafrif yn nodi mor bwysig oedd sicrhau lleoliadau gyda theulu maeth. Roedd y grŵp yn gytŷn bod angen rhoi cydnabyddiaeth i ofalwyr maeth da a chodi ymwybyddiaeth o'r angen i recriwtio mwy o ofalwyr. Derbyniwyd sylwadau ychwanegol am y gwasanaethau yma: • Llyfrgelloedd - Roedd rhai yn defnyddio'r llyfrgell yn aml er mwyn cwblhau gwaith coleg am ei fod yn le distaw gyda chysylltiad i'r we gan nad yw hyn o hyd ar gael yn yr hosteli. Roedd y grŵp yn awgrymu y dylai'r llyfrgell fod yn hwb i weithgareddau ac y byddai'n syniad uno'r archifdai a'r llyfrgelloedd er mwyn arbed arian. • Canolfannau Hamdden - Hoffai rai o'r grŵp gyfle i gadw'n heini ond yn nodi fod prisiau aelodaeth o £20+ yn rhy ddrud wrth ddibynnu ar fudd-daliadau. • Buses - Roedd sawl un o'r grŵp yn dibynnu ar wasanaeth bws lleol. Roedd rhai yn nodi eu bod yn ddrud iawn a ddim yn cyrraedd ar amser. Roedd hyn yn golygu eu bod yn methu apwyntiadau pwysig e.e. cyfweiliad Canolfan Swyddi. • CCTV - roedd diogelwch yn bryder i'r unigolion oedd yn byw mewn hosteli ym Mangor a Caernarfon. Roedd teimlad cyffredinol bod angen mwy o gamerâu CCTV ar y strydoedd.
Gofalwyr Ifanc	Cynhaliwyd grŵp ffocws gyda chriw o 5 o bobl ifanc 12– 18 oed oedd yn gofalu am riant neu aelod arall o'r teulu e.e. brawd neu chwaer. Roedd 4 o wasanaethau yn flaenoriaeth uchaf i'r grŵp i gyd: • Bysiau - pwysig iawn i ofalwyr ifanc a'r grŵp yn teimlo y dylent gael pas bws / cerdyn disgownt. Anodd mynd o'r tŷ heb ddefnyddio'r buses (rhiant /rhieni / aelod o'r teulu yn anabl a methu gyrru) ac mae'r elfen o gymdeithasu / gweld ffrindiau i gael 'restbite' o ddyletswyddau gofalu yn hanfodol. Rhai wedi cael profiad o amserlenni buses anibynadwy, sy'n achosi pryder pan mae'n rhaid bod adref erbyn amser penodol i ofalu. Un yn nodi ei bod hi a'i thad wedi cael ei gwrthod rhag mynd ar un bws gan fod ei thad yn defnyddio cadair olwyn. • Lles Disgyblion Ysgol - y grŵp yn bryderus fod yr ysgol ddim yn rhoi digon o gefnogaeth i ofalwyr ifanc a bod y cyswllt o'r cartref i'r ysgol yn ddim digon cryf. Rhai yn teimlo fod yr athrawon ddim yn gwerthfawrogi'r heriau gartref a byddai'r grŵp yn hoffi mwy o gefnogaeth e.e. rhagor o amser i wneud gwaith cartref. • Cefnogi gofalwyr ifanc – Hoffai'r grŵp y cyfle i godi ymwybyddiaeth o heriau sy'n wynebu gofalwyr ifanc, a hynny efallai drwy'r ysgol.

	• Cefnogi teuluoedd bregus – y grŵp yn teimlo nad yw llais y plant yn cael eu clywed yn y trafodaethau gyda'r 'gwasanaethau cymdeithasol' e.e. pan mae swyddog yn dod i weld y teulu ynghylch anabledd brawd / chwaer – dim ond y rhieni sy'n rhan o'r drafodaeth ac nid oes ystyriaeth i'r gofalwr ifanc. Derbyniwyd sylwadau ychwanegol am y gwasanaethau yma: • Cefnogi pobl hŷn - roedd y grŵp yn nodi bod y gwasanaeth yma yn bwysig iawn. Roeddent yn teimlo byddai clybiau i'r henoed mewn pentrefi yn syniad da a byddai'n syniad annog rhyngweithio rhwng y genhedlaeth ifanc a hen e.e parti Nadolig, er mwyn helpu osgoi unigrwydd. • Iechyd meddwl - cafwyd trafodaeth fanwl am yr heriau oedd pobl ifanc yn ei wynebu ynghylch iechyd meddwl. Roedd sawl unigolyn yn nodi eu bod wedi gweld eu ffrindiau yn ymdopi a phroblemau iechyd meddwl ac eisiau gwybod mwy am y cymorth sydd ar gael. Roedd rhai yn teimlo fod stigma tuag at 'iechyd meddwl' dal yn amlwg. • Llyfrgelloedd - Roedd nifer o'r grŵp yn dibynnu ar y llyfrgelloedd fel mannau distaw ar gyfer gwneud gwaith coleg / ysgol a chael seibiant o'r cartref. Roedd teimlad y gellir datblygu'r llyfrgelloedd fel 'hwb cymunedol' a lle i bobl o bob oedran efo diddordebau penodol ddod at ei gilydd. • Gwasanaeth leuenctid - Roedd y rhan fwyaf o'r grŵp yn mynychu gweithgareddau'r Gwasanaeth leuenctid. Roedd y grŵp yn teimlo ei fod yn rhoi cyfle i gael 'restbite' o ddyletswyddau gofalu ac redder nhw'n hoffi'r opsiwn o gael dewis y gweithgareddau oedd yn apelio iddyn nhw fwyaf. Byddai'r grŵp yn hoffi cael gwefan i gael mynediad i wybodaeth am y digwyddiadau. • Y Gymraeg – Teimlad y dylai'r Cyngor ganolbwyntio ar sicrhau fod plant yn parhau i siarad Cymraeg ar ôl gadael ysgol gynradd. Uned iaith ddim yn gweithio am ei fod yn creu 'arwahanrwydd' rhyngddyn nhw a'r plant eraill. Roedd y grŵp yn pwysleisio bod angen rhoi cefnogaeth i oedolion sy'n dysgu a busnesau lleol.
Ffoaduriaid	Cynhaliwyd cyfarfod gyda 13 o ffoaduriaid sy'n byw yng Ngwynedd. Roedd dau wasanaeth yn benodol yn cael sylw: • Tai/cartrefi – Pob teulu heblaw am un ar y rhestr aros am dai cymdeithasol. Roeddent yn nodi nad yw rhentu'n breifat yn rhoi sicrwydd a bod y tai yn ddrud ac yn rhy fach i'w teulu. Gwelir achosion ble mae teulu o 7 mewn tŷ 2 ystafell wely. • Budd-daliadau - Roedd sylw'n cael ei roi i fudd-daliadau tai (DHP) a'r ffaith ei fod yn bwysig iawn iddynt er mwyn gallu talu rhent a gofalu am y teulu. Sylwadau ychwanegol yn codi:

	• Canolfannau Hamdden – Roedd sawl un o'r merched yn nodi y byddent yn gwerthfawrogi gwersi / sesiwn nofio ac Ystafell ffitrwydd i ferched yn unig. • Cymunedau taclus a glan – Mae'r pwynt yma'n bwysig yn enwedig o safbwynt gwaredu baw ci ar y strydoedd yn Bangor. Nododd sawl un o'r grŵp fod problem gyda gwaith yn tyfu ar y palment hefyd. • Goleuadau stryd – nodwyd ei fod yn bwysig o safbwynt teimlo'n ddiogel. • Amlosgfa a Mynwentydd – Nodwyd bod cael plot ar gyfer Mwslemiaid mewn mynwentydd yn ardal Bangor yn bwysig iawn i'r grŵp. • Iaith Gymraeg – roedd sylw'n cael ei wneud i'r ffaith ei bod yn anodd cael swyddi oherwydd y gofyn am allu yn y Gymraeg.
Cyngor Pobl Hŷn Gwynedd	Mynychwyd Cynhadledd Pobl Hŷn Gwynedd gyda stondin, gan roi cyfle i'r mynychwyr roi eu barn ar y gwasanaethau oedd fwyaf pwysig iddynt. Roedd dau bwynt yn bennaf yn cael sylw: • Trafnidiaeth Gyhoeddus - Cynnal a chadw'r gwasanaeth bws i fynd yn bwysig gan ei fod yn ofnadwy o bwysig yn enwedig i bobl hŷn mewn ardaloedd gwledig ble mae dirywiad i weld yn nifer y gwasanaethau sydd ar gael. Dylid hefyd cael gwasanaeth o safon, sydd wedi ei chynllunio i gysylltu gyda theithiau bysus eraill a theithiau trenau er mwyn galluogi pobl hŷn, sydd ddim yn gallu gyrru i gyrraedd y gwasanaethau maent eu hangen a hynny mewn modd hwylus. • Toiledau Cyhoeddus – Mae angen digon o doiledau mewn mannau cyhoeddus er mwyn galluogi pobl hŷn i fynd allan a theithio â hyder. Sylwadau ychwanegol yn codi: • Tai - Gweld yr angen i awdurdodau lleol nodi'n glir pa fath o dai sydd eu hangen e.e. tai henoed, fflatiau, tai fforddiadwy, teulu ac wrth roi caniatâd cynllunio dylid nodi'n glir faint o bob categori tai sydd ym mhob datblygiad. • Casglu gwastraff ac ailgylchu – nodwyd pryderon am ddyluniad y biniau gwastraff bwyd ac am y ffordd mae'r biniau gwyrdd yn cael eu gadael ar ôl eu casglu sydd yn eu gwneud yn anodd i bobl hŷn / pobl ag anableddau i'w symud. • Gofalwyr ifanc – teimlad ni ddylai plant a phobl ifanc orfod bod yn ofalwyr i aelodau o'u teulu. • Ffyrdd – angen mwy o '<i>dropped kerbs</i>' ar y pafins.

Atodiad Rh: Sefydliadau (38 ymateb)

Allwedd	
Coch	-20 safle is na safle canlyniadau Gwynedd yn ei gyfanrwydd
Oren	Rhwng 1 a 19 safle yn is
Gwyn	Dim gwahaniaeth yn y safle
Melyn	Rhwng 1 a 19 safle yn uwch
Gwyrdd	O leiaf 20 safle yn uwch na safle canlyniadau Gwynedd yn ei gyfanrwydd

GWASANAETH	Ranc Sefydliad / Busnes	Ranc Gwynedd	Gwahaniaeth o ranc Gwynedd
ADDYSG O ANSAWDD UCHEL	1	1	0
AMDDIFFYN PLANT A THACLO TRAIS YN Y CARTREF	2	2	0
CEFNOGI PLANT ANABL A PHLANT SY'N WAEL	3	4	1
PLANT MEWN GOFAL	4	6	2
CEFNOGI POBL SYDD YN BYW EFO DEMENTIA	5	7	2
CRYFHAU ECONOMI GWYNEDD	5	14	9
CEFNOGI TEULUOEDD BREGUS	7	19	12
CASGLU GWASTRAFF AC AILGYLCHU	8	3	-5
CEFNOGI POBL SY'N BYW GYDA CHYFLYRAU IECHYD MEDDWL	8	9	1
POBL SY'N DDIGARTREF	10	27	17
CLUDIANT CYHOEDDUS	11	10	-1
CEFNOGI POBL HŶN	12	5	-7
DARPARU GOFAL PRESWYL, GOFAL CYMUNEDOL A GOFAL DYDD I OEDOLION	13	12	-1
CEFNOGI PLANT MEWN CYMUNEDAU DIFREINTIEDIG	14	23	9
CEFNOGI POBL GYDAG ANABLEDDAU DYSGU	14	15	1
CANOLFANNAU AILGYLCHU	16	8	-8
TACLO TROSEDDAU AMGYLCHEDDOL	17	35	18
CEFNOGI OEDOLION GYDAG ANABLEDDAU CORFFOROL	17	13	-4
TAI FFORDDIADWY	17	21	4
CEFNOGI BUSNESAU LLEOL	17	31	14
ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL	21	20	-1
CEFNOGI POBL IFANC SY'N GADAEI GOFAL	21	24	3
CEFNOGI GOFALWYR IFANC	21	11	-10

CARTREFI SY'N ADDAS A DIOGEL I BLANT, POBL IFANC AC OEDOLION ANABL	21	17	-4
LLES DISGYBLION YSGOL	25	18	-7
CEFNOGI GOFALWYR	25	22	-3
CYMUNEDAU TACLUS A GLÂN	27	25	-2
CEFNOGI TEULUOEDD SY'N DELIO A PHROBLEMAU ALCOHOL A CHYFFURIAU	27	42	15
CEFNOGI CYMUNEDAU	29	49	20
CANOLFANNAU HAMDDEN A BYW'N IACH	29	29	0
CLUDIANT YSGOLION	31	33	2
HYRWYDDO'R ARDAL A CHEFNOGI'R SECTOR TWRISTIAETH	31	40	9
TACLO LLYGREDD	33	28	-5
FFYRDD DIOGEL A SAFONOL	33	16	-17
ADEILADAU DIOGEL	33	41	8
HYRWYDDO'R IAITH GYMRAEG	36	31	-5
GWASANAETH IEUENCTID	36	38	2
TOILED AU CYHOEDDUS	38	44	6
RHEOLI, ATAL A LLEIHAU'R RISG O LIFOGYDD	38	30	-8
CYNNAL A GWARCHOD EIN CEFN GWLAD	40	36	-4
BWYD YSGOL	41	26	-15
BUDD-DALIADAU	41	46	5
GWASANAETH CYFIAWNDER IEUENCTID	43	36	-7
LLYFRGELLOEDD	44	39	-5
CYNNAL RHWYDWAITH LLWYBRAU CYHOEDDUS A LLWYBRAU BEICIO	45	45	0
DIOGELWCH BWYD A NWDYDDAU	45	34	-11
RHEOLI HARBYRAU A THRAETHAU	47	51	4
CLWB BRECWAST A GOFAL CYN YSGOL	48	52	4
GWASANAETH CYNLLUNIO	49	47	-2
AMLOSGFA A MYNWENTYDD	50	43	-7
CELFYDDYDAU AC AMGUEDDFEYDD	50	55	5
GOLEUADAU STRYD	52	48	-4
TORRI GWAIR	53	53	0
GWASANAETH COFRESTRU	54	50	-4
PARCIAU GWLEDIG	55	56	1
TELEDU CYLCH CYFYNG (CCTV)	56	54	-2
ARCHIFAU	57	57	0
MEYSYDD PARCIO A WARDEINIAID TRAFFIG	58	58	0

MARINAS HAFAN PWLLHELI A DOCTORIA CAERNARFON	59	59	0
--	----	----	---

Atodiad Rh1: Y gwasanaethau mae sefydliadau wedi eu rancio 5 neu fwy (sef mwy pwysig) na Gwynedd ar gyfartaledd

GWASANAETH	Ranc Sefydliadau	Ranc Gwynedd	Gwahaniaeth o ranc Gwynedd
CEFNOGI CYMUNEDAU	29	49	20
TACLO TROSEDDAU AMGYLCHEDDOL	17	35	18
POBL SY'N DDIGARTREF	10	27	17
CEFNOGI TEULUOEDD SY'N DELIO A PHROBLEMAU ALCOHOL A CHYFFURIAU	27	42	15
CEFNOGI BUSNESAU LLEOL	17	31	14
CEFNOGI TEULUOEDD BREGUS	7	19	12
CRYFHAU ECONOMI GWYNEDD	5	14	9
CEFNOGI PLANT MEWN CYMUNEDAU DIFREINTIEDIG	14	23	9
HYRWYDDO'R ARDAL A CHEFNOGI'R SECTOR TWRISTIAETH	31	40	9
ADEILADAU DIOGEL	33	41	8
TOILEDAU CYHOEDDUS	38	44	6
BUDD-DALIADAU	41	46	5
CELFYDDYDAU AC AMGUEDDFEYDD	50	55	5

Atodiad Rh2: Y gwasanaethau mae sefydliadau wedi eu rancio -5 neu'n is (sef llai pwysig) na gweddill Gwynedd

GWASANAETH	Ranc Sefydliadau	Ranc Gwynedd	Gwahaniaeth o ranc Gwynedd
FFYRDD DIOGEL A SAFONOL	33	16	-17
BWYD YSGOL	41	26	-15
DIOGELWCH BWYD A NWDYDDAU	45	34	-11
CEFNOGI GOFALWYR IFANC	21	11	-10
CANOLFANNAU AILGYLCHU	16	8	-8
RHEOLI, ATAL A LLEIHAU'R RISG O LIFOGYDD	38	30	-8
CEFNOGI POBL HYN	12	5	-7
LLES DISGYBLION YSGOL	25	18	-7

GWASANAETH CYFIAWNDER IEUENCTID	43	36	-7
AMLOSGFA A MYNWENTYDD	50	43	-7
TACLO LLYGREDD	33	28	-5
HYRWYDDO'R IAITH GYMRAEG	36	31	-5
LLYFRGELLOEDD	44	39	-5
CASGLU GWASTRAFF AC AILGYLCHU	8	3	-5

Atodiad S: Rhestr o sefydliadau wnaeth ymateb

Enw a chyfeiriad eich sefydliad neu fusnes	Os ydych yn sefydliad sy'n ymwneud yn benodol ag un neu fwy o'r grwpiau nodwedd cydraddoldeb (rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, oed sef pobl hyn neu bobl ifanc, hîl, crefydd, trawsrywedd, anabledd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas) nodwch nhw yma os gwelwch yn dda.
Tudor Lodge	
Derwen	Children and young people disability
Bus Users Cymru. N.W.Wales Rep, 41 Cae Gwyn, Caernarfon	
Cylch Meithrin Cefnfaes	Pre school Flying Start
Gwynant Ltd	
Barmouth Publicity Association	
Grwp Blodeuwedd, Ffordd Coed Madog, Talysarn	
Barmouth Properties Ltd	
Ysgol Dawns Pwllheli	Elderly ,Young Children on the spectrum.
GISDA	Pobl ifanc 16-25 oed (digartrefedd, iechyd meddwl, LGBT, camdrin sylweddau, materion tai, diweithdra, budd daliadau etc)
Inigo Jones & Co Ltd	
Dobson:Owen	
Maes Twrog Community Farm	Vulnerable adults
Cartrefi Cymunedol Gwynedd, Dolgellau	
Cylch Meithrin Carmel, Neuadd Pentref, Carmel	Gweithio gyda plant ifanc
Meithrinfa Seren Fach	Plant a babanod ifanc
Canolfan Lon Abaty, Bangor	Canolfan yn darparu ar gyfer y rhai yn dioddef efo problemau iechyd meddwl, dibyniaeth a digartrefedd.
Medra Counselling Services	
Tan Y Maen Wellbeing Centre	

Menter Fachwen	People who have a Learning Disability and or a Physical Disability.
Hospice at home Harlech	All
Morlyn Guest House	As a guest house we receive individual guests from Britain and abroad for stays in North Wales, including those in your "equality feature groups".
Bangor City Council	
Cyngor Cymuned Llanuwchllyn	
Dolffanog Fach	
Action for Children, Unit 8 Mentec, Deiniol Rd, Gwynedd.	Children and young people who have caring responsibilities at home (young carers).
GISDA cyf	
Neuadd Dyfi	
Dolfeurig Dolgellau	Learning disability
Partneriaeth Ogwen	
Age Cymru Gwynedd a Mon	Pobl hŷn
Cyngor Plwyf Maentwrig a Gellilydan	
Cyngor Cymuned Bryncrug	
Grwp Cynefin	
Cyngor Cymuned Llanengan	
Cyngor Cymuned Llandderfel	
Y Dref Werdd	
Cyngor Cymuned Llangelynnin	

CYNGOR CYMUNED LLANNOR

Hydref 17eg 2018.

Mr Sïon G Williams
Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu
Cefnogaeth Gorfforaethol
Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd

Annwyl Mr Williams,

Parthed: Ymgynghoriad "Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi?"

Diolch i chi am eich llythyr diweddar parthed yr uchod a drafodwyd yng nghyfarfod mis Hydref o'r Cyngor Cymuned.

Hoffai'r aelodau nodi eu bod yn gweld y drefn sydd yn cael ei dilyn yn yr ymgynghoriad yn annheg gan ei bod yn hollol ddibynnol a'r bwy yn union sydd yn mynd i'w chwblhau a'r gwasanaethau sydd yn bwysig iddynt hwy fel unigolion.

Mae'r aelodau hefyd o'r farn y dylai'r gwasanaethau fod wedi cael eu grwpio hefo'i gilydd a bod cyfle wedyn i flaenoriaethu'r gwasanaethau o fewn y grŵp hwnnw. Fel mae pethau ar hyn o bryd, mae angen blaenoriaethu gwasanaethau fel canolfannau ailgylchu yn erbyn gofal i blant sydd yn hollol annheg.

Yn olaf nodwyd hefyd y dylid yn gyntaf edrych ar y nifer o gynghorwyr sydd gan y Cyngor, gan fod y costau sydd yng nglŵm a'r swyddogaethau yma yn gostus iawn i'r treth dalwr ac y byddai modd sicrhau arbedion mawr drwy leihau'r niferoedd.

Yn gywir



Haydn Jones
Clerc



Mr Dilwyn Williams
Prif Weithredwr
Cyngor Gwynedd
Swyddfeydd y Cyngor
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH
31/10/2018

Annwyl Syr,

Toriadau Gwynedd 2019/20 ymlaen

Yn dilyn ein cyfarfod yn ddiweddar, gwnaethoch ofyn inni ysgrifennu atoch mewn perthynas â thoriadau pellach i gyllideb Cyngor Gwynedd yn y dyfodol a'n pryderon ar ran y sector busnes yng Ngwynedd. Gwnaethoch addewid y byddai hyn yn cael ei drosglwyddo i'r cynghorwyr pan fyddant yn ystyried sut y bydd y toriadau hyn yn cael eu gwneud.

Mae'n amlwg bod yn rhaid gwneud arbedion ac rydym yn sylweddoli fod yn rhaid i'r cynghorwyr wneud penderfyniadau anodd.

Mae gan Rhwydwaith Busnes Gwynedd berthynas weithio ardderchog ag adrannau Busnes a Thwristiaeth Cyngor Gwynedd.

Fel yr esboniwyd yn y cyfarfod, nid ydym yn teimlo y bydd y broses ymgynghori gyfredol yn darparu unrhyw atebion gwahanol i'r un flaenorol ym mhroses Her Gwynedd 2015.

Mae'n gwbl amlwg na fydd busnes a thwristiaeth yn sgorio'n uchel yn y broses ymgynghori, gan y bydd preswylwyr Gwynedd yn amlwg yn pleidleisio dros bethau sydd yn effeithio'n uniongyrchol arnynt hwy.

Rydym yn teimlo'n gryf iawn na ddylid gwneud toriadau o gwbl yn yr adrannau Busnes a Thwristiaeth yn y toriadau diweddaraf. Mae cost gyffredinol yr adrannau hyn yn fychan iawn yng nghyd-destun cyfanswm y gyllideb flynyddol, ac nid oes lle i doriadau pellach yn eu cyllideb

Mae twristiaeth yn gwbl hanfodol i economi Gwynedd ac mae'n cyfrannu £1.4 Biliwn i'r sir ac yn cyflogi dros 15,000 (37.5%) o bobl o'r 40,000 a gyflogir yn y sector preifat mewn 2,800 o fusnesau.

Pe bai rhagor o doriadau'n cael eu gwneud i'r adrannau Busnes a Thwristiaeth byddai Cyngor Gwynedd yn colli refeniw.

Mae'r adran fusnes yn rhoi cymorth sylweddol i fusnesau sy'n cychwyn a busnesau sy'n bodoli eisoes ac mae'n bwysig iawn bod y gwaith da hwn yn parhau. Oni fydd y gwaith hwn yn parhau, bydd effaith gynyddol i'w gweld gyda llai o swyddi, mwy o ddibyniaeth ar fudd-daliadau a chynnydd mewn problemau ieched meddwl wrth i fwy o bobl frwydro i gynnal safonau byw sylfaenol.

Mae'r adran dwristiaeth wedi bod yn llwyddiannus iawn yn ddiweddar drwy gael mynediad at gyllid grant Croeso Cymru a byddai unrhyw doriadau pellach yn golygu na fyddai'r grantiau hyn ar gael yn y dyfodol. Hefyd, o ganlyniad i lai o farchnata'r ardal, yn y farchnad dra chystadleuol hon, bydd llai o incwm yn deillio o refeniw parcio ceir, sy'n darparu incwm ychwanegol sylweddol i Gyngor Gwynedd yn ystod y tymor twristiaid. Mae'r toriadau blaenorol a'r colli swyddi a ddilynodd yn y sector cyhoeddus yn cael effaith andwyol ar economi Gwynedd ac felly mae'n bwysicach nag erioed, yn enwedig gydag ansicrwydd Brexit, nad yw'r cymorth a'r gefnogaeth i'r sector preifat yn cael eu torri ymhellach ar hyn o bryd, gan fod mwy o swyddi yn y sector hwn yn hanfodol ar gyfer dyfodol y sir.

Mae'n hanfodol cydnabod bod unrhyw doriadau yn y sector twristiaeth a busnes yn cael effaith uniongyrchol ar bobl a'u cymunedau.

Mae Cyngor Gwynedd yn cael ei gymeradwyo am ei arweiniad a'i gefnogaeth i Fargen Twf Gogledd Cymru a byddai unrhyw doriadau pellach i'r sector busnes a thwristiaeth yng Ngwynedd yn rhoi neges anghyson a negyddol iawn.

Y tro diwethaf, dywedodd y cabinet ei fod yn cyfyngu'r toriadau i'r gyllideb economaidd a thwristiaeth yn seiliedig ar y ffaith "y gallai'r toriadau hyn yn y tymor hir effeithio ar economi Gwynedd gyfan a'i phreswylwyr, ac y gallai hynny fod yn wrthgynhyrchol."

Mae hyn hyd yn oed yn fwy cyffredin nawr nag yr oedd yn 2016 ac mae Rhwydwaith Busnes Gwynedd yn gobeithio y bydd synnwyr cyffredin yn llwyddo, fel y gallwn barhau i weithio'n agos â Chyngor Gwynedd yn y dyfodol.

Yn gywir



John Lloyd
Rhwydwaith Busnes Gwynedd

29 Hydref 2018

Annwyl Gynghorydd,

Rwyf yn ysgrifennu atoch ar ran aelodau Cangen Gwynedd o Ffederasiwn y Busnesau Bach.

FSB Cymru yw llais ag awdurdod busnesau yng Nghymru, gyda thua 10,000 o aelodau. Mae'n ymgyrchu dros well amgylchedd cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd i weithio ac i wneud busnes ynddo. Gyda strwythur llawr gwlad cryf, Uned Polisi Cymru a staff Cymreig ymroddedig i ddelio gyda sefydliadau, cyfryngau a gwleidyddion Cymru, mae FSB Cymru yn sicrhau bod lleisiau'r aelodau'n cael eu clywed wrth galon y broses o wneud penderfyniadau.

Sylwn eich bod yn ceisio gweithredu toriadau sylweddol yn 2019 er mwyn mantoli'ch cyllidebau. Fel pobl fusnes gallwn ddeall yn llwyr eich anawsterau wrth fantoli'ch cyllidebau gan ein bod yn byw ac yn gweithio'n gyson dan bwysau costau a phwysau cyllidebol o'r fath. Rydym yn falch eich bod yn barod i ymgynghori â chymunedau Gwynedd er mwyn gweithredu'r toriadau hynny'n deg.

O'r herwydd, byddem yn gobeithio, gan ein bod yn cynrychioli cymuned fusnes sylweddol ar draws y sir, y byddwch yn pwysu a mesur ein hymatebion, sydd wedi'u cynnwys yn y llythyr hwn a'r pryderon arwyddocaol a amlygwn o ddifrif.

Rydym bob amser wedi'n taro gan yr agwedd gadarnhaol at fusnes sydd gan wleidyddion yn y sir. Rwyf yn cofio'ch ymateb i'r argyfwng ariannol byd-eang wrth ichi greu grŵp cynllun gweithredu. Roedd y gronfa fenthyciadau o £3m a grëwyd yn yr un cyfnod i helpu busnesau bach yn y sir nad oeddynt yn gallu cael at ffrydiau ariannu arferol yn ganmoladwy dros ben. Ac mae'r ffaith ei bod yn dal mewn bodolaeth heddiw yn dystiolaeth barhaus o'ch cefnogaeth i fusnesau yn y sir.

Roedd y Cyngor hefyd yn un o'r cyntaf yng Nghymru i arwyddo ein Cytundeb Busnesau Bach yn 2010. Allwn ni ddim llai na theimlo y bydd llawer o'r toriadau hyn, os cânt eu gweithredu, yn golygu na fydd yr hanes rhagorol hwn ond yn atgof pell.

Rydych yn dweud yn y rhagair i'r arolwg yr ydych wedi'i gyhoeddi, "Y gallai'r blwch cyllido fod rhywle rhwng £11m a £20m". Credwn ei bod yn hanfodol bwysig fod gwasanaethau sy'n wynebu cwsmeriaid, yn cynnwys swyddogaethau cymorth i fusnesau a thwristiaeth, yn cael eu diogelu. Gan hynny mae'n ymddangos i ni fod angen creu atebion radical i swyddogaethau swyddfa gefn, yn cynnwys mwy o gydweithredu gyda chynghorau eraill Gogledd Cymru o bosibl.

Yn yr ychydig flynyddoedd nesaf mae'n ymddangos bron yn sicr y bydd Brexit yn cael effaith negyddol sylweddol ar economi Gwynedd. Mae'n anodd i unrhyw sefydliad, beth bynnag fo'u maint, gynllunio ar gyfer Brexit. Yn wir fe wnaethom arolwg ledled y Deyrnas Unedig yn ddiweddar a oedd yn dangos bod ond 14% o'n haelodau wedi gwneud unrhyw gynllunio o gwbl gyda'r gweddill heb wneud unrhyw baratodau o fath yn y byd.

Dyweddodd ein Cadeirydd Polisi ac Eiriolaeth, Martin McTague, wrth bwyllgor Brexit y Senedd ar 9 Hydref eleni fod un arweinydd busnes wedi dweud wrtho fod paratoi at Brexit “fel ceisio symud eich busnes i Narnia”. Gwnaed y sylw hwn yn y cyd-destun o fod â dim syniad o’r system reoleiddio y byddant yn cael eu hunain ynddi.

Byddwn yn tynnu’ch sylw at ein hadroddiad ar Roi Hwb i Effaith Twristiaeth yng Nghymru, y bu inni ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2018, sydd i’w gael, ynghyd â’n cyhoeddiadau eraill, ar <https://www.fsb.org.uk/standing-up-for-you/national-offices/wales/publications>

Gellwch weld o dudalen 10 yr adroddiad hwn fod busnesau’n dibynnu ar gymorth busnes gan Awdurdodau lleol yn llawer trymach na ffynonellau eraill. Yn wir mae dros ddwywaith yn fwy o gymorth yn dod oddi wrth Awdurdodau Lleol nag oddi wrth Busnes Cymru. Mae hyn, fe gredaf, yn dangos y meddwl mawr sydd gan ein haelodau o’ch swyddogaethau cymorth i fusnes a thwristiaeth.

Yn ogystal, rydym, oherwydd Brexit, yn wynebu colli cyllid yr U.E. sydd wedi bod mor sylweddol yn y sir dros nifer sylweddol o flynyddoedd. Er bod gobeithion y bydd Cronfa Ffyniant Gyffredin y D.U. yn cymryd lle’r cyllid hwn mae yna gwestiynau arwyddocaol o ran faint y byddwn yn ei dderbyn a pha brosiectau fydd yn cael eu cyllido. Hyd yn oed os oes canlyniad cadarnhaol i hyn bydd yna bron yn sicr fwlch amser yn y cyllid. Mae’r effaith ar ein cymuned amaethyddol yn aneglur hefyd ac mae’n debygol y bydd llawer o ffermwyr yn gobeithio arallgyfeirio a bydd angen help arnynt i wneud hynny.

Megis gyda Brexit byddai’n aflwydd dwbl petai swyddogaethau cymorth busnes yn cael eu lleihau’n sylweddol yn y cyfnod hwn. Rydym o’r farn fod angen ichi gynnal y swyddogaethau hyn i geisio gwneud iawn am golli cyllid yr U.E.

Credwn na fydd gwneud toriadau sylweddol i swyddogaethau cymorth i fusnes yn eistedd yn dda yn wleidyddol gyda chynnydd Bergen Twf y Gogledd. Rwyf wedi treulio dau hanner diwrnod mewn gweithdai gyda chynghorwyr i egluro’r fargen; ymddengys yn afresymegol yn awr i gael y Cyngor yn ei hanfod yn tansilio’r hwyliau cadarnhaol a gynhyrchwyd gan gynnydd y Fargen trwy wneud toriadau yn y swyddogaethau cymorth i fusnes. Teimlaf os gwelir nad yw Gwynedd yn cefnogi’r Fargen hon trwy wneud toriadau mawr y bydd yn ei gwneud yn galetach i’r sector preifat yn y sir gefnogi’r Fargen a manteisio arni.

Mae’r dirwedd fusnes yng Ngwynedd yn cynnwys busnesau bach gan mwyaf. Byddwn yn nodi bod hyder ymhlith busnesau bach wedi gostwng yn sylweddol yn y chwarter hyd at 30 Medi ar draws y D.U., ac maent yn teimlo’n arbennig o besimistaidd ynghylch eu rhagolygon ar gyfer y misoedd i ddod. Mae hyn yn ôl y Mynegai Busnesau Bach a gyflawnwn ledled y D.U. ond bydd yn cynnwys ymatebwyr Gwynedd.

Yng nghanol ansicrwydd parhaus Brexit, mae llai nag un ym mhob tri (29%) o gwmnïau bach yn disgwyl y bydd eu perfformiad yn gwella dros y chwarter nesaf. Mae mesur hyder Mynegai Busnesau Bach y DU yn -1.7 yn Chwarter 3 2018, i lawr o +12.9 yn Chwarter 2 2018.

Mae hyn yn nodi'r trydydd darlenniad Mynegai Busnesau Bach negyddol yn sgil refferendwm yr UE yn Chwarter 3 2016. Nid yw'r Mynegai Busnesau Bach wedi dychwelyd i'r lefel a welwyd yn Chwarter 4 2015 (+21.7) ar unrhyw adeg ers hynny.

Mae'n agos i un ym mhob tri (27%) o allforwyr bach yn sôn am werthiannau rhyngwladol sy'n syrthio yn Chwarter 3 2018, i fyny o 19% yn yr un cyfnod y llynedd. Mae un ym mhob pump (21%) yn disgwyl i'r duedd hon barhau yn Chwarter 4, o gymharu â 15% yn Chwarter 3 2017.

<https://www.fsb.org.uk/media-centre/press-releases/small-firms-increasingly-pessimistic-as-brexit-talks-reach-crunch-point>

Mae hwn yn adeg i gefnogi busnesau bach ac nid i dorri cymorth.

Mae 15,780 o fusnesau yn y sir ac mae 14,910 o'r cyfanswm yn ficrofusnesau sy'n cyflogi llai na 10 o bobl. Yn ein barn ni mae'r dirwedd yma o fusnesau bychain iawn gan mwyaf yn un sydd ag angen mwy o gymorth a help o bryd i'w gilydd nag sydd ei angen ar fusnesau mwy. Twristiaeth yw'r prif sector diwydiant yn y sir, mae 15,601 o bobl yn gweithio mewn twristiaeth yn y sir a threulir dros 22miliwn o ddiwrnodau twristiaid yn y sir. Mae'r niferoedd hyn wedi cynyddu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r ymdrechion a wneir gan fusnesau, cyrff masnach, llywodraethau a chynghorau yn cynhyrchu canlyniadau cadarnhaol i'n heconomi leol.

Rydym yn derbyn bod llwyddiant cynnig twristiaeth Gwynedd wedi dod â pheth pwysau ar wasanaethau a seilwaith. Ond nodwn fod y Cyngor, dan y cynllun taliadau poblogaeth uwch, wedi derbyn £10.2m yn 2016/17 i adlewyrchu'r niferoedd a'r pwysau hyn. Felly, mae'n ymddangos fod arian a gaiff ei wario ar wasanaethau seilwaith yn gysylltiedig â thwristiaeth yn ogystal â'r adran cymorth twristiaeth yn ei hanfod yn ariannu ei hun ac felly dylai gael ei neilltuo rhag unrhyw doriadau a ystyrir. Yn wir mae dadl dros gynyddu gwariant yn y meysydd hyn.

I gloi, credaf fod yr holl wybodaeth yma wrth wraidd yr angen i gynnal swyddogaethau cymorth i fusnesau a thwristiaeth y Cyngor. Rwyf yn derbyn fod gennych ddewisiadau anodd i'w gwneud ond bydd toriadau i'r swyddogaethau cymorth i fusnes hyn ond yn niweidio'r economi yng Ngwynedd ac o'r herwydd les ein cymunedau ac fe fyddant felly yn hunandrechol.

Rwyf yn hapus i gyfarfod â chi i drafod ymhellach petaech yn dymuno hynny.

Yn gywir,

Ian Nellist

Ian Nellist B.A. (Econ), A.C.A.
Cadeirydd FSB Cymru

Grŵp Rheolaeth Cyrchfan

Hydref 23ain, 2018.

Dymunaf ddiolch am eich amser i gyfarfod y dydd o'r blaen i drafod a gwyntyllu y torriadau heriol i gyllid sydd yn wynebu Cyngor Gwynedd. Gwelwyd mor annodd yw pwyso, mesur a chlorianu lle i dorri yn ol ar wariannau ac arbed o fewn gwahanol adrannau.

Fel cadeirydd Rheolaeth Cyrchfan Gwynedd, a heb fod yn hir wyntog, pwysleisiaf bwysigrwydd cyfraniad y diwydiant twristiaeth i gymunedau gwledig Gwyedd, sydd yn ol adroddiadau yn cyfrannu cyfwerth a thros £1.06 biliwn o arian i'r economi yn ein ardaloedd gwledig.

Mae'r sector dwristiaeth y cefnogi dros 15,500 o swyddi drwy fusnesau bychan yn y Sir. Bydd y swyddi hyn yn sicir yn fwy allweddol rwan nag erioed gyda newidiadau sylweddol ac effeithiau Brexit yng ngefn gwlad ar y gorwel a'r diwydiant amaeth y crebachu.

Mae rol Gwasanaeth Twristiaeth a Marchnata Cyngor Gwynedd yn holl bwysig yn cyd gordio cyfundrefn a stwythur i gefnogi'r sector trwy arwain y grŵp Rheolaeth Cyrchfan, gan ysgogi cyd weithio effeithiol rhwng y gwahanol haenau o'r cynnig twristiaeth Sirol. Mae Gwasanaeth Twristiaeth a Marchnata yn gyfrwng holl bwysig i osod blaenoriaethau a bidiau am nawdd i wella yr is adeiledd twristiaeth o fewn Gwynedd. Yma ceir cyswllt strategol ar ran y sector gyda Croeso Cymru o ran y blynyddoedd them a'r cynllun strategol am y degawd nesaf sef "Ffordd Cymru".

Mae angen am barhad o'r cyd weithio yma er mwyn sicrhau fod y gyrchfan yn ffynnu ac yn gwella'i safon drwy ddenu nawdd Croeso Cymru i allu buddsoddi mewn is adeiledd. Mae'n wastad angen gwella'r gyrchfan ac ni allwn fod yn segur. Hefyd mae'r Gwasanaeth Twristiaeth a Marchnata'r Cyngor yn adnodd i reoli rhai agweddau o'r diwydiant er mwyn gwarchod a pharchu buddiannau trigolion Gwynedd.

Gwelwyd torriadau sylweddol i'r gwasanaeth yn ystod y cylch ariannol diwethaf gan golli 15 swydd ac ar ben hyn y toriadau blynyddol ac arbedion effeithiolrwydd.

Ar hyn o eiriau hyderaf y bydd Cyngorwyr Gwynedd yn sylweddoli gwerth twristiaeth i economi Gwynedd, a'r angen am barhad a phwysigrwydd y Gwasanaeth Twristiaeth a Marchnata ac i beidio a thorri yn ol ar gyllid yr adran yma. Dyma'r adran sydd yn gyfrifol am ddod ac arian i economi Gwynedd, Sir sydd mor brin o ddiwydiannau eraill.

Yn gywir



Anwen Jones (Cadeirydd Y Grŵp Rheolaeth Cyrchfan)

Fforwm Mynediad Lleol Arfon a Dwyfor

Arfon & Dwyfor Local Access Forum

Cadeirydd / Chair Vincent Mears

29 Hydref 2018

Ymateb Fforwm Mynediad Lleol Arfon a Dwyfor i ymgynghoriad Cyngor Gwynedd “Pa Wasanaethau sy’n bwysig i chi ?

Mae Fforwm Mynediad Lleol Arfon a Dwyfor yn un o dri Fforwm Mynediad Lleol yng Ngwynedd. Apwyntir aelodau'r Fforwm gan Gyngor Gwynedd yn unol â gofynion Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i roi cyngor i Gyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â gwella mynediad i gefn gwlad. Yng nghyfarfod y Fforwm a gynhaliwyd ar y 25ain o Fedi 2018 cytunwyd nad oedd gan y Fforwm swyddogaeth i ymateb i'r materion a rhestrwyd yn yr arolwg heblaw am y rai sy'n cael effaith ar fynediad i gefn gwlad, sef eitemau 8,9,19,51,52,53 a 54. Penderfynwyd dylai'r Cadeirydd ymateb drwy lythyr.

Mae'r Fforwm yn deall bod prinder cyllid ar gael i'r Cyngor ac yn gresynu'r toriadau parhaus yn y grant gan lywodraeth ganol tuag at wasanaethau llywodraeth leol. Mae llawer o'r gwasanaethau yn ddyletswyddau statudol dan Ddeddfau Seneddol tra mae eraill wedi eu gorfodi ar lywodraeth leol gan lywodraeth ganol heb ystyriaeth sut gellir ariannu'r ddyletswyddau. Serch hynny, mae'r Fforwm yn credu y dylai'r gwasanaethau a rhestri'r uchod fod o fewn y categorïau mwyaf pwysig, ac felly dylent dderbyn rhagor o gyllid a staff.

Mae categorïau 8 a 9 yn disgyn o fewn Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad. Ers 2010 mae'r cyllid a staff parhaol ar gyfer cefn gwlad, bioamrywiaeth a hawliau tramwy wedi gostwng o 23 swydd i 11.5 sy'n golygu nad yw'r Cyngor yn gallu cwrdd â'i ddyletswyddau i warchod a chynnal cefn gwlad y Sir a'r rhwydwaith hawliau tramwy. Mae'r Fforwm yn ymwybodol nad yw Gwynedd yn unigryw o orfod gwneud toriadau yn y gwasanaethau hyn gyda rhai awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr wedi lleihau'r gwasanaethau i ddim a dylid canmol Y Cyngor am beidio cymryd camau mor eithafol. Serch hynny, rydym o'r farn bod y toriadau sydd wedi eu gwneud i'r Gwasanaeth hyn yn anghyfartal ac annheg wrth gymharu â gwasanaethau eraill o fewn y Cyngor.

Roedd Cynllun Gwella Hawliau tramwy 2007 yn dangos bod problemau mawr oherwydd diffyg arwyddo, giatiau a chamfeydd wedi torri, pontydd diffygiol a llwybrau wedi eu cau gan lystyfiant. Er gwaethaf cyllid grant Cynllun Gwella Hawliau Tramwy gan Lywodraeth Cymru mae cyflwr y rhwydwaith hawliau tramwy wedi dirywio a chredwn bellach nad oes mwy na 50% o'r rhwydwaith ar gael i'w defnyddio. Credwn fod trefn blaenoriaethu ar gyfer

cynnal hawliau tramwy (oedd wedi ei gyflwyno gan swyddogion Hawliau Tramwy er mwyn dygymod a lleihad parhaus mewn cyllid ar gyfer cynnal a staff oedd yn gwneud y gwaith o gynnal y rhwydwaith cyfan yn amhosibl) wedi ei ddefnyddio i gyfiawnhau'r sefyllfa yma. Ar gychwyn y polisi roedd 5 categori (doedd llwybrau categori 5 yn derbyn dim cynnal) ers hynny addaswyd i 4 categori gyda chategoriâu 3 a 4 sydd oddeutu 50% o'r rhwydwaith yn derbyn dim neu ychydig iawn o adnoddau i'w cynnal. Heblaw am yr hawliau tramwy sy'n rhan o Lwybr Arfordir Cymru sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ar gyfran o 75% dim ond y Lonydd Glas sy'n fynediad drwy ganiatâd a llwybrau category 1 sy'n cael eu cynnal i safon dderbyniol. Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gynnal pob hawl tramwy o fewn ei ardal, mae'r polisi yma yn ymddangos yn anghyfreithlon ac y dylid ei adolygu ar frys. Sut all Cyngor Gwynedd fod gyda pholisi i beidio ymgymryd â dyletswyddau sy'n ofynnol iddynt wneud drwy Ddeddf Seneddol?

Gwasanaeth 19, mae'r Cyngor eisoes wedi gwneud arbedion ac wedi torri'r ddarpariaeth ar gyfer cynnal toiledau cyhoeddus. Mae toiledau cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig ac wrth yr arfordir a thraethau yn allweddol ar gyfer darparu mynediad diogel a cyfforddus i gefn gwlad a'r arfordir. Mae Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd 2013 i 2020 yn nodi y dylid gwneud gwell darpariaeth ar gyfer toiledau cyhoeddus. Er bod rhai o'r cyfleusterau bellach yn cael eu cynnal gan gynghorau cymuned a thref, mae eraill wedi eu cau; er gwaethaf cyngor y Fforwm i warchod a gwella'r ddarparith yng Ngwynedd. Gall hyn ond cael effaith andwyol ar fynediad i gefn gwlad ac arwain at beryglu iechyd wrth i'r cyhoedd fynd i'r tŷ bach lle bynnag y gallant.

Gwasanaeth 51, mae'n bwysig hyrwyddo'r ardal a chefnogi'r sector dwristiaeth drwy ddarparu gwybodaeth sy'n galluogi'r cyhoedd i gael mynediad at gefn gwlad ac arfordir gwych Gwynedd sy'n cefnogi llesiant trigolion Gwynedd gyda thwristiaeth yn cyfrannu dros 1 biliwn i economi'r Sir. Mae Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd 2013 i 2020 yn dweud bod Canolfannau Gwybodaeth i Ymwelwyr yn allweddol i'r economi leol ac y dylent ddatblygu i fod yn ganolfannau cymunedol yn ogystal â darparu gwybodaeth i ymwelwyr gan roi sylw i gynnyrch lleol, digwyddiadau a gweithgareddau gan hefyd fod yn lleoliad i hybu twristiaeth a datblygiad economaidd lleol. Mae'r Fforwm yn siomedig bod y Cyngor, yn groes i gyngor y Fforwm, wedi dewis i gau'r mwyafrif o'r Canolfannau Gwybodaeth i ymwelwyr a chynghorir y Cyngor y byddai toriadau pellach yn cael effaith andwyol ar fynediad i gefn gwlad a'r arfordir ac i'r economi lleol.

Mae Gwasanaethau 52,53 a 54 yn cael eu darparu gan wasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig y Cyngor Roedd y toriadau blaenorol, oedd yn groes i farn y Fforwm, wedi cael effaith mawr ar y Gwasanaeth Morwrol sy'n allweddol i ddarparu mynediad diogel i draethau, porthladdoedd a dyfroedd arfordir y Sir sy'n eu tro. Yn dod a mwynhad i'r cyhoedd ac incwm sylweddol i'r economi lleol. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am barciau gwledig sydd ers y toriadau diwethaf heb gyllideb i'w cynnal, mae hyn yn sefyllfa drychinebus. Mae Parc Padarn yn un o brif atyniadau i ymwelwyr, sy'n golygu, heblaw am ystyriaethau eraill, bod yna gyfrifoldebau enfawr i gadw'r cyhoedd yn ddiogel mewn perthynas â llyn Padarn ac adfeilion y gweithfeydd llechi sydd o fewn y parc. Mae Parc Glynllifon wedi ei gofrestru'n Barc a Gerddi hanesyddol, ac fel perchennog y safle mae gan

y Cyngor ddyletswydd o ofalu am y tirlun yma. Dylai fod yn berl ymysg asedau'r Cyngor ond mae'n gyflym yn dod yn amhosibl i'w ddefnyddio ac yn anniogel oherwydd diffyg cynnal. Mae'r parc yn le ardderchog i dwristiaeth a phobl Gwynedd ymweld ag yn cynnig cyfleoedd addysgol ardderchog i ysgolion a cholegau'r sir i fwynhau a deal byd natur ynghyd a hanes y parc a'r ardal. Mae'r Fforwm yn credu dylid adfer y gyllideb y Parc ac i adnabod ffyrdd o ddod ag incwm i'r Cyngor a'r economy leol. Rhaid hefyd datrys y gwrthdaro ar bwysau ar Barc Glynllifon sy'n tarddu o ofynion y Coleg I ddarparu addysg amaethyddol a choedwigaeth a dymuniad perchennog plas Glynllifon I ddefnyddio'r parc ac i adfer y tirlun hanesyddol. Nid yw dogfen ymgynghoriad "Pa wasanaeth sy'n bwysig i chi?" yn cyfeirio at ardaloedd a thiroedd agored eraill y Sir. Credwn fod y rhain yn gyfrifoldeb sawl gwasanaeth, Priffyrdd a Bwrdeistrefol a Chefn Gwlad. Mae cyllideb Priffyrdd a Bwrdeistrefol wedi torri a does gan y Gwasanaeth Cefn Gwlad ddim cyllideb i gynnal yr ardaloedd maent yn gyfrifol amdanynt. Mae'r parciau bach, ardaloedd hamdden a gwarchodfeydd natur yn bwysig yn lleol ac yn genedlaethol ac angen adnoddau. Credwn dylid nid yn unig adfer cyllidebau ond dylid rhesymoli cyfrifoldeb am y parciau ac ardaloedd hamdden i un Gwasanaeth gyda'r adnoddau, staff, profiad a sgiliau arbenigol i'w cynnal yn effeithiol, o'r gwasanaethau presennol yn y Cyngor credwn ddylai hyn fod y Gwasanaeth Cefn Gwlad.

Mae ymchwil byd eang yn dangos y budd enfawr i iechyd corfforol a meddyliol a ddaw o gael mynediad i natur a chefn gwlad. Mae cerdded hamddenol yn ddull effeithiol o gadw'n heini a dangosir bod planhigion yn rhyddhau cemegau sydd nid yn unig yn gwneud i bobl teimlo'n well ond hefyd yn gwella metaboledd a systemau sy'n diogelu'r corff rhag haint.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod saith nod i gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Y tri nod cyntaf yw - Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth a Chymru iachach. Mae'r Fforwm o'r farn, drwy beidio â buddsoddi mewn gwasanaethau cefn gwlad, hawliau tramwy, toiledau cyhoeddus, y Gwasanaeth twristiaeth, traethau, harborau a gwasanaeth morwrol a pharciau gwledig mae'r Cyngor yn methu yn ei dyletswydd gyfreithiol i gwrdd â'r nodau uchod.

Mae Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn, sydd wedi ei gyhoeddi gan y Bwrdd Gwasanaethau cyhoeddus yn dweud "Dylid galluogi plant ac oedolion i fod yn weithgar yn enwedig yn yr awyr agored, dylwn wneud hyn drwy hyrwyddo a gwella mynediad i ardaloedd gwyrdd naturiol. Rhaid annog pobl i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau egnïol fydd yn atal salwch yn y dyfodol. Oherwydd yr angen i wella iechyd corfforol a meddyliol y boblogaeth a'r effaith hir dymor ar lesiant, iechyd a gofal bydd hyn yn flaenoriaeth i'r Bwrdd."

Mae Cynllun Gwynedd am 2017/18 yn cynnwys yr amcanion llesiant canlynol :
“Hyrwyddo Bywyd Gwyllt”, “Galluogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau egnïol a byw bywydau iach.”, “Cynnal Llwybrau cyhoeddus a chaeau chwarae” “Gwarchod a rheoli ansawdd Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Penrhyn Llyn”, ni allwn weld unrhyw fanylion ynglŷn â sut bydd y Cyngor yn fwriadau cwrdd â'r amcanion hyn a does dim ymrwymiad i wario arian fydd yn eich galluogi i gwrdd â'r amcanion yma.

Yn gywir,



Vincent Mears,

Cadeirydd Fforwm Mynediad Lleol Arfon a Dwyfor

Cwmni Inigo Jones

Mae'n anffodus iawn fod na mwy o toriadau yn ddod a dyma beth mae bwrdd Rhwydwaith Busnes Gwynedd wedi cytuno .

Hefyd am Gwybodaeth un neu ddau sylwadau o rhai aelodau o'r bwrdd

One other point is ' Can Gwynedd look at sources within the Tourist Industry to generate income to make the Industry a world class facility in Gwynedd / Sustainable & self funding e.g. Passes to walk Snowdon or entrance money drop off points- Tolls-after all you need licences to fish in our rivers. Electronic bridge & tunnel Tolls for all non residents .

'Spend money to make money'

There's a pilot scheme on the go at the moment called Rhodd Eryri/Snowdonia Giving, whereby people give voluntary donations to assist with maintaining paths, etc.

The Lakes do it so why can't Snowdonia, but it needs to be on a much bigger scale.

There is a large cost of setting up and running such a scheme and I personally would not want it run by the council alone, but by a separate organisation representing the public and private sector which would have to agree how any moneys collected would be spent. I would like to see it spent on marketing the area as well as on repair and improvements to facilities in the area
This idea is certainly worth seriously considering

AGW have been running it so far, and I think they've looked at Snowdonia Active running it, and I know that Hwb Eryri were approached to run it too. I agree that the council shouldn't run it alone, and that they should look at a partnership approach to Destination Management. There are a number of TBIDs nowadays (Tourism Business Improvement Districts), which are essentially Destination Management Organisations funded by its own members via a levy, which gives members control over its spend.

Arloesi Gwynedd Wledig/Menter Môn lead on the Rhodd Eryri project.

I think the intention is to expand now that the pilot is proven.

Inigo Jones & Co Ltd
Tudor Slate Works
Y Groeslon
Caernarfon
Gwynedd
LL54 7UE

Tel 01286 830242
Fax 01286 831247

Email slate@inigojones.co.uk
www.inigojones.co.uk

Fforwm Mynediad Ceffylau Gogledd Cymru

Hello . This is a response from our bridleways group Mynediad Ceffylau Gogledd Cymru to your Newyddion consultation : We are particularly concerned about the ongoing funding cuts to Rights of Way and the direct effect to equestrian off road access in Gwynedd .

Rights of Way dept have statutory duties under Acts of Parliament . Categories eight and nine of your consultation document fall under the transportation and countryside service. Since 2010 funding and permanent staff for countryside ,bio diversity and rights of way has been reduced from 23 posts to 11.5 ,which means the council is no longer able to adequately fulfil its statutory obligations , to protect and maintain the counties countryside , and its public rights of way network. In 2001 the Rights of Way Improvement Plan ,shows that there were significant problems with lack of signage , broken gates ,styles and bridges and path's blocked by vegetation and obstruction issues by landowners. Despite money from the Welsh government via the rights-of-way improvement plan grant the rights of way network has deteriorated resulting in more than 50% of the network now being inaccessible. The councils prioritisation policy for rights of way maintenance has been manipulated and used to justify this worsening situation. The policy began with five categories, where category five received no maintenance , this has since been modified to 4 categories , as three and four represent at least 50% of the network and receive minimal maintenance , this situation will continue to worsen. As the council has a statutory duty to maintain all public rights of way within its jurisdiction this policy is unjustifiable and illegal and therefore warrants urgent review. The well-being of future generations act 2015 sets out seven goals for public bodies in Wales , the first three of these are :A prosperous Wales A resilient Wales , A healthier Wales . If the council fails to invest in its rights of way network it will be failing in achieving its legal obligation to achieve these three goals. May I also take this opportunity to remind you of the huge contribution equestrians make to the local economy ,and receive very little in return . At the very minimum the off road bridle network should be open and fit for purpose . Regards Denise Meldrum bridleways officer and member of A and D LAF .